

**Rhan I**

- **Adran 1** Hyrwyddo ymarfer mwy diogel mewn plwyfi ac ardaloedd gweinidogaeth tudalennau 1- 8
- **Adran 2** Hyrwyddo ymarfer diogel – plant a phobl ifanc tudalennau 1- 4
- **Adran 3** Hyrwyddo ymarfer diogel – oedolion mewn perygl tudalennau 1- 3
- **Adran 4** Recriwtio diogel gan gynnwys proses y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) tudalennau 1- 3
- **Adran 5** Diogelwch a diogelu ym maes penodol y weinidogaeth tudalennau 1- 2
- **Adran 6** Corau eglwysi cadeiriol ac eglwysi sy'n cynnwys pobl ifanc, clochuddion ac ysgolion eglwys tudalen 1
- **Adran 7** Llogi adeiladau'r eglwys tudalen 1
- **Adran 8** Diogelu ar-lein tudalennau 1- 5
- **Adran 9** Ffilmio a ffotograffiaeth tudalennau 1- 3
- **Adran 10** Cludiant tudalennau 1- 2
- **Adran 11** Digwyddiadau preswyl tudalennau 1- 2
- **Adran 12** Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth tudalen 1
- **Adran 13** Chwythu'r chwiban (cofnodi cyfrinachol) tudalennau 1- 2
- **Adran 14** Mynegi pryderon am unigolyn sydd mewn swydd o ymddiriedaeth tudalennau 1- 3
- **Adran 15** Rhoi gwybod am gamdriniaeth o'r gorffennol ac ymdrin ag effeithiau datgeliad ar gynulleidfa tudalennau 1- 4
- **Adran 16** Ymateb i oroeswyr tudalennau 1- 2
- **Adran 17** Gweithio gyda chamdrinwyr honedig a throseddwyr hysbys tudalen 1
- **Adran 18** Asesu risg tudalennau 1- 2

*Yn parhau*

**Rhan 2**

Atodiadau

tudalennau

1-18

**Rhan 3**

Ffurflenni a chanllawiau

tudalennau

1-36

<b>Canllaw 1:</b>	Egwyddorion diogelu
<b>Ffurflen 2:</b>	Ffurflen ganiatâd gyffredinol
<b>Ffurflen 3:</b>	Ffurflen ganiatâd ar gyfer gweithgareddau penodol
<b>Ffurflen 4:</b>	Ffurflen ganiatâd i wneud a defnyddio delweddau
<b>Ffurflen 5:</b>	Ffurflen ganiatâd i gyfathrebu â phobl ifanc drwy ddulliau electronig
<b>Ffurflen 6:</b>	Ffurflen gais i gymeradwyo gweithgareddau
<b>Ffurflen 7:</b>	Rhoi gwybod am ddigwyddiad, damwain neu ddigwyddiad/damwain fu bron a digwydd
<b>Ffurflen 8:</b>	Cofnod y sesiwn
<b>Ffurflen a Chanllaw 9:</b>	Rhoi gwybod am bryder neu honiad diogelu Nodiadau cyfarwyddyd - rhoi gwybod am bryder neu honiad diogelu
<b>Ffurflen 10:</b>	Cytundeb ar gyfer defnyddio TGCh
<b>Ffurflen 11:</b>	Datganiad ar weithdrefnau diogelu
<b>Ffurflen 12:</b>	Ffurflen gais enghreifftiol
<b>Ffurflen 13:</b>	Cais enghreifftiol am eirida
<b>Ffurflen 14:</b>	Cytundeb enghreifftiol â throreddwr hysbys
<b>Ffurflen 15:</b>	
<b>Ffurflen 16:</b>	
<b>Ffurflen 17:</b>	
<b>Ffurflen 18:</b>	

## Adran I

**Hyrwyddo ymarfer mwy diogel mewn plwyfi ac ardaloedd gweinidogaeth**

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn hyrwyddo gweithdrefnau sy'n hybu ymarfer mwy diogel wrth weithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl. Mae'r eglwys yn awyddus i greu a chynnal diwylliant sefydliadol sy'n adlewyrchu pwysigrwydd diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl.

Felly, wrth drefnu digwyddiadau mae angen cydymffurfio â'r canlynol:

- Asesiadau risg
- Cofnodi damweiniau a digwyddiadau
- Cymorth cyntaf
- Rheoliadau bwyd, diod a hylendid bwyd
- Polisi lechyd a Diogelwch y Plwyf

Nid rhestr gynhwysfawr mo hon, a chyn trefnu unrhyw ddigwyddiad mae'n rhaid cyfeirio at y canllawiau lechyd a Diogelwch sy'n cael eu darparu drwy'r Yswiriant Eglwysig ar gyfer plwyfi ac ardaloedd gweinidogaeth. Mae'r canllawiau lechyd a Diogelwch ar wahân i'r polisi hwn a dylid eu darllen nhw cyn trefnu unrhyw ddigwyddiadau.

Fodd bynnag, nid yw'r polisi hwn yn cynnwys canllawiau ar y pynciau canlynol, a dylid eu darllen lle bo hynny'n berthnasol:

1. Gweithgareddau - Adran 2
2. Clochuddion - Adran 6
3. Corau Cadeirlannau - Adran 6
4. Ysgolion eglwys - Adran 6
5. Cyfathrebu â phobl ifanc yn electronig - Adran 8
6. Ffilmio a ffotograffiaeth - Adran 9
7. Llogi adeiladau'r eglwys - Adran 7
8. Mynediad i'r rhyngwyd - Adran 8
9. Cydsyniad rhieni - Adran 2
10. Digwyddiadau preswyl - Adran 11
11. Gweinidogaeth ddiogel - Adran 5
12. Ymarfer diogel ar gyfer oedolion mewn perygl - Adran 3
13. Recriwtio diogel - Adran 4
14. Ymarfer diogel ar gyfer plant a phobl ifanc - Adran 2
15. Cludiant - Adran 10

## Y Cyngor Plwyf Eglwysig (PCC)

Yr hyn y mae angen i'r PCC ei wneud

1. Mabwysiadu polisi diogelu'r Eglwys yng Nghymru. Gwneir hyn trwy gofnodi trafodaeth yng nghyfarfod y PCC a chofnodi yn y cofnodion y penderfyniad i'r polisi gael ei 'fabwysiadu'n ffurfiol'.
2. Penodi cydgysylltydd diogelu ar gyfer y plwyf neu'r ardal weinidogaeth a ddylai fod yn destun gwiriad DBS manylach. Rhaid i bob PCC gyflawni gwiriadau DBS manylach (heb restrau eithriedig) ar leiafswm o 3 aelod o'r PCC, ac fel rheol dylai'r rhain gynnwys 2 o Wardeiniaid yr Eglwys.
3. Sicrhau bod addoliad a gweithgareddau yn cael eu trefnu yn unol â'r polisi a'r gweithdrefnau a argymhellir.
4. Sicrhau'r canlynol ar gyfer yr holl weithwyr cyflogedig a'r gwirfoddolwyr:
  - a. bod swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi'u nodi'n glir ar gyfer y gweithgareddau y maent yn ymgymryd â nhw.
  - b. tystlythyrau a datgeliad priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
  - c. trafod unrhyw ddatgeliadau sy'n deillio o wiriad DBS yn y Panel Diogelu Taleithiol cyn i unigolyn ddechrau gweithio i'r eglwys.
  - d. darparu'r hyfforddiant gofynnol.
  - e. sicrhau bod unigolion sydd newydd eu penodi yn cael cyfnod prawf fel bod modd asesu pa mor addas ydynt ar gyfer y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd iddynt.
  - f. dylai'r disgrifiad swydd perthnasol gael ei ysgrifennu'n briodol a'i gymeradwyo gan y PCC.
5. Sicrhau bod unrhyw bryderon neu gyhuddiadau yn cael eu trin yn unol â gweithdrefnau'r Eglwys yng Nghymru.
6. Sicrhau bod yr holl gofnodion diogelu yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data a chanllawiau'r polisi hwn.
7. Sicrhau bod cofnodion diogelu megis 'nodiadau ysgrifenedig a wnaed yn dilyn datgeliad' yn cael eu cadw yn unol ag egwyddorion a'u hanfon ymlaen yn ddiogel at y Swyddog Diogelu Taleithiol.
8. Sicrhau bod unrhyw oroeswyr hysbys o gamdriniaeth yn derbyn croeso a chymorth gan gymuned yr eglwys.
9. Hysbysu'r tîm diogelu am unrhyw droseddwyr rhyw hysbys yng nghymuned yr eglwys cyn gynted ag y maent wedi'u nodi.

Mae cymorth i fod yn eglwysi diogel ar gael i blwyfi gan y Tîm Diogelu Taleithiol, ac mae manylion cyswllt ar gael ar wefan yr Eglwys yng Nghymru neu drwy ffonio Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru ar 02920 348 200.

Mae'n ofynnol i'r PCC fabwysiadu a derbyn y polisi hwn bob blwyddyn, a dylai holl aelodau'r PCC lofnodi a dyddio hwn at ddibenion cadarnhau. Dylai'r poster 'Polisi Diogelu' ar ddiwedd yr adran hon gael ei gwblhau a'i arddangos yn glir yn holl adeiladau'r eglwys. Mae'r gweithdrefnau diogelu allweddol wedi'u crynhoi isod, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael am y gweithdrefnau yn ymwneud â phobl ifanc (Adran 2) ac oedolion mewn perygl (Adran 3).

**Gweithdrefnau diogelu allweddol: ymateb a chofnodi pryderon a chyhuddiadau.**

Mae lles plentyn/person ifanc yn hollbwysig, ac yn y cyswllt hwn mae'n bwysig nad yw unrhyw gyswllt â'r eglwys neu unrhyw gamau gweithredu oddi mewn i'r eglwys yn cynyddu'r perygl o niwed.

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn cydnabod pwysigrwydd darparu amgylchedd diogel sy'n dangos parch a gofal. Mae hyn yn bwysig iawn i'r rhai sy'n agored i niwed ar sail oedran neu amgylchiadau. Dylai pawb, gan gynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl yn ein cymdeithas, allu cymryd rhan ym mywyd yr eglwys mewn amgylchedd lle maent yn teimlo'n ddiogel, sy'n parchu ac yn meithrin eu llesiant ac sy'n eu helpu i dyfu a datblygu yn ysbrydol.

**Ymateb i bryder neu gyhuddiad yn ymwneud â phlentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl**

Gall pryderon yn ymwneud â phlentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl godi mewn nifer o ffyrdd gwahanol, gan gynnwys:

- gall rhywun arsylwi ar newid yn ymddygiad neu ymarweddiad plentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl.
- gall y plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn roi gwybod i rywun arall am fater sy'n peri pryder iddo yn ei fywyd ei hun neu ym mywyd person arall.
- gall rhywun arsylwi ar weithgaredd sy'n peri pryder neu sy'n codi cwestiwn am yr hyn sy'n digwydd.
- gall rhywun arall fynegi pryder.

O le bynnag y daw'r wybodaeth, mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n derbyn y wybodaeth ddilyn y gweithdrefnau canlynol wrth ymateb i'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn.

**Atgyfeirio'r pryder neu'r honiad**

Mae'n rhaid hysbysu Swyddog Diogelu Taleithiol am unrhyw bryder neu gyhuddiad yn ymwneud â niwed i blentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl. Os yw gwybodaeth sy'n cael ei rhannu yn codi pryderon bod plentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl wedi dioddef niwed, neu ei fod mewn perygl o ddioddef niwed, bydd Swyddog Diogelu Taleithiol yn atgyfeirio'r pryderon neu'r honiadau i'r awdurdodau statudol yn y rhan fwyaf o achosion. Bydd y pryderon yn cael eu rhannu â'r awdurdodau statudol bob tro os yw'r sawl yr honnir ei fod yn gyfrifol am y niwed mewn swydd o ymddiriedaeth.

**Gweithredu Brys**

Weithiau bydd pryderon yn codi ynglŷn â diogelwch uniongyrchol y plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn mewn perygl e.e. mae unigolyn yn ofni mynd adref. Mewn amgylchiadau o'r fath, nid yw'n briodol aros am Swyddog Diogelu Taleithiol, a bydd yn ofynnol i'r sawl sy'n derbyn y wybodaeth atgyfeirio'r achos ar unwaith i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu, fel y nodir isod.

## Atgyfeirio

Mae modd atgyfeirio'r achos i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol lleol ar gyfer oedolion/plant yn ystod oriau swyddfa arferol. Y tu allan i oriau swyddfa arferol, bydd angen atgyfeirio'r achos i'r gwasanaethau brys sydd ar ddyletswydd neu'r heddlu (gweler Atodiad I ar gyfer manylion cyswllt). Mae gan yr heddlu a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol ddyletswydd i gydgyssylltu â'i gilydd yn ddi-oed a chydweithio.

Argymhellir y dylid cwblhau Ffurflen 9 yn Rhan 3 o'r polisi hwn cyn rhoi gwybod am bryder yn ymwneud â diogelu, a sicrhau ei bod wrth law wrth wneud yr atgyfeiriad.

Dylai'r person sy'n gwneud yr atgyfeiriad dderbyn y wybodaeth ganlynol gan y gweithiwr cymdeithasol sydd ar ddyletswydd neu'r heddlu:

- enwau a rhifau ffôn cyswllt.
- cyngor ar yr hyn y dylai'r sawl sy'n gwneud yr atgyfeiriad ei ddweud wrth y plentyn/oedolyn mewn perygl.
- cyngor ar yr hyn y dylai'r sawl sy'n gwneud yr atgyfeiriad ei wneud nesaf, os oes angen iddo weithredu.
- amserlen ar gyfer rhoi gwybod i'r sawl sydd wedi gwneud yr atgyfeiriad am ganlyniad unrhyw ymyriad. O ystyried pwysigrwydd cyfrinachedd, mae'n debygol y bydd yr asiantaeth ond yn gallu rhannu gwybodaeth sylfaenol.

Os yw rhywun gwahanol i Swyddog Diogelu Taleithiol wedi gwneud yr atgyfeiriad, bydd angen hysbysu'r Swyddog Diogelu Taleithiol cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr atgyfeiriad fel bod modd iddo gydweithio â'r awdurdodau statudol a mynd i'r afael â'r pryder. Hefyd, dylai'r sawl sy'n gwneud yr atgyfeiriad anfon unrhyw waith papur neu adroddiad i Swyddog Diogelu Taleithiol cyn gynted ag y gall.

## Cofnodi a chadw cofnodion

Mae'n bwysig cadw cofnod cywir, cryno a chlir o bob achos lle mae plentyn, person ifanc neu oedolyn yn mynegi pryder neu'n gwneud cyhuddiad.

Os yw Ffurflen 9 yn Rhan 3 o'r polisi hwn wrth law, dylid ei defnyddio i gofnodi ffeithiau a gwybodaeth wrthrychol, neu gellir gwneud nodiadau a chwblhau'r ffurflen yn ddiweddarach, ond mor fuan â phosibl ar ôl gwneud y nodiadau.

Mae'n rhaid cadw unrhyw nodiadau neu wybodaeth yn gyfrinachol mewn lle diogel, cyn eu trosglwyddo/ei throsglwyddo i'r Swyddog Diogelu Taleithiol mor gyflym â phosibl.

**Canllawiau arferion da ar gyfer ymdrin â phlant, pobl ifanc neu oedolion sy'n awyddus i rannu gwybodaeth**


1. Dylid gadael i'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn siarad heb dorri ar ei draws.
2. Dylech chi wrando a chydabod yr hyn sy'n cael ei ddweud a'i dderbyn heb leisio barn neu fychanu'r wybodaeth.
3. Ni ddylech gynhyrfu, a dylech gynnig dealltwriaeth a sicrwydd yn syth.
4. Dylech osgoi rhoi geiriau yng ngheg y plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn.
5. Ni ddylech wneud unrhyw ddatganiadau sy'n barnu unrhyw berson.
6. Yn ystod pob sgwrs mae'n rhaid ystyried oedran y plentyn neu'r person ifanc, lefel ei ddealltwriaeth, ei ddiwylliant a'i ddefnydd o iaith.
7. Peidiwch â chwestiynu neu holi'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn. Mae'n bwysig peidio â gwneud addewidion na allwch eu cadw e.e. addo peidio â dweud wrth neb arall. Mae'n rhaid i'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn gael gwybod am yr angen posibl i roi'r wybodaeth i rywun mewn awdurdod er mwyn ei gadw'n ddiogel.
8. Os yw oedolyn mewn perygl yn mynegi pryder sy'n ymwneud ag ef ei hun, mae'n rhaid cael ei ganiatâd i fynd i'r afael â'r pryder. Os nad yw'n cydsynio, dylid ymgynghori â'r Swyddog Diogelu Taleithiol ac annog a chynorthwyo'r oedolyn i rannu ei wybodaeth.
9. Os oes perygl uniongyrchol o niwed, dylid egluro bod rhaid trosglwyddo'r wybodaeth ond y bydd yn cael ei thrin â gofal mawr.
10. Dylid hysbysu'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn bod angen cysylltu â'r Swyddog Diogelu Taleithiol.
11. Dylid mynd ati i wneud nodiadau cyn gynted ag y bo modd, gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir (Ffurflen 9). Dylid llofnodi'r ffurflen a nodi dyddiadau, amseroedd y digwyddiad, pryd y gwnaed y cofnod a phwy oedd yn bresennol. Mae'n rhaid cadw'r ffurflen neu'r nodiadau yn ddiogel.
12. Dylid cysylltu â'r Swyddog Diogelu Taleithiol cyn gynted â phosibl a'i hysbysu am y sefyllfa.
13. Os nad yw'r Swyddog Diogelu Taleithiol ar gael a bod y pryder yn fater brys, mae'n bosibl ymgynghori â gwasanaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol perthnasol neu'r heddlu yn uniongyrchol heb ddatgelu manylion personol y plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn. Mae'n bosibl y bydd y cyngor yn nodi bod angen gwneud atgyfeiriad, ac os felly mae'n rhaid gwneud hynny yn syth.
14. Dylai'r plentyn neu'r oedolyn dderbyn manylion cyswllt y person sy'n derbyn y wybodaeth, a dylai gael gwybod sut a phryd y cysylltir ag ef i dderbyn gwybodaeth am beth fydd yn digwydd nesaf. Ni ddylid gadael i blentyn neu oedolyn mewn perygl aros i glywed gan rywun arall, e.e. swyddog yr heddlu neu weithiwr cymdeithasol, heb unrhyw syniad o amserlen neu le.
15. **Ni ddylid hysbysu'r oedolyn y mae'r honiad neu'r pryderon yn ymwneud ag ef neu hi.** Mewn achosion o gam-drin rhywiol neu gorfforol neu achosion o gam-drin domestig neu drais, gall hyn roi'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn mewn perygl neu mewn perygl difrifol, neu fe all beryglu neu niweidio unrhyw ymchwiliad canlynol. Mewn rhai achosion, os yw unigolyn neu deulu wedi bod yn hysbys i'r awdurdodau ers peth amser ac os yw'r pryderon wedi bod yn cynyddu (fel mewn achosion o esgeulustod), gall fod yn briodol hysbysu'r unigolyn y mae pryder yn ei gylch bod atgyfeiriad yn cael ei

wneud. Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â hyn, dylid gofyn am gyngor y Swyddog Diogelu Taleithiol.

16. Mewn achos o bryderon neu honiad yn ymwneud ag unigolyn arall sydd mewn swydd o ymddiriedaeth yn yr Eglwys, **ni ddylid** hysbysu'r unigolyn hwn rhag ofn bod hynny'n niweidio unrhyw ymchwiliadau gan yr heddlu. Mae'n **rhaid** cysylltu â'r Swyddog Diogelu Taleithiol cyn gynted â phosibl.



Siart I



## Diogelu Taleithiol

Bydd y Swyddog Diogelu Taleithiol yn derbyn cyfrifoldeb am fynd i'r afael â phob pryder a honiad yn ymwneud â materion diogelu.

Os yw pryder yn cael ei atgyfeirio i'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, bydd y Swyddog Diogelu Taleithiol yn cadw mewn cysylltiad â'r gwasanaethau plant/oedolion nes bod yr asesiad a'r ymholiadau wedi'u cwblhau.

Bydd y Swyddog Diogelu Taleithiol yn hysbysu'r unigolion canlynol am unrhyw gamau gweithredu/penderfyniadau gydol y broses:

- y sawl sydd wedi atgyfeirio'r achos
- yr archddiacon ym mhob esgobaeth sydd â chyfrifoldeb penodol am ddiogelu, ac adran gyfreithiol Corff y Cynrychiolwyr
- y Panel Diogelu Taleithiol
- ble mae pobl sydd wedi'u heffeithio gan y broses yn gallu mynd yn yr esgobaeth i gael cymorth bugeiliol priodol

Mae manylion y Swyddogion Diogelu Taleithiol ar gael ar wefan yr Eglwys yng Nghymru [www.churchinwales.org.uk](http://www.churchinwales.org.uk) o dan 'Diogelu'.

Yn ôl i'r Mynegai

## Hyrwyddo ymarfer mwy diogel gyda phlant a phobl ifanc

Mae'r canllawiau canlynol yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yn benodol. Mae'r adran hon yn ategu'r wybodaeth "Hyrwyddo ymarfer mwy diogel mewn plwyfi ac ardaloedd gweinidogaeth" y cyfeirir ati yn Adran 1.

Mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau yn yr eglwys nad ydynt wedi'u bwriadu ar gyfer pobl ifanc yn unig, ac nad ydynt yn cael eu harwain o reidrwydd gan unigolion sydd wedi eu hyfforddi i weithio gyda phlant a phobl ifanc. Er enghraifft, gall plant a phobl ifanc fod yn aelodau o gorau, cymryd rhan mewn gweithgareddau canu clychau neu weithredu fel gweinyddion yn yr eglwys. Dylai pawb sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd yn yr Eglwys yng Nghymru sy'n dod â nhw i gysylltiad â phlant a phobl ifanc gydymffurfio â'r egwyddorion canlynol.

### Egwyddorion ymarfer da

Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc wneud y canlynol:

- sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r polisiau a'r gweithdrefnau hyn;
- bod yn esiampl dda i eraill;
- trin pob plentyn/person ifanc ag urddas a pharch;
- parchu amrywiaeth a cheisio hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer pobl ifanc o bob math, beth bynnag yw eu hoedran, anabledd, rhywedd, hil, crefydd neu gredo, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd;
- grymuso plant i'w diogelu eu hunain drwy wrando arnynt, rhoi dewisiadau iddynt, credu ynddynt a rhoi cyngor a gwybodaeth berthnasol iddynt (yn unol â'u hoedran a'u dealltwriaeth). Ystyried yr iaith sy'n cael ei defnyddio, goslef y llais ac iaith y corff bob amser;
- defnyddio cyffyrddiad yn briodol a pharchu ffiniau plentyn. Mae modd defnyddio cyffyrddiad i gyfleu anwyldeb, cysur a sicrwydd. Dylai fod yn addas i'r oedran a chael ei gychwyn gan y plentyn neu'r person ifanc yn hytrach na'r gweithiwr. Dylai fod yn seiliedig ar anghenion y plentyn neu'r person ifanc, ac nid ar anghenion y gweithiwr. Dylai unrhyw gyswllt corfforol ddigwydd yng ngŵydd pobl eraill. Mae cwtsh yng nghydestun grŵp yn wahanol i gwtsh y tu ôl i ddrysau caeedig;
- bod yn agored ac yn dryloyw fel tîm. Dylai aelodau timau fonitro ei gilydd ym meysydd ymddygiad a chyswllt corfforol. Dylent fod yn rhydd i helpu ei gilydd drwy herio yn adeiladol unrhyw beth a allai gael ei gamddeall neu ei gamddechongli;
- annog eraill i herio agweddau neu ymddygiad nad ydynt yn eu hoffi mewn ffordd briodol;
- ystyried diogelwch plant bob amser, ac ystyried diogelwch y gweithiwr i amddiffyn ei hun yn erbyn honiadau. Dylai ymddygiad fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol. Dylid cofio bod gweithredoedd sy'n seiliedig ar fwriadau da yn gallu cael eu camddechongli gan eraill;
- dysgu sut i reoli a disgyblu plant heb orfod defnyddio cosb gorfforol. **Peidiwch** byth â smacio plentyn a pheidiwch â gweiddi. Dylai dulliau disgyblu a rheoli fod yn seiliedig ar newid goslef y llais, atgyfeirio materion disgyblu yn ymwneud â phlant unigol i'w rhieni

a gofyn am gymorth ychwanegol os oes angen;

- dod i adnabod y plant a deall pa ddulliau sy'n llwyddiannus wrth eu trin fel unigolion ac fel grŵp. Llunio cytundebau grŵp sy'n addas i'r oedran (rheolau sylfaenol) gyda'r plant a'r bobl ifanc yn ymwneud ag ymddygiad derbyniol (e.e. dim taro, dim gweiddi, dim galw enwau ac ati) a'u hadolygu'n rheolaidd ar y cyd. Ni ddylid goddef gweithgareddau camdriniol gan gymheiriaid, e.e. bwlio;
- cytuno ar ganllawiau sylfaenol ar gyfer pob gweithgaredd fel bod pawb yn ymddwyn mewn ffordd gyson a bod disgwyliadau yn glir. Dylid sicrhau bod y canllawiau hyn yn cael eu rhannu a'u deall gan wirfoddolwyr, gweithwyr newydd, rhieni a phlant;
- peidio byth â gweithio ar eich pen eich hun gyda plentyn neu grŵp. Yn adeiladau'r eglwys, gallai hyn olygu gadael drysau ar agor, neu drefnu bod dau grŵp yn ymgymryd â gweithgareddau yn yr un ystafell. Mae hyn yn golygu bod gweithwyr yn gallu cefnogi ei gilydd a bod yn atebol i'w gilydd fel tîm;
- parchu preifatrwydd plant ond peidio byth ag addo cadw cyfrinachau neu gael sgysiau preifat neu agos â phlant a phobl ifanc. Mae'n bwysig cynnig gofal a chymorth priodol, felly wrth wrando ar broblem person ifanc neu gynnig cyngor iddo, dylid dewis lleoliad a safle priodol i gynnal sgwrs o'r fath. Os oes modd, dylid hysbysu arweinwyr eraill am y cyfarfod a sicrhau bod pobl eraill yn bresennol. Dylid osgoi sefyllfaoedd a allai danseilio perthynas o ymddiriedaeth;
- peidio â chychwyn neu ganiatáu gemau neu ddefnyddio cyfarpar sy'n arwain at gyswllt corfforol sylweddol rhwng oedolion a phlant neu a allai gael eu hystyried yn bryfoclyd yn rhywiol;
- peidio â gwneud sylwadau o natur rywiol, neu adael i eraill wneud sylwadau o'r fath, i unrhyw unigolyn neu am unrhyw unigolyn, ac osgoi unrhyw sefyllfa sy'n caniatáu neu'n annog person ifanc i geisio cael sylw o natur rywiol neu gorfforol;
- gofyn am gyngor a mynd i'r afael yn syth ag unrhyw ymddygiad gan blant a phobl ifanc sy'n ceisio denu sylw e.e. pyliau o dymer drwg a theimladau cariadus;
- peidio â gwahodd plant neu bobl ifanc i'ch cartref, oni bai eu bod yng nghwmni'r rhiant/gwarcheidwad;
- osgoi mynd i mewn i gartref plentyn os nad yw rhiant neu ofalwr yno, oni bai bod y plentyn mewn perygl o niwed os nad yw'n mynd i mewn i'w gartref;
- peidio â chludo plentyn/person ifanc heb hebryngwr. Dylai gweithwyr sicrhau bod arweinydd/cynorthwydd arall yn teithio gyda nhw yn y cerbyd. Os yw'r amgylchiadau'n golygu bod yn rhaid i blentyn/person ifanc gael ei gludo ar ei ben ei hun, mae'n rhaid rhoi gwybod am hynny i arweinwyr/cynorthwywyr eraill, ac mae'n rhaid i'r plentyn eistedd yng nghefn y cerbyd;
- mae angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a ffonau symudol gyda phlant a phobl ifanc. Gweler Adran 8 am ragor o ganllawiau;
- peidio byth â bychanu camdriniaeth. Dylid cymryd unrhyw honiad neu bryder yn ymwneud â chamdriniaeth o ddifrif. Mae'n rhaid ysgrifennu nodiadau gofalus am yr hyn a gafodd ei weld neu ei glywed a rhoi gwybod am y digwyddiad yn syth. Nodi, cofnodi, adrodd; peidio byth â bod ofn gofyn am gymorth a chyngor gan arweinwyr neu staff mwy profiadol. Mae modd ymgysylltu â'r Swyddog Diogelu Taleithiol a gofyn am ei gyngor, a dylid cysylltu ag ef.

## Cymryd rhan mewn gweithgareddau

Mae'r adran nesaf yn cynnwys canllawiau ar ymarfer da wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae'n cynnwys gofynion perthnasol, fel y gofynion yn ymwneud â chymarebau oedolion/plant. Dylid ceisio sicrhau cymeradwyaeth ffurfiol ar gyfer gweithgareddau arfaethedig lle bo hynny'n briodol (Ffurflen 6: Cais am Gymeradwyo Gweithgareddau). Dylid cadw cofrestr o bresenoldeb (Ffurflen 8: Cofnod Sesiynau) yn y clwb neu ar gyfer y gweithgaredd, ynghyd â chofrestr o weithwyr a gwirfoddolwyr ym mhob sesiwn. Dylid hysbysu rhieni/gofalwyr am natur y gweithgareddau.

## Goruchwyllo plant/pobl ifanc

Mae'n rhaid goruchwyllo plant a phobl ifanc bob amser, p'un ai a ydynt dan do neu yn yr awyr agored. Dylai'r arweinydd sicrhau bod digon o staff ar gael i fodloni'r cymarebau a argymhellir (gweler isod) a bod goruchwyliaeth ddigonol ar gael wrth ddefnyddio cyfarpar peryglus. Mae goruchwyliaeth ddigonol gan unigolion â hyfforddiant priodol yn hanfodol ar gyfer mathau penodol o offer, e.e. cestyll neidio. Mae'n bosibl bod angen yswiriant arbenigol/ychwanegol ar gyfer gweithgareddau mwy peryglus.

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn nodi bod angen y cymarebau isod, sy'n cydymffurfio â'r safonau a argymhellir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gofal dydd.

- 1 oedolyn i 3 plentyn rhwng 0 a 2 oed
- 1 oedolyn i 4 plentyn 2 oed
- 1 oedolyn i 8 plentyn 3-7 oed
- 1 oedolyn i 10 plentyn 8-12 oed .

Y cymarebau uchod yw'r gofynion sylfaenol a dylid eu cynyddu o dan amgylchiadau penodol; er enghraifft, i gynnig cymorth priodol i blentyn ag anghenion ychwanegol. Os oes modd, dylai o leiaf ddau oedolyn oruchwyllo gweithgareddau. Yn ystod y cyfnod goruchwyllo ni ddylai plant a phobl ifanc fyth gael eu gadael ar eu pennau eu hunain.

O 1/4/2016 ymlaen, bydd yr ystod oedran ar gyfer cofrestru gofal plant yng Nghymru yn cael ei hymestyn o 8 oed i 12 oed. Mae angen sicrhau bod y gymhareb oedolion/plant yn darparu goruchwyliaeth briodol ar sail oedran a phrofiad y plant a natur y gweithgaredd.

Mae angen i'r Eglwys yng Nghymru o leiaf fod yn dilyn cyngor gan Arolygiaeth Gofal Cymru ond argymhellir yn unol â hyrwyddo arfer mwy diogel (Adran 2 Polisi Diogelu yr Eglwys yng Nghymru 2016), y dylai fod 2 oedolyn i bob 10 plentyn yn yr holl weithgareddau a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r eglwys.

## Plant o dan bump oed

Dylai plant o dan bump oed fod yng nghwmni rhiant neu ofalwr bob amser, yn enwedig os yw'r digwyddiad yn cael ei gynnal y tu allan i safle'r eglwys. Dylid asesu a oes modd i blant o dan bump oed fynychu'r Ysgol Sul ar eu pennau eu hunain, ond ni allant wneud hynny heb ganiatâd y goruchwylwr. Yn ogystal, dylai rhiant neu ofalwr y plentyn fod ar gael ar safle'r eglwys gydol y sesiwn.

## Caniatâd

Ni all unrhyw blentyn neu berson ifanc o dan 18 oed gymryd rhan mewn gweithgaredd heb ganiatâd. Mae'n rhaid i ffurflenni caniatâd gael eu cwblhau gan oedolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant. Dylid defnyddio Ffurflen 2: Ffurflen Caniatâd Cyffredinol yn Rhan 3 o'r polisi hwn. Dylai'r ffurflen hon gynnwys manylion cyswllt, caniatâd i ofyn am gymorth meddygol mewn argyfwng a gwybodaeth am unrhyw alergedd neu adwaith i fwydydd penodol. Os yw'r wybodaeth yn cael ei defnyddio ar gyfer grŵp neu weithgaredd cyson, dylai'r ffurflen hon gael ei hadnewyddu bob blwyddyn.

Mae angen caniatâd ychwanegol (Ffurflen 3: Caniatâd ar gyfer Gweithgareddau Penodol) ar gyfer unrhyw weithgaredd sy'n ychwanegol at y gweithgareddau arferol. Gallai hwn fod yn weithgaredd 'risg uchel' achlysurol; er enghraifft, dringo, neu daith neu gwrs preswyl.

Hefyd, bydd angen cymeradwyaeth ffurfiol ar gyfer gweithgareddau o'r fath drwy ddefnyddio Ffurflen 6: Cais am Gymeradwyo Gweithgareddau. Bydd ffurflen asesu risg Taleithiol yn cael ei datblygu yn ddiweddarach.

Mae angen caniatâd ysgrifenedig rhieni i ddefnyddio dulliau cyfathrebu electronig neu'r cyfryngau cymdeithasol gyda phobl ifanc (sef gwefannau a chymwysadau sy'n galluogi defnyddwyr i greu cynnwys a rennir neu gymryd rhan mewn rhyngweithio cymdeithasol). (Ffurflen 5: Caniatâd ar gyfer Cyfathrebu Electronig â Phobl Ifanc).

Mae'n rhaid storio'r ffurflenni yn ddiogel yn unol â pholisïau a gweithdrefnau diogelu data a chadw cofnodion.

**Diwedd**

## Adran 3

Yn ôl i'r Mynegai

## Hyrwyddo ymarfer mwy diogel – oedolion mewn perygl

Mae'r canllawiau canlynol yn ymwneud ag oedolion mewn perygl (oedolion agored i niwed cynt) yn benodol, ac maent yn ategu'r wybodaeth “Hyrwyddo ymarfer mwy diogel mewn plwyfi ac ardaloedd gweinidogaeth” y cyfeirir ati yn Adran 1.

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn ceisio darparu cymuned ddiogel, gynhwysol ar gyfer pawb sy'n dymuno cymryd rhan ym mywyd yr eglwys, a chreu amgylchedd sy'n eu helpu i dyfu'n ysbrydol ac yn gofalu amdanynt mewn ffordd gyfrifol. Gall oedolyn fod yn “oedolyn mewn perygl” ar unrhyw adeg o'i fywyd, ond ni fydd hyn yn para am byth o reidrwydd.

Mae oedolyn mewn perygl yn unigolyn dros 18 oed sydd angen gwasanaethau gofal cymunedol, neu y gall fod angen gwasanaethau gofal cymunedol arno, oherwydd anabledd meddwl neu anabledd arall, oedran neu salwch ac sy'n methu gofalu amdano ei hun, neu y gall fethu gofalu amdano ei hun, neu nad yw'n gallu ei amddiffyn ei hun yn erbyn niwed sylweddol neu gam-fanteisio difrifol. Hefyd, gall unigolyn fod mewn perygl oherwydd lleihad parhaol neu dros dro yn ei allu corfforol, meddyliol neu emosiynol yn sgil digwyddiadau bywyd, er enghraifft, profedigaeth neu gamdriniaeth neu drawma blaenorol. Mae'r eirfa yn cynnwys diffiniad llawn o'r term ‘oedolyn mewn perygl’. (Atodiad 5)

Drwy weinidogaeth a chyswllt ag oedolion mewn perygl mewn llawer o leoliadau, mae gan yr Eglwys yng Nghymru gyfrifoldeb penodol i sicrhau bod pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch, ac i adnabod arwyddion camdriniaeth a gofal gwael.

Mae'r datganiad polisi hwn a'r canllawiau ymarfer da wedi'u bwriadu ar gyfer pob aelod o'r eglwys sydd â rhywfaint o gyfrifoldeb am ofal bugeiliol eraill. Y bwriad yw cynorthwyo cymuned yr eglwys i ddeall anghenion oedolion mewn perygl er mwyn helpu i wella gofal bugeiliol.

### Egwyddorion ymarfer da

Dylai pawb sy'n gweithio gydag oedolion mewn perygl wneud y canlynol:

- sicrhau eu bod yn gyfarwydd â pholisi diogelu'r Eglwys yng Nghymru;
- bod yn esiampl dda i eraill;
- parchu'r unigolyn a'i holl alluoedd bob amser a thrin pawb ag urddas a pharch;
- peidio â gwneud rhagdybiaethau, er enghraifft, dylid gofyn i rywun a ddylid defnyddio ei enw cyntaf neu ei deitl a'i gyfenw wrth ei gyfarch;
- dangos parch wrth ymweld â phobl, gan gofio cnocio cyn mynd i mewn i adeilad neu ystafell a bod yn ymwybodol o hyd ymweliadau. Nid yw ymweliadau unigol yn cael eu hannog, fodd bynnag, os oes rhaid ymweld â rhywun heb gwmni, dylai'r ymwelydd roi gwybod i rywun arall lle y mae bob amser a dylid osgoi ymweld â rhywun yn y nos ac eithrio mewn argyfwng;
- gweithio i barchu a chynnal hawliau pawb beth bynnag fo'u hethnigrwydd, rhywedd, rhywioldeb, nam neu anabledd, oedran, crefydd neu gefndir diwylliannol;
- cofio bod oedolyn mewn perygl yn parhau i fod yn oedolyn ac na ddylid ei drin fel plentyn. Dylai dewisiadau unigolyn gael eu cydnabod hyd yn oed os ydynt yn ymddangos yn beryglus, ac ni ddylid byth gorfodi unigolyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd. Mae'n bwysig sicrhau bod unigolion yn deall y dewisiadau sydd ar gael iddynt yn llawn;

- grymuso oedolion mewn perygl i'w diogelu eu hunain. Dylid gwrandio arnynt, eu credu, rhoi cyngor a gwybodaeth berthnasol iddynt a'u cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt i'r graddau y bo hynny'n bosibl;
- darparu cymorth er mwyn sicrhau bod unigolyn yn gallu byw mor annibynnol â phosibl. Mae pobl ag anghenion ychwanegol yn gallu byw bywydau egniol a bodlon, ond mae'n bosibl y bydd angen cymorth ac adnoddau ar rai pobl i allu gwneud hynny. Dylech barchu annibyniaeth yr unigolyn a pheidio â'i annog i fod yn ddibynnol arnoch chi;
- peidio â darparu gofal bugeiliol sydd y tu hwnt i gyfrifoldeb a/neu allu unigolyn;
- gwrthod ymdrin â materion ariannol unigolyn oni bai bod dyletswydd gyfreithiol i wneud hynny;
- peidio â derbyn anrhegion materol neu ariannol. Pe bai gwrthod anrheg yn peri gofid neu dramgwydd i'r unigolyn, dylid hysbysu'r clerig neu'r Swyddog Diogelu Taleithiol cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn osgoi unrhyw gyhuddiad neu ddryswch maes o law;
- mae'n bwysig ystyried yr iaith sy'n cael ei defnyddio, goslef y llais ac iaith y corff. Dylid defnyddio iaith gadarnhaol a phriodol bob amser, ac os oes angen, dylid gofyn am gyngor os oes gan yr unigolyn anghenion cyfathrebu penodol;
- defnyddio cyffyrddiad yn briodol a pharchu ffiniau unigolyn. Mae modd defnyddio cyffyrddiad i gyfleu anwyldeb, cyfeillgarwch a chysur. Dylai fod yn briodol, ac yn gyffredinol, dylai gael ei gychwyn gan yr oedolyn ar sail ei anghenion;
- ystyried diogelwch oedolion mewn perygl, ac ystyried eich diogelwch eich hun, gan amddiffyn eich hun yn erbyn honiadau o ymddygiad amhriodol. Dylai ymddygiad fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol. Dylid cofio bod gweithredoedd sy'n seiliedig ar fwriadau da yn gallu cael eu camddehongli gan eraill;
- dylid rhoi'r lefel uchaf o breifatrwydd a chyfrinachedd sy'n bosibl o dan yr amgylchiadau i oedolion, ond ni ddylid addo cadw cyfrinachau. Mae'n bwysig cynnig gofal a chymorth priodol, felly wrth wrando ar broblem unigolyn neu gynnig cyngor iddo, dylid dewis lleoliad a safle priodol i gynnal sgwrs o'r fath. Os oes modd, dylid hysbysu arweinwyr eraill am y cyfarfod a sicrhau bod pobl eraill yn bresennol. Dylid osgoi sefyllfaoedd a allai danseilio perthynas o ymddiriedaeth;
- bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol;
- peidio byth â bychanu camdriniaeth neu ddiystyru gofidiau. Mae'n rhaid cymryd honiadau a phryderon yn ymwneud â chamdriniaeth o ddifrif. Mae'n rhaid ysgrifennu nodiadau gofalus am yr hyn a gafodd ei weld neu ei glywed a rhoi gwybod am y digwyddiad yn syth. Nodi, cofnodi, adrodd;
- peidio byth â bod ofn gofyn am gymorth a chyngor gan arweinwyr neu staff mwy profiadol. Mae modd cysylltu â Swyddog Diogelu'r Dalaith am gyngor.

## Cymryd rhan mewn gweithgareddau

Mae'n rhaid sicrhau cydsyniad yr unigolyn cyn ymgymryd â gweithgareddau ag ef. Cydsyniad llafar fydd hwn fel arfer.

Mae gan sefydliadau gyfrifoldeb i asesu risg y gweithgareddau a ddarperir. Mae templed asesu risg yn cael ei ddefnyddio fel rhestr wirio i sicrhau bod y problemau a'r risgiau posibl sy'n deillio o weithgaredd wedi cael eu hystyried, ac i helpu i gynllunio camau neu gamau gweithredu priodol.



Gall gwiriad anffurfiol cyn dechrau gweithgaredd fod yn ddigonol, ond ar gyfer gweithgareddau grŵp sydd wedi'u trefnu, mae cwblhau asesiad risg ysgrifenedig yn ymarfer da fel arfer.

Os oes modd, dylai pob gweithgaredd grŵp o dan arweiniad yr eglwys gynnwys rhywun sydd â chymhwyster Cymorth Cyntaf.

**Diwedd**

Yn ôl i'r Mynegai

## Adran 4

Yn ôl i'r Mynegai

## Proses y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) fel dull ar gyfer recriwtio diogel

Mae proses y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn rhan allweddol o'r arferion recriwtio diogel yn yr Eglwys yng Nghymru. Mae'n darparu gwybodaeth i'r Eglwys am euogfarnau troseddol a data cysylltiedig ar unigolion sy'n cyflawni swyddi awdurdodedig penodol, neu'n goruchwyllo gweithgareddau penodol, ar ran yr Eglwys. Mae'r DBS wedi cytuno i gynnal gwiriadau i'r Eglwys yng Nghymru ar gyfer:

- Pob clerig (cyflogedig a gweinidogion di-dâl) sydd â thrwydded esgob;
- Deiliaid swyddi eraill sydd â thrwydded esgob, fel gweinidogion lleyg trwyddedig.

Efallai y bydd angen gwiriadau DBS ar gyfer gweithwyr lleyg (cyflogedig a gwirfoddol) lle maent yn ymwneud â gwaith gyda grwpiau agored i niwed neu a/neu'n cyflawni gweithgaredd rheoleiddiedig a ddiffinnir o dan Ddeddf Grwpiau Hyglwyf 2006 ac a ddiwygiwyd o dan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012. Ni chaniateir i ni wneud cais am wiriadau ar gyfer rolau nad ydynt yn rhan o ganllawiau'r DBS ei hun am gymhwysedd. Mae'n rhaid talu am wiriadau swyddi cyflogedig (a delir gan Gorff y Cynrychiolwyr) ond mae'r gwiriadau ar gyfer gweithwyr di-dâl am ddim. Mae'r gwaith gweinyddol ar gyfer yr holl wiriadau DBS (ar gyfer gweinidogion a gweithwyr lleyg) yn cael ei wneud yn ganolog gan dîm Gweinyddu DBS yr Eglwys yng Nghymru yn swyddfa'r dalaieth; mae'r dasg o nodi swyddi anweinidogol sydd angen gwiriadau DBS, a darparu gwiriadau hunaniaeth ar gyfer y ceisiadau hynny, yn cael ei wneud ar lefel leol (plwyf, ardal weinidogaeth neu ardal genhadaeth).

Mae rhagor o wybodaeth am y canlynol ar wefan yr Eglwys yng Nghymru yn:

<https://cym.eglwysyngnghymru.org.uk/adnoddau-2/y-gwasanaeth-datgelu-a-gwahardd-dbs/>

- Trosolwg o sut mae'r broses yn gweithio;
- Pwy sydd angen gwiriadau DBS yn yr Eglwys yng Nghymru;
- Canllawiau i ymgeiswyr;
- Canllawiau i gysylltiadau diogelu lleol, yn cynnwys cynnal gwiriadau hunaniaeth ar gyfer ceisiadau anweinidogol;
- Gwasanaeth Diweddarau DBS.

Yn ogystal, byddai tîm Gweinyddu DBS yr Eglwys yng Nghymru'n falch o helpu gydag unrhyw ymholiadau sydd gennych am y broses: [DBSAdmin@churchinwales.org.uk](mailto:DBSAdmin@churchinwales.org.uk)

**Diwedd**

## Adran 5

Yn ôl i'r Mynegai

**Diogelwch a diogelu ym maes penodol y weinidogaeth**

Dylai budd pennaf a lles y plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn mewn perygl fod yn ganolog i'r weinidogaeth bob amser, a dylid arfer y weinidogaeth mewn ffordd sy'n amddiffyn ac yn diogelu llesiant yr unigolion hyn. Mae'r adran hon yn ategu canllawiau yng ngweddill y ddogfen hon, a dylid ei defnyddio yn y cyd-destun hwnnw. Mae'r adran hon yn ymdrin â materion diogelu yn y weinidogaeth yn unig. Dylid darllen y polisiau perthnasol ar gyfer materion yn ymwneud â chanllawiau i glerigion, gweithdrefnau disgyblu neu faterion eraill yn ymwneud ag adnoddau dynol.

Nid yw'r weinidogaeth yn troi o gwmpas gweithdrefnau a rheolau. Yn hytrach, mae'n ymwneud â chlerigion ac ymwelwyr bugeiliol lleyg yn cydweithio â phawb sy'n dod i gysylltiad â'r eglwys i greu a hyrwyddo amgylchedd diogel sy'n hyrwyddo llesiant ac yn helpu pawb i dyfu yn eu ffydd Gristnogol. Felly, mae'r berthynas rhwng unigolyn sy'n gwneud gwaith gweinidogaethu o unrhyw fath a'r rhai sy'n derbyn y weinidogaeth honno yn seiliedig ar ymddiriedaeth. Mae'n bodoli oddi mewn i ffiniau crefyddol ac ysbrydol, sy'n creu dyletswydd gofal benodol i sicrhau bod y berthynas yn aros yn ddiogel. Os yw'r ymddiriedaeth honno'n cael ei chamddefnyddio, mae niwed difrifol iawn yn cael ei wneud i unigolion, cynulleidfaoedd a chymuned yr eglwys yn ei chyfanrwydd. Mae'r canllawiau penodol hyn yn ategu'r gweithdrefnau diogelu yn y llawlyfr hwn a dylid eu defnyddio ar y cyd â nhw.

Wrth weithio gyda phlant ac oedolion mewn perygl, mae'n rhaid sicrhau bod pob perthynas yn cael ei rheoli'n ddiogel ac nad yw ymddiriedaeth byth yn cael ei chamddefnyddio. Mae'r gweinidog sydd mewn swydd o awdurdod yn gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd.

**Gweinidogaeth weddi gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl**

Mae gweddio yn ganolog i fywyd pob Cristion. Fodd bynnag, mae modd ystyried gweddio yn weinidogaeth benodol yn yr eglwys hefyd, er enghraifft yn ystod gweithred gorfforaethol o addoliad (hyd yn oed os yw'n digwydd ar sail un i un) neu fel rhan o'r gofal bugeiliol sy'n cael ei gynnig gan eglwys neu blwyf. Dylid rhoi sylw dyledus bob amser i amddiffyn a gofalu am bawb sy'n ymwneud â'r weinidogaeth hon. Os yw'r weinidogaeth hon yn cynnwys gweddio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl, dim ond unigolion sydd wedi eu hawdurdodi gan yr eglwys a ddylai gymryd rhan, a rhaid sicrhau bod y gwiriadau DBS gofynnol wedi'u cwblhau.

**Cwmsela unigol**

Dim ond pobl sydd wedi'u hyfforddi a'u hawdurdodi i weithio fel cwmselwyr sydd â'r hawl i ddarparu gwasanaeth cwmsela. Dylai cwmsela fod yn rhan o wasanaeth gofal bugeiliol ehangach, a chael ei gynnig mewn ymgynghoriad â chynghorwyr meddygol lle bo hynny'n briodol.

**Perthynas bersonol**

Mae'n rhaid bod yn ofalus iawn wrth weinidogaethu i bobl y mae gan weithiwr yr eglwys berthynas bersonol agos â nhw. Dylai gweinidogion/clerigion fod yn ymwybodol o'r ddibyniaeth mewn perthynas fugeiliol a phroffesiynol a gofyn am gyngor neu oruchwyliaeth pan fydd y pryderon hyn yn codi. Dylai gweinidogion/clerigion osgoi ymddygiad a all roi'r argraff bod perthynas arbennig amhriodol yn bodoli. Os oes unrhyw bryderon ynglŷn â natur y teimladau tuag at blentyn, person

ifanc neu oedolyn mewn perygl, sy'n cael eu dangos gan neu i weithiwr yr eglwys, dylid eu trafod â'r Swyddog Diogelu Taleithiol.

## Gweinidogaeth achubiaeth

Dylid rhoi pob cam rhesymol ar waith i sicrhau diogelwch unigolion sy'n derbyn gweinidogaeth achubiaeth. Dylid gweithredu yn unol â pholisïau diogelu ac ymarfer gorau'r Eglwys yng Nghymru ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl. Mae gan bobl yr hawl i wybod beth sy'n cael ei ddarparu a sut y byddant yn derbyn gweinidogaeth. Dylai ymholiadau ac achosion gael eu hatgyfeirio i'r cynghorwyr gweinidogaeth achubiaeth esgobaethol. Dylid manteisio ar arbenigedd y cynghorwyr i ddarparu cymorth effeithiol, ond rhaid sicrhau awdurdod Esgob yr Esgobaeth ymlaen llaw.

## Sêl y gyffes

Dim ond esgobion ac offeiriaid sy'n gallu arfer y weinidogaeth hon. Mae'n rhaid hysbysu'r tîm diogelu am unrhyw bryderon neu honiadau o natur diogelu sy'n deillio o sêl y gyffes.

Mae paragraffau 7.3 a 7.4 o Ganllawiau Gweinidogaethol Proffesiynol yr Eglwys yng Nghymru yn datgan:

*“Where abuse of children or vulnerable adults is admitted in the context of confession, the priest should urge the person to report his or her behaviour to the police or social services, and should also make this a condition of absolution, or withhold absolution until this evidence of repentance has been demonstrated.*

*If a penitent's behaviour gravely threatens his or her own well-being or that of others, particularly children or vulnerable adults, the priest should insist upon action on the penitent's part. It should be noted that at law there is no absolute duty of confidentiality.*

*A Court or the police may require disclosure. In exceptional circumstances there may also be an over-riding duty to break confidence, especially where the safety of children, or of vulnerable adults, is involved, or, more rarely, where the well-being of the person who is sharing confidence is at risk.*

*Should a priest believe that there is a possibility that such information will be disclosed, it should be made clear to the penitent in advance, that such disclosure may be necessary.”*

## Goroeswyr camdriniaeth flaenorol

Mae'n bosibl y bydd offeiriaid a'r rhai sy'n cynnig cymorth bugeiliol yn clywed datgeliadau o gamdriniaeth a ddigwyddodd i unigolyn pan oedd yn blentyn.

Nid oes unrhyw weithdrefn gywir wedi'i diffinio ar gyfer ymdrin â datgeliad o gamdriniaeth flaenorol gan oedolyn. Bydd dymuniadau'r unigolyn sy'n datgelu'r gamdriniaeth yn bwysig iawn. I rai oedolion, mae'r cyfle i siarad â rhywun yr ymddiriedant ynddo am eu profiadau yn gallu bod yn ddigwyddiad iacháu pwysig.

Fodd bynnag, mae'n bosibl bod pobl sydd wedi cam-drin rhywun yn rhywiol flynyddoedd yn ôl yn cam-drin plant heddiw. Dylid annog a chefnogi'r goroeswr unigol i roi gwybod am y mater i'r heddlu os nad yw wedi gwneud eisoes, a dylid trafod y mater â'r Swyddog Diogelu Taleithiol.

**Diwedd**

Yn ôl i'r Mynegai

## Corau eglwysi cadeiriol ac eglwysi sy'n cynnwys pobl ifanc, clochyddion, ysgolion eglwys

### Corau eglwysi cadeiriol ac eglwysi sy'n cynnwys pobl ifanc

Mae'n rhaid cadw at yr egwyddorion ymarfer da a amlinellir yn Adran 1 yng nghyd-destun plant a phobl ifanc sy'n aelodau o gorau eglwysi cadeiriol neu gorau eglwysi eraill. Fodd bynnag, mae Atodiad 3 yn ddogfen gryno sy'n berthnasol i'r grŵp hwn o bobl ifanc yn benodol, ac mae modd ei llungoïo ar gyfer metronau, cyfarwyddwyr cerdd ac eraill sy'n ymwneud â diogelu plant a phobl ifanc mewn corau<sup>i</sup>.

### Clochyddion

Dylai clochyddion gydymffurfio â'r egwyddorion ymarfer da a amlinellwyd yn Adran 1. Dylai capten y tŵr fod â thystysgrif bresennol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), a dylai dderbyn cyfrifoldeb am ddiogelwch a lles unrhyw blant a phobl ifanc sy'n aelodau o'r tîm clochyddion yn ystod gwasanaethau ac ymarferion.

### Ysgolion eglwys

Bydd gan bob ysgol ei pholisiau a'i gweithdrefnau diogelu ei hun, a dylai pawb sy'n mynd i mewn i'r ysgol gydymffurfio â nhw.

---

<sup>i</sup> Mae Atodiad 3 yn seiliedig ar ddeunydd a ysgrifennwyd ar gyfer Cadeirlan Aberhonddu gan y Deon, Paul Shackerley, a'i fabwysiadu gan Gabidwl y Gadeirlan ym mis Tachwedd 2014.

## Adran 7

Yn ôl i'r Mynegai

## Llogi adeiladau'r eglwys

Mae gan lawer o eglwysi adeiladau sydd ar gael i'w llogi gan grwpiau cymunedol ac eraill. Mae'n rhaid i'r corff sy'n llogi'r adeilad sicrhau bod plant ac oedolion sydd o bosibl yn agored i niwed yn cael eu diogelu bob amser drwy gymryd pob cam rhesymol i osgoi anafiadau, salwch, colledion neu ddifrod.

Pan fo'r llogwr yn defnyddio'r adeilad mewn cysylltiad â busnes neu sefydliad mae'n hanfodol fod ganddo yswiriant atebolrwydd cyhoeddus llawn ar gyfer y gweithgaredd hwn. Dylid gweld, a chael copi o'r dystysgrif yswiriant fel rhan o'r cytundeb llogi.

Mae'n rhaid i'r sefydliad neu'r busnes ddarparu manylion am ei Bolisi Diogelu sy'n ymwneud â'r gweithgaredd dan sylw hefyd.

Pan fo Adeilad Eglwys yn cael ei logi ar gyfer gweithgaredd personol neu breifat, er enghraifft partïon plant, bydd yswiriant yr Eglwys yng Nghymru'n ddigonol ar gyfer llogi'r adeilad.

Mae'n rhaid i bob defnyddiwr, yn cynnwys y rhai sy'n llogi'r adeilad at ddefnydd personol sicrhau ei fod yn rhoi sylw dyledus i Bolisi Diogelu'r Eglwys yng Nghymru ac mai dim ond pobl addas a phriodol sy'n cael dod i gysylltiad â phlant ac oedolion mewn perygl.

Mae unrhyw sefydliad sy'n llogi'r adeilad yn gyfan gwbl gyfrifol am asesiadau risg ac am ddiogelwch wrth recriwtio staff yn unol â darpariaethau Deddf Plant 1989 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2014.

Cyfrifoldeb unrhyw sefydliad sy'n llogi'r adeilad yw cydymffurfio â gofynion eu Polisi Diogelu eu hunain ac adrodd am unrhyw bryderon diogelu wrth eu Swyddog Diogelu Dynodedig neu eu cyfeirio'n uniongyrchol i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu.

Dylid cynnal cyfarfod briffio ar iechyd a diogelwch gyda'r llogwr, i roi gwybodaeth am leoliad cyfarpar diogelwch tân ac allanfeydd argyfwng yr adeilad.

Mae canllawiau pellach ar Logi Adeiladau Eglwys, yn cynnwys copi o'r cytundeb llogi yn adran 'Eiddo' gwefan yr Eglwys yng Nghymru yn:

<https://www.churchinwales.org.uk/structure/representative-body/property/church-halls/sales-lettings/>

Mae'n rhaid cwblhau'r cytundeb hwn wrth logi adeilad eglwys.

**Diwedd**

## Adran 8

Yn ôl i'r Mynegai

**Diogelu ar-lein**

Mae technolegau digidol (y rhynggrwyd, e-bost, gwasanaethau negeseua, ystafelloedd sgwrsio a ffonau symudol ac ati) wedi creu amrywiaeth eang o gyfleoedd addysgol a hamdden, ond maent wedi creu peryglon newydd hefyd. Dyma rai o'r peryglon:

- seiberfwlio (pobl yn cael eu bygwth, eu dychryn, eu bychanu ac ati drwy negeseuon testun, ar-lein neu ar y cyfryngau cymdeithasol) neu 'ymhladd' ar-lein;
- 'secstio' (cyfnewid cynnwys a/neu ddelweddau o natur rhywiol drwy negeseuon testun);
- pornograffi dial (lle mae cyn partner yn defnyddio delweddau rhywiol o'r partner arall a'u rhannu'n aml ar wefannau cyfryngau cymdeithasol);
- meithrin perthynas amhriodol ar-lein;
- cyfarfod â phobl y mae plant/pobl ifanc wedi'u cyfarfod ar-lein (ystafelloedd sgwrsio) ac a allai fod yn beryglus;
- methu diogelu gwybodaeth ddigidol, gan arwain at golli preifatrwydd, dwyn hunaniaeth, camddefnyddio gwybodaeth a thwyll;
- rhannu ffeiliau ag eraill, gan arwain at dorri deddfwriaeth hawlfraint/eiddo deallusol;
- lledaenu firysau a maleiswedd gyfrifiadurol
- mynediad i ddeunydd niweidiol fel pornograffi a gwefannau sy'n hyrwyddo casineb, yn annog hunan-niwed a hunanladdiad, cymryd cyffuriau, gamblo ac ati;
- dibyniaeth/defnydd gormodol/bod yn gaeth i dechnoleg ddigidol a'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae'n hollbwysig bod pawb sy'n darparu gwasanaethau, gan gynnwys eglwysi, yn rhoi mesurau ar waith i reoli peryglon posibl sy'n deillio o dechnolegau newydd er mwyn amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl, a diogelu uniondeb gweithwyr.

Wrth gyfathrebu â phlant, rhaid bod yn ddiogel, yn gyfreithiol ac yn briodol gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu sy'n dilyn arfer gorau. Ni ddylai oedolion fod ar eu pen eu hunain wrth gysylltu'n electronig â phlant, e.e. grwpiau sgwrsio, anfon negeseuon. Rhaid defnyddio cymarebau yn yr un modd ag a nodwyd yn adran 2 gydag o leiaf fwy nag un oedolyn priodol wedi cytuno i gael eu cynnwys.

Gall yr eglwys gyfrannu at y gwaith o leihau'r peryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio TG, ffonau symudol ac ati drwy wneud y canlynol:

- cynorthwyo plant a'u teuluoedd ac oedolion mewn perygl i gadw'n ddiogel pan fyddant ar-lein;
- hyrwyddo'r defnydd diogel o dechnolegau digidol a sicrhau bod pobl yn ymwybodol o rai o'r risgiau a'r peryglon. Dylai'r eglwys roi arweiniad i'w gweithwyr a'i gwirfoddolwyr ar sut i ddefnyddio TG yn ddiogel mewn eglwysi ac fel modd o gyfathrebu â phobl ifanc.

**Canllawiau i blwyfi ar fynediad i'r rhynggrwyd**

Dylai holl weithwyr yr eglwys, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i glerigion, gweithwyr cyflogedig

a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion mewn perygl, fod â contract neu lofnodi cytundeb sy'n datgan yn glir bod unrhyw fynediad i TG i'w ddefnyddio at ddibenion y swydd yn unig. Ni ddylid defnyddio'r mynediad hwn at unrhyw ddiben arall.

Os yw'r Eglwys yn darparu mynediad i'r rhyngwrwd ar gyfer plant a phobl ifanc neu oedolion mewn perygl (e.e. caffi seiber), mae'n rhaid sicrhau bod gweithwyr yn ymwybodol o gyfleoedd a pheryglon y rhyngwrwd. Mae'n rhaid rhoi'r canllaw "*Cadw'n ddiogel ar-lein*" i blant a phobl ifanc (Atodiad 2) a rhaid iddynt gwblhau a llofnodi Ffurflen 10: *Cytundeb ar gyfer Defnyddio TGCh*. Dylid cadw copi wedi'i lofnodi mewn ffeil cyn rhoi mynediad i'r rhyngwrwd iddynt. Fodd bynnag, nid yw'n ddigonol rhoi canllaw yn unig iddynt. Dylai gweithwyr siarad â phlant a phobl ifanc ac oedolion mewn perygl am ddiogelwch ar-lein a sicrhau eu bod yn deall y peryglon i'r graddau y bo hynny'n bosibl. Mae'n rhaid rhoi'r mesurau diogelu canlynol ar waith:

- cyflwyno cyfyngiadau priodol (e.e. goruchwyliaeth gan rieni neu beiriannau chwilio diogel) os oes gan blant fynediad i gyfrifiaduron yr eglwys. Mae'n rhaid defnyddio meddalwedd hidlo a rhwystro os yw hynny'n briodol. Mae cyngor ar y mater hwn ar gael gan y Darparwr Gwasanaethau Rhyngwrwd (ISP);
- osgoi unrhyw weithgareddau ar-lein, neu raglenni personol, sy'n gallu difrodi'r cyfrifiadur drwy firsau ac ati;
- os yw eglwys yn derbyn cyfarpar cyfrifiadur ail law, mae'n rhaid iddi sicrhau bod y cyfarpar yn ddiogel i'w ddefnyddio, nad yw'n cynnwys firsau neu namau eraill a allai amharu ar y system, ac nad yw'r gyriant caled neu ddyfeisiau storio eraill yn cynnwys deunydd amhriodol;
- mae angen polisiâu llym ar gyfer cyfrineiriau a mewngofnodi. Mae'n rhaid i holl gyfrifiaduron yr eglwys sy'n cael eu defnyddio gan blant, pobl ifanc, oedolion mewn perygl neu weithwyr ieuencid yr eglwys gynnwys meddalwedd sy'n galluogi'r sefydliad i sicrhau, i'r graddau posibl, bod ei bolisi ar ddefnydd derbynol yn cael ei ddilyn. Mae pecynnau meddalwedd atebolrwydd y rhyngwrwd ar gael sy'n monitro defnydd o'r rhyngwrwd ac yn graddio gwefannau yr ymwelwyd â nhw ar sail cynnwys annymunol.

## Gwefannau

Mae'r Cyngor Plwyf Eglwysig yn gyfrifol am gynnwys llawn ei wefannau, ei fforymau, ei flogiau, ei gyfrifon Twitter neu ei gyfrifon rhwydweithio cymdeithasol eraill. Gall monitro annigonol arwain at yr eglwys yn colli ei henw da a hyd yn oed yn dioddef effeithiau ariannol. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i fanteision/anfanteision ehangu gwefan i gynnwys byrddau negeseuon/fforymau/blogiau ac ati. Mae'r eglwys yn gyfrifol am sicrhau bod ei gwefannau yn ddiogel ac yn briodol. Dylid penodi oedolyn sydd â'r cymwysterau/profiad addas i oruchwylio'r wefan.

Mae'n **rhaid** cael caniatâd unigolion cyn rhoi eu henwau/rhifau ffôn ar wefan.

Mae'n **rhaid** cael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan riant/gwarcheidwad cyn dangos llun unrhyw blentyn ar wefan. Cofiwch fod troseddwr rhyw yn defnyddio'r rhyngwrwd i ddod o hyd i blant a chyfathrebu â nhw.

Cyn dylunio gwefan, gofynnwch am gyngor gan y Sefydliad Diogelwch Ar-lein i Deuluoedd – [www.fosi.org](http://www.fosi.org)

## Cyfathrebu â phobl ifanc drwy ddulliau electronig a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol

Mae'n rhaid cael caniatâd rhieni ymlaen llaw cyn defnyddio e-bost neu raglenni gwibnegeseua i



gyfathrebu â phobl ifanc. Dylid defnyddio Ffurflen 4: *Ffurflen Ganiatâd ar gyfer Cyfathrebu Electronig â Phobl Ifanc* ar gyfer hyn. Nid yw'r dulliau cysylltu hyn yn briodol ar gyfer plant o dan 12 oed. Mae angen pwysu a mesur yn ofalus cyn defnyddio unrhyw ddull cyfathrebu, ac ni ddylai gweithwyr anfon unrhyw neges y byddent yn pryderu yn ei chylch pe bai rhiant, gwarcheidwad neu eu rheolwr eu hunain yn ei gweld.

Dylai eglwysi unigol drafod a chofnodi eu hagwedd y cytunwyd arni at gyfathrebu electronig a rhwydweithio cymdeithasol ar-lein â phobl ifanc. Dylent benderfynu a ddylid caniatáu i aelodau ifanc o'r eglwys fod yn 'ffrind electronig' i aelod o staff neu wirfoddolwr, a rhaid cofnodi'r penderfyniad hwnnw. Mantais y trefniant hwn yw hwyluso'r broses o sefydlu cysylltiadau cyfoes a chyswllt uniongyrchol hawdd, ond rhaid cofio am y perygl posibl o groesi'r ffin rhwng rôl yr aelod o staff fel mentor a'i safle o awdurdod, gan adael y gweithiwr a'r person ifanc yn agored i'r peryglon sydd ynghlwm wrth hynny. Os cytunir bod modd cynnwys aelodau sy'n blant fel 'ffrindiau', argymhellir y dylid creu rhestr/categori ar wahân o 'ffrindiau' ar gyfer grŵp eglwys penodol. Mae hyn yn golygu bod gwybodaeth yn gyfyngedig i'r grŵp hwnnw. Opsiwn arall yw creu 'Tudalen Cefnogwyr', sy'n hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth, ond nad yw'n cynnwys cyfleuster 'sgwrsio'.

Mae'n rhaid i weithwyr yr Eglwys sy'n cyfathrebu â phobl ifanc yn y modd hwn ddangos gofal arbennig, gan gynnwys rhoi'r mesurau diogelu canlynol ar waith:

- cadw cofnod o sgysiau / dulliau cyfathrebu gan ddefnyddio iaith glir bob amser (nid byrfoddau e.e. lol) er mwyn osgoi amwyster neu gamddehongli;
- dylai unrhyw negeseuon, sgysiau neu negeseuon testun sy'n achosi pryder gael eu trosglwyddo neu eu hadrodd i'r unigolyn sy'n gyfrifol am y grŵp a/neu i Gydgyssylltydd Diogelu'r Plwyf;
- ni ddylid tynnu ffotograffau digidol o blant neu bobl ifanc heb ganiatâd eu rhieni. Os ydynt yn cael eu cadw, dylid eu lawrlwytho i gyfrifiadur yr eglwys a'u storio'n ddiogel yn unol â'r argymhelliad yn y polisi ar gyfer storio delweddau (gweler isod).

Mae'n rhaid i'r plwyf ddilyn y canllawiau canlynol ar gyfer storio delweddau:

- mae'n rhaid i ddelweddau electronig gael eu diogelu gan gyfrinair a'u dileu os nad oes eu hangen bellach. Ni ddylid eu storio ar gyfrifiaduron/gliniaduron unigol;
- mae'n rhaid enwi ffeiliau delweddau yn briodol a'u diogelu gan gyfrinair;
- dylid eu storio gyda ffurflenni cydsynio er mwyn cymryd a defnyddio'r delweddau;
- ni all neb defnyddio delwedd os nad yw wedi'i awdurdodi i wneud hynny;
- dylai copïau caled e.e. ffotograffau gael eu storio mewn lle diogel hefyd e.e. cabinet ffeiliau sy'n cloi;
- nid ddylid cadw delweddau ar ffôn symudol;
- mae'n rhaid cydymffurfio â gofynion gwefannau rhwydweithio ynglŷn ag isafswm oedran. Er enghraifft, nid yw plant o dan 13 oed yn gallu defnyddio Facebook, ac mae angen caniatâd ysgrifenedig rhieni/gwarcheidwaid ar gyfer pobl ifanc dros 13 oed;
- mae'n amhriodol cyfathrebu â phlentyn ysgol gynradd drwy ddull electronig – mae'n rhaid cysylltu â'r rhiant/rhieni neu'r gwarcheidwad/gwarcheidwaid bob tro;
- sefydlu 'system atebolrwydd', gofyn i gydweithiwr fonitro unrhyw gyfathrebu â phlant/pobl ifanc. Mae'n bwysig iawn gwneud hyn ar gyfer dulliau cyfathrebu preifat, fel defnyddio ffonau symudol i anfon negeseuon testun. Dylid ystyried yn ofalus a yw'r dull cyfathrebu hwn yn briodol, gan gadw unrhyw negeseuon yn fyr ac at ddibenion gwneud trefniadau yn unig;

- mae'n rhaid i gynrychiolwyr yr eglwys sy'n defnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol i gyfathrebu wirio elfennau preifatrwydd eu proffil yn ofalus. Mae'n rhaid iddynt sicrhau bod y cynnwys yn briodol i gael ei weld gan blant, gan gynnwys ffotograffau. Rhaid cofio bod plant yn gallu gweld ffotograffau/negeseuon/gwybodaeth gan eraill sydd wedi'u cysylltu (e.e. 'ffrindiau' Facebook);
- ni ddylid rhannu gwybodaeth bersonol â phlant a phobl ifanc na gofyn iddynt am wybodaeth bersonol, ac ni ddylid ymateb i gais am wybodaeth bersonol y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol ac yn briodol yng nghyd-destun y gwaith;
- yn gyffredinol, dylid defnyddio cyfathrebu electronig at ddibenion rhannu gwybodaeth yn unig, ac nid ar gyfer 'sgwrsio'/rhwydweithio cymdeithasol;
- mae'n rhaid sicrhau bod unrhyw gyswllt â phlant a phobl ifanc yn digwydd yn agored. Peryglon mwyaf gwefannau rhwydweithio cymdeithasol fel Facebook yw'r swyddogaethau preifat; negeseuon sydd ond yn cael eu gweld gan y sawl sy'n eu hanfon a'u derbyn. Felly, mae'n fwy diogel peidio ag anfon negeseuon preifat. Os yw'n angenrheidiol anfon neges, dylid ei hanfon at nifer o bobl ar Facebook a chynnwys arweinwyr eraill yn y neges. Os yw'r sgwrs yn rhy breifat ar gyfer y trefniadau hyn, dylid trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb ar sail yr egwyddorion diogelu arferol;
- ni ddylid trafod plant/gweithwyr eraill ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol;
- os yw plentyn sy'n wynebu argyfwng neu blentyn mewn angen yn cyfathrebu ar ffurf electronig, dylid cadw'r wybodaeth hon a thrin yr achos fel pryder diogelu. Wrth gynorthwyo plentyn mewn angen, mae'n well trefnu cyfarfodydd 'wyneb yn wyneb' yn unol â gweithdrefnau ymarfer da a diogelu;
- mae'n rhaid i bob dull cyfathrebu ddangos logo'r eglwys.

### **Dylid ystyried y canlynol yn enghreifftiau difrifol o dorri ymddiriedaeth:**

- chwilio am a/neu ddefnyddio gwefannau pornograffig, hiliol neu wefannau sy'n hyrwyddo casineb;
- defnyddio TG a ddarperir gan yr eglwys i storio, arddangos a/neu drosglwyddo deunydd pornograffig, rhywiaethol, hiliol, homoffobaidd neu dreisgar;
- anfon negeseuon e-bost neu ysgrifennu negeseuon ar unrhyw wefan cyfryngau cymdeithasol neu wefan arall gan ddefnyddio TGCh i fygwth, dychryn, bwlio, bychanu, cam-drin neu aflonyddu ar unrhyw unigolyn neu grŵp;
- lawrlwytho, anfon ymlaen a/neu losgi ar unrhyw CD unrhyw gerddoriaeth, delweddau neu ffilmiau o'r rhyngwyd heb ganiatâd y sawl sydd â hawlfraint;
- datgelu unrhyw wybodaeth bersonol am bobl eraill heb ganiatâd e.e. cyfeiriadau, (personol, e-bost, negeseua), rhifau ffôn neu fanylion banc.

## Rhagor o wybodaeth ac adnoddau

- The Safe Network: gwybodaeth ac adnoddau i helpu i gadw plant yn ddiogel <http://www.safenetwork.org.uk>
- Internet Watch Foundation – corff a ariennir gan ddiwydiant i adrodd ar ddeunydd anghyfreithlon. [www.iwf.org.uk](http://www.iwf.org.uk)
- Childnet International. [www.childnet-int.org](http://www.childnet-int.org)
- [www.kidsmart.org.uk](http://www.kidsmart.org.uk) – sefydliad dielw sy'n ceisio gwneud y rhyngrwyd yn lle diogel a gwyb i blant;
- Family Online Safety Institute: [www.fosi.org](http://www.fosi.org)
- Child Exploitation and Online Protection (CEOP) Centre. [www.thinkuknow.net](http://www.thinkuknow.net)

---

Diolch i grŵp ffocws Abertawe ac Aberhonddu am y deunydd yn yr adran hon.

*Diwedd*

## Adran 9

Yn ôl i'r Mynegai

**Ffilmio a ffotograffiaeth**

Mae ffilmio neu dynnu ffotograffau o blant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn gallu bod yn ffordd dda o gofnodi digwyddiad cadarnhaol neu hysbysebu clwb. Fodd bynnag, mae'n rhaid dilyn protocolau penodol er mwyn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a diogelu plant, pobl ifanc a/neu oedolion mewn perygl. Mae hyn yn cynnwys rheoli unrhyw broses o wneud, cadw, storio a chyhoeddi delweddau; ffotograffau, ffilm a sain, delweddau ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol a rhannu fideos. Gwneir hyn er mwyn amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl a allai fod mewn perygl o ddioddef camdriniaeth neu gam-fanteisio drwy ddefnydd amhriodol o'r cyfryw ddelweddau. Mae'n arfer da, lle bo'n bosibl, cyhoeddi ar ddechrau digwyddiadau neu weithgareddau'r Eglwys fod angen i bawb sy'n bresennol ofalu nad ydynt yn tramgwyddo hawliau preifatrwydd a ffotograffig pobl eraill.

Mae sawl agwedd gadarnhaol ar rannu delweddau digidol. Fodd bynnag, mae gwneud hyn yn gallu achosi peryglon uniongyrchol neu anuniongyrchol fel bwlio ar y we, ysglyfaethwyr rhywiol yn defnyddio delweddau, pobl yn eu defnyddio i feithrin perthynas amhriodol ar-lein, a'r posibilrwydd bod plant, pobl ifanc ac oedolion yn gweld deunydd anaddas ac amhriodol. Weithiau, bydd gan riant/gwarcheidwad/gofalwr resymau da dros wrthod caniatâd i bobl wneud neu ddefnyddio delweddau. Ymhlith y rhesymau posibl y mae penderfyniad riant/gwarcheidwad/gofalwr nad yw am i rywun arall dynnu lluniau o'i blentyn, neu'r posibilrwydd bod plentyn neu berson ifanc yn wrthrych anghydfod cyfreithiol neu yng ngofal awdurdod lleol a bod angen cadw ei leoliad yn gyfrinachol. Nid oes angen i riant/gwarcheidwad/gofalwr ddatgelu pam y mae wedi gwrthod caniatâd.

**Diogelu data**

Mae ffotograffau, delweddau digidol a delweddau ffilm yn cael eu hystyried yn ddata personol, ac felly mae Deddf Diogelu Data 2018 yn berthnasol iddynt.

Mae'r ddeddf yn cynnwys wyth egwyddor Diogelu Data sydd angen eu dilyn. Mae'n rhaid i ffotograffau, delweddau digidol a delweddau ffilm:

- gael eu defnyddio yn deg ac yn gyfreithlon
- cael eu defnyddio at ddibenion cyfyngedig sy'n cael eu nodi'n benodol
- cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n ddigonol, yn berthnasol ac nid yn ormodol
- bod yn gywir
- peidio â chael eu cadw ar ôl y cyfnod gofynnol at ddiben yr achlysur
- cael eu trin yn unol â hawliau diogelu data pobl
- cael eu cadw yn saff a diogel
- peidio â chael eu trosglwyddo y tu allan i'r DU heb ddiogelwch digonol

Mae nodi natur y gweithgaredd/digwyddiad yn gam cyntaf pwysig tuag at ystyried a deall cyfrifoldebau pawb. Ar ôl nodi natur y gweithgaredd neu'r digwyddiad mae'n bwysig gwneud rhestr o'r hyn a fydd yn digwydd yn ystod y digwyddiad a phwy fydd yn bresennol. Hefyd, mae'n bwysig ystyried presenoldeb tebygol ffonau symudol, llechi a dyfeisiau sy'n gallu gwneud fideos, yn ogystal â chamerau. Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r posibilrwydd o blant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl yn gwneud delweddau. Mae hyn yn rhan bwysig o ymarfer cyfredol ac mae delweddau o'r

fath yn cael eu defnyddio'n eang. Felly, mae'n bwysig rhoi gwybod i blant a phobl ifanc am y drefn ar gyfer gwneud delweddau. Mae plant a phobl ifanc yn gyfarwydd â chydymffurfio â'r polisiâu sydd ar waith mewn ysgolion a sefydliadau eraill, felly byddant yn disgwyl i'r eglwys nodi'r hyn a ganiateir yn glir.

### Caniatâd ar gyfer gwneud delweddau

Mae'n **rhaidd** cael caniatâd penodol ysgrifenedig rhiant/gwarcheidwad cyn ffilmio plentyn neu dynnu llun ohono yn ystod gweithgareddau'r eglwys. Mae'n rhaid cwblhau Ffurflen 4: *Ffurflen ganiatâd ar gyfer gwneud a defnyddio delweddau* gan egluro'r rheswm dros wneud y ffilm/tynnu'r llun e.e. ar gyfer gwefan yr eglwys, byrddau gwybodaeth, y wasg ac ati. Hefyd, mae'n rhaid i'r rhiant a'r plentyn/person ifanc lofnodi'r ffurflen (os yw wedi cyrraedd oedran cydsynio). Rhaid i'r ffurflen ganiatâd ddatgan at ba ddiben y defnyddir y llun, ac yn syth ar ôl defnyddio'r llun at y diben hwnnw y caiff ei ddiarhysio. Dylid annog rhieni/gwarcheidwaid/gofalwyr i roi gwybod i'r sefydliad os nad ydynt am i'w blentyn gael ei ffilmio neu i gael ei lun wedi'i dynnu.

Mae'n rhaid cadw cofnodion priodol o'r caniatâd a roddwyd, a gofyn am ganiatâd bob blwyddyn. Trowch at y daflen / Ffurflen 17 i'w defnyddio i greu rhestr o enwau plant a'r caniatâd Diogelu cysylltiedig. Dylai hyn fynd law yn llaw a bod yn gysylltiedig â'r asesiad risg ar gyfer y digwyddiad.

Gall rhieni/gwarcheidwaid/gofalwyr dynnu eu caniatâd yn ôl unrhyw amser. Os yw caniatâd yn cael ei roi ar gyfer diben penodol e.e. defnyddio delwedd ar wefan plwyf, mae angen caniatâd pellach os bwriedir defnyddio'r ddelwedd at ddiben gwahanol e.e. adroddiadau blynyddol.

Nid oes rhaid cael caniatâd ysgrifenedig ar gyfer defnyddio lluniau o oedolion. Fodd bynnag dylai pawb gael y dewis i beidio â bod mewn llun a dylid cofnodi enwau'r sawl sy'n gwrthod bod yn y llun.

Ar ôl tynnu lluniau, mae'n bwysig ystyried yn ofalus ac yn sensitif sut y byddant yn cael eu defnyddio. Mae angen dilyn yr ymarfer da canlynol:

- wrth dynnu llun, sicrhau bod cofnod â dyddiad yn cael ei gadw sy'n nodi'r gwasanaeth/digwyddiad a'r unigolion yn y llun;
- defnyddio ffotograffau grŵp yn hytrach na delwedd o unigolyn os oes modd;
- peidio â thynnu lluniau o blant/pobl ifanc neu oedolion mewn perygl nad ydynt wedi'u gwisgo'n briodol. Er enghraifft, os yw'r ddelwedd yn ymwneud â gweithgaredd nofio dylid canolbwyntio ar y gweithgaredd;
- mae angen cadarnhau bod cydsyniad priodol wedi'i sicrhau ar gyfer pob delwedd, ac os oes unrhyw amheuaeth mae angen dinistrio'r ddelwedd.

Cyfrifoldeb Cyngor Plwyf Eglwysig yw unrhyw weithgaredd neu ddigwyddiad a gynhelir yn enw'r eglwys. Trefnydd y digwyddiad sy'n gyfrifol am unrhyw ddigwyddiad preifat a gynhelir.

### Defnyddio a storio delweddau

Mae'n rhaid ystyried y canlynol wrth storio a defnyddio delweddau:

- mae cadw, dosbarthu neu ddangos delweddau anwedus o blant yn drosedd;
- ni ddylid rhoi ffotograff/ffilm o blentyn/plant ar wefan heb gydsyniad ysgrifenedig y rhiant/gwarcheidwad;
- wrth ddefnyddio delweddau o blant/pobl ifanc at ddibenion cyhoeddusrwydd neu i'w cyhoeddi yn y wasg, ni ddylid cynnwys enw'r plentyn/person ifanc neu unrhyw wybodaeth arall a allai ei adnabod. Os yw enwau'n cael eu cyhoeddi, dim ond ar ôl cael caniatâd ysgrifenedig y rhiant neu'r gwarcheidwad cyfreithiol y gellir gwneud hynny.

Bydd rhai eithriadau amlwg i hyn, fel dathlu gwobr neu lwyddiant, ond mae'n rhaid sicrhau caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw bob amser;

- mae angen trin delweddau digidol yn ofalus iawn, gan gofio eu bod yn gallu cael eu troi'n ddelweddau o gam-drin plant os yw'r bobl anghywir yn cael gafael arnynt;
- mae'n rhaid storio ffotograffau o blant mewn lle diogel;
- dylai Cynghorau Plwyf Eglwysig ystyried sut a ble y mae delweddau am gael eu storio i fodloni gofynion y polisi hwn;
- ni ddylai gweithwyr gadw delweddau ar eu ffonau, i-pads, llechi, gliniaduron, cyfrifiaduron personol ac ati am fwy o amser nag sy'n ofynnol at y diben y casglwyd y llun. Os nad oes modd cadw delweddau/fideos ar gyfrifiadur yr Eglwys yng Nghymru, yna cyfrifoldeb y ffotograffydd ac arweinydd y digwyddiad yw sicrhau bod delweddau/fideos yn cael eu cadw ar gof bach. Disgwylir i'r cof bach hwnnw gael ei gadw dan glo o fewn eiddo'r Eglwys yng Nghymru.
- os oes modd, dylai pob plentyn neu berson ifanc fod yn rhan o grŵp;
- defnyddiwch ddelweddau o blant mewn dillad addas yn unig mewn ffotograff. Mae hyn er mwyn diogelu urddas y plentyn a lleihau'r perygl o ddefnydd amhriodol. Hefyd, trowch at yr adran sy'n nodi'r rheidrwydd am sicrhau caniatâd;
- mae angen darparu gwybodaeth os oes bwriad cadw'r ddelwedd a'i defnyddio yn y dyfodol;
- mae'n rhaid storio'r ddelwedd yn ddiogel a'i gwaredu/dileu os nad oes ei hangen mwyach;
- mae ffotograffau, delweddau digidol a ffilmiau (y cyfeirir atynt fel delweddau) yn cael eu hystyried yn ddata personol. O ganlyniad, mae Deddf Diogelu Data 2018 yn berthnasol i'r data hwn. Mae rhagor o wybodaeth am y Ddeddf ar gael trwy gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Swyddfa Cymru wales@ico.org.uk
- ar gyfer pob Digwyddiad Taleithiol a digwyddiadau preswyl, rhaid rhoi i'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu neu'r sawl sy'n gyfrifol am gyfathrebu ar gyfer y digwyddiad gopïau o ffurflenni caniatâd gan eu hysbysu am unrhyw blant na ddylid eu hadnabod. Gall hyn gynnwys peidio â'u henwi, tynnu llun neu fideo ohonynt na/neu eu cyfweld na datgelu'n benodol pwy ydynt a chymryd camau i reoli hyn.

Mae'n ofynnol cael caniatâd ar gyfer unrhyw lun amlwg sy'n adnabod plentyn ac yn ei gysylltu â'r Eglwys yng Nghymru. Lle bynnag y bo modd, dylai ffotograffydd sy'n gweithredu ar ran yr Eglwys yng Nghymru gyflwyno ei hun i'r sawl sy'n bresennol mewn digwyddiad/achlysur yr Eglwys a rhoi cyfle i bobl gamu allan o unrhyw luniau amlwg os ydynt am wneud hynny.

## Diwedd

Yn ôl i'r Mynegai

## Adran 10

Yn ôl i'r Mynegai

**Cludiant**

Mae'r Llywodraeth wedi darparu gwybodaeth am bwy sydd â'r hawl gyfreithiol i yrru bws mini ar y wefan <https://www.gov.uk/driving-a-minibus>

Os yw cludiant yn cael ei ddarparu, mae angen dilyn y canllawiau ymarfer da canlynol:

- mae angen sicrhau bod yswiriant cyfun ar waith sy'n yswirio'r gyrrwr ar gyfer gweithgareddau'r eglwys. Mae'n rhaid i yrwyr gysylltu â'u cwmni yswiriant i gadarnhau bod eu polisi yn cynnwys defnydd busnes er mwyn sicrhau eu bod wedi'u hyswirio i yrru ar gyfer gweithgareddau gwaith;
- mae'n rhaid i'r cerbyd fod yn addas i fynd ar y ffordd. Cyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau bod y cerbyd mewn cyflwr addas i fynd ar y ffordd cyn ei ddefnyddio. Os yw'n methu gwneud hyn, gall y gyrrwr fod yn atebol yn gyfreithiol os oes damwain yn digwydd;
- mae'n rhaid sicrhau bod gwregys diogelwch ar gael ac yn cael ei ddefnyddio gan bob unigolyn yn y cerbyd. Argymhellir y dylai'r gyrrwr geisio sicrhau bod gwregysau diogelwch yn cael eu defnyddio ar gyfer pob taith, waeth pa mor fyr yw'r daith honno;
- ni ddylai cyfanswm y plant a'r oedolion yn y cerbyd fod yn uwch na'r uchafswm a ganiateir ar gyfer y cerbyd;
- os yw'r bws mini yn eiddo i'r eglwys, mae'n rhaid i bob gyrrwr gael ei enwi ar y polisi yswiriant;
- wrth logi bws mini neu fws sy'n fwy o ran maint, mae'r grŵp defnyddwyr yn gyfrifol am gadarnhau cyfreithlondeb a pholisi yswiriant y gweithredwr cyn defnyddio'r cerbyd. Os oes unrhyw amheuan ynglŷn â hyn, dylid gofyn i weld copi o bolisi yswiriant y gweithredwr a'i drwydded. **Os oes gennych unrhyw amheuan, peidiwch â gyrru'r cerbyd;**
- mae angen sicrhau bod llyfr cofnodi damweiniau/llyfr llog torri i lawr yn cael eu cludo mewn bysiau mini eglwysi, a'u bod yn cael eu diweddarau;
- mae'n rhaid cadw at y terfynau cyflymder ar gyfer bysiau mini bob amser: 50mya ar gefnffyrdd un lôn,; 60 m.y.a. ar ffyrdd deuol, a 70 m.y.a. ar y draffordd;
- mae'n rhaid sicrhau bod bocs cymorth cyntaf a diffoddydd tân yn y cerbyd, a dylai'r gyrrwr wybod sut i'w defnyddio.

**Cludo plant a phobl ifanc**

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â chludo plant a phobl ifanc yn benodol. Ni ddylid cludo plant neu bobl ifanc heb ganiatâd eu rhieni neu eu gwarcheidwaid ymlaen llaw. Ffurflen 2: *Ffurflen ganiatâd gyffredinol*

Mae'n rhaid i yrwyr sy'n cludo plant/pobl ifanc gydymffurfio â'r gweithdrefnau recriwtio a gwirio arferol. Mae'n rhaid cwblhau Tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; mae'n rhaid i'r unigolyn fod dros 25 oed, bod â thrwydded yrru lawn ers dros ddwy flynedd, ac os yw'n gyrru bws mini, mae angen cadarnhau bod trwydded y gyrrwr yn rhoi'r hawl iddo yrru bws mini.

Mae'n rhaid i yrwyr sydd â mwy na 6 phwynt ar eu trwydded hysbysu Cydgysylltydd Diogelu'r Plwyf, ac ni all unrhyw yrwr sydd ag euogfarn am yfed a gyrru, gyrru'n beryglus, rasio ar y briffordd neu drosedd debyg gludo plant neu bobl ifanc oni bai bod y mater wedi'i ystyried gan y

Panel Diogelu Taleithiol.

Peidiwch â chludo plentyn/person ifanc ar ei ben ei hun. Dylid sicrhau bod oedolyn arall yn teithio gyda phlentyn bob amser. Dan amgylchiadau eithriadol lle nad oes modd osgoi hyn, mae'n hanfodol sicrhau bod arweinwyr/cynorthwywyr eraill yn gwybod beth sy'n digwydd, a bod y plentyn yn eistedd yng nghefn y cerbyd.

Dylai arweinwyr/cynorthwywyr sy'n teithio gyda phobl ifanc mewn bysiau mini eistedd gyda'r bobl ifanc, ac yn ddelfrydol dylai arweinydd/cynorthwydd eistedd ger manau gadael y cerbyd.

Os yw rhieni yn gwneud trefniadau preifat i gludo plant ac eithrio'u plant eu hunain rhaid sicrhau bod trefniadau o'r fath yn drefniant rhwng y sawl sy'n cludo a rhiant neu warcheidwad y plentyn ac nad yw'n drefniant a gymeradwyir neu a hwylusir gan weithwyr yr eglwys.

### **Seddi diogel i blant a gwregysau diogelwch**

1. Mae'n rhaid i blant o dan 3 oed ddefnyddio sedd ddiogel i blant sy'n addas i'w pwysau mewn unrhyw gerbyd (gan gynnwys faniau a cherbydau nwyddau eraill). Yr unig eithriad i hyn yw cefn tacsi lle nad yw'r sedd ddiogel gywir i blant ar gael;
2. Ni ddylai seddi i fabanod sy'n wynebu'r cefn gael eu defnyddio mewn sedd sydd wedi'i diogelu gan fag aer blaen oni bai bod y bag aer wedi'i ddadactifadu â llaw neu'n awtomatig;
3. Mewn cerbydau sydd â gwregysau diogelwch, mae'n rhaid i blant 3 oed hyd at 135cm o daldra (4tr 5mod) ddefnyddio sedd ddiogel briodol i blant oni bai nad yw'r sedd ar gael mewn tacsi, ar gyfer teithiau byr achlysurol, neu os yw dwy sedd i blant yn cael eu defnyddio yn y cefn gan atal gosod trydedd sedd ddiogel i blant. Mewn achosion o'r fath, gall y plentyn deithio yn y cefn gan ddefnyddio gwregys oedolyn;
4. Mae'n rhaid i blant o 3 oed hyd at 135cm o daldra (neu hyd at eu pen-blwydd yn 12 oed – pa un bynnag ddaw gyntaf) ddefnyddio sedd godi iawn (mae'r un eithriadau â'r uchod yn berthnasol);
5. Mae'n rhaid i blant 12 neu 13 oed, neu dros 135cm o daldra, wisgo gwregys diogelwch os oes un ar gael.

**Diwedd**

Yn ôl i'r Mynegai



## Adran 11

Yn ôl i'r Mynegai

**Digwyddiadau preswyl**

Cyn cynnal unrhyw ddigwyddiad o'r fath, mae'n rhaid cwblhau Ffurflen 6: *Cais am gymeradwyo gweithgareddau*. Mewn unrhyw ddigwyddiad preswyl sy'n cael ei drefnu ar gyfer plant a phobl ifanc, mae angen derbyn cyfrifoldeb am eu llesiant, bod yn barod am unrhyw bosibilrwydd, rhagweld sefyllfaoedd a allai arwain at berygl posibl, a rhoi camau ar waith i leihau, dileu, osgoi a rheoli peryglon posibl. Wrth gynllunio ar gyfer pob digwyddiad preswyl, dylid cynnwys y Swyddog Diogelu, y Swyddog Iechyd a Diogelwch, a Swyddog y Cyfryngau. Dylid cynnal cyfarfod terfynol o leiaf 4-5 diwrnod gwaith cyn yr holl ddigwyddiadau i drefnu'r manylion terfynol. Disgwylir i ffurflenni Cadw'n Ddiogel (ffurflenni 15-18) gael eu defnyddio i ategu gwaith y cyfarfod terfynol ynghyd â chwblhau'r holl asesiadau risg (ffurflen 19). Cyn cynnal unrhyw ddigwyddiad preswyl, mae'n rhaid i'r arweinydd gwblhau asesiad risg ffurfiol o'r lleoliad a'r gweithgareddau yn unol â chanllawiau iechyd a diogelwch yr Eglwys yng Nghymru. Mae'n rhaid derbyn ffurflen ganiatâd sydd wedi'i llofnodi gan y sawl sydd â chyfrifoldeb riant ar gyfer pob plentyn sy'n mynychu'r digwyddiad, ac mae'n rhaid i'r ffurflen hon nodi natur y gweithgareddau y bydd y plentyn neu'r person ifanc yn cymryd rhan ynddynt. Dyma Ffurflen 3 *Caniatâd ar gyfer gweithgareddau penodol*.

Mae'n rhaid storio'r ffurflenni yn ddiogel yn unol â pholisïau a gweithdrefnau diogelu data a chadw cofnodion. Mae'n rhaid cyflwyno'r ffurflenni caniatâd i offeiriad y plwyf ynghyd ag asesiad risg wedi'i gwblhau a Ffurflen 6: *Ffurflen gais i gymeradwyo gweithgareddau*. Mae'n rhaid cwblhau pob ffurflen yn llawn a'i storio yn ddiogel. Arweinydd dynodedig y digwyddiad sy'n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd. Dylai offeiriad y plwyf lofnodi Ffurflen 6 hefyd i gadarnhau ei fod wedi'i derbyn.

**Y ganolfan breswyl**

Wrth drefnu cwrs preswyl, dylai'r arweinydd nodi'r canlynol:

- cadarnhau a sicrhau bod gweithdrefnau diogelu ar waith yn unol â'r polisi hwn. Yn benodol, dylai sicrhau bod unigolyn cyfrifol wedi'i enwi i arwain y gwaith o ymdrin ag unrhyw bryderon diogelu. Mae'n rhaid i'r unigolyn hwn fod yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau diogelu a sicrhau bod ganddo enwau a manylion cyswllt pawb y gall fod angen cysylltu â nhw;
- ar gyfer digwyddiadau sy'n cynnwys enwadau / sefydliadau gwahanol, mae'n rhaid cydymffurfio â pholisi diogelu'r Eglwys yng Nghymru, a sicrhau bod yr un dogfennau yn cael eu defnyddio. Yn y cyswllt hwn, argymhellir y dylai sefydliadau gyfarfod i gynllunio a pharatoi'r digwyddiad gyda'i gilydd os oes modd. Yn bwysicach na dim, mae'n rhaid sicrhau bod y rhai sy'n arwain y digwyddiad yn deall beth i'w wneud a pha weithdrefnau i'w dilyn mewn argyfwng;
- sicrhau bod y ganolfan breswyl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch bresennol a bod ganddi bolisi yswiriant digonol ar gyfer y grŵp, gan gynnwys unrhyw blentyn ag anghenion penodol, a bod ganddi drwydded ar gyfer y gweithgareddau arfaethedig, gan gynnwys unrhyw weithgareddau risg uwch fel canwio, dringo creigiau ac ati. Mae'n rhaid sicrhau bod y polisi yswiriant yn cynnwys damweiniau personol, atebolrwydd personol ac atebolrwydd cyhoeddus;
- mae'n bwysig sicrhau bod trefnwyr, gweithwyr, gwirfoddolwyr, plant a phobl ifanc yn gyfarwydd â rheolau a rheoliadau'r ganolfan breswyl. Dylai staff y ganolfan breswyl dderbyn cymorth i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cydymffurfio â nhw;
- sicrhau bod cyfarpar cymorth cyntaf ar gael a bod modd cysylltu â meddyg teulu mewn

argyfwng;

- sicrhau bod llety cysgu ar wahân ar gael ar gyfer bechgyn a merched. Ni all oedolion rannu llety cysgu gyda phlant/pobl ifanc o dan eu gofal.
- Fodd bynnag, dylai oedolion fod wrth law ac ar gael yn y nos os oes argyfwng yn codi. Dylai'r plant/pobl ifanc wybod ble mae oedolion yn cysgu. Ni ddylai oedolion fynd i mewn i lety cysgu plant/pobl ifanc ar eu pennau eu hunain;
- dylai strategaeth fod ar waith i hysbysu rhieni/gwarcheidwaid am argyfwng posibl neu am newidiadau annisgwyl neu newidiadau na ellir eu hosgoi i'r rhaglen neu'r lleoliad. Dylid sicrhau bod ffôn ar gael bob amser;
- dylid atal neu wahardd plant a phobl ifanc rhag dod â chyfarpar trydanol fel teclyn sychu gwallt, teclyn sythu gwallt a dyfeisiau digidol fel consol gemau cludadwy, llechen ac ati. Os ydynt yn dod â dyfeisiau digidol neu eitemau drud eraill gyda nhw, mae'n rhaid iddyn nhw a'u rhieni gael gwybod mai'r plentyn sy'n gyfrifol am y dyfeisiau eu hunain ac am unrhyw ddifrod iddynt;
- sicrhau bod polisi dim alcohol ar waith ar gyfer plant a phobl ifanc tra bod plant a phobl ifanc o dan eich gofal.

### Rhieni/gwarcheidwaid a/neu ofalwyr

Ni ellir mynd â pherson ifanc i ffwrdd i fynychu digwyddiad preswyl heb ganiatâd yr unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant. Mae'n rhaid i'r unigolyn hwn gwblhau a llofnodi Ffurflen 3: *Caniatâd ar gyfer gweithgareddau penodol*, gan nodi unrhyw wybodaeth feddygol berthnasol fel alergeddau, deiet arbennig ac ati. Mae'n rhaid i'r rhiant/gwarcheidwad neu'r gofalwr sy'n llofnodi'r ffurflen fod â chyfrifoldeb rhiant ar gyfer y plentyn.

Cyn mynd â grŵp i ffwrdd, dylai rhieni/gwarcheidwaid/gofalwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- y rhaglen/gweithgareddau y bydd y plentyn yn cymryd rhan ynddi/ynddynt;
- enwau a rhifau ffôn yr arweinwyr/cynorthwyyr sy'n mynd gyda'r grŵp. Os oes modd, dylid rhoi gwybodaeth am y digwyddiad preswyl i rieni ymlaen llaw, gan roi cyfle iddynt gyfarfod yr arweinwyr/cynorthwyyr;
- cyfeiriad a rhif ffôn y Ganolfan;
- 'contract' y grŵp, hynny yw, y rheolau y bydd angen i'r bobl ifanc gydymffurfio â nhw, a'r canlyniadau posibl os ydynt yn torri'r rheolau;
- y dillad a'r eitemau eraill sydd eu hangen ar y bobl ifanc;
- faint o arian poced sydd ei angen. Mae'n syniad da pennu uchafswm ar gyfer hyn.

### Plant a phobl ifanc

- ni all plant a phobl ifanc gymryd rhan yn y cwrs preswyl a'i weithgareddau heb ganiatâd rhiant/gwarcheidwad/gofalwr;
- mae'n rhaid rhoi gwybodaeth lawn i blant a phobl ifanc am natur y cwrs preswyl a'r disgwyliadau ar eu cyfer;
- er y dylent gymryd rhan weithredol a chael eu hannog i gyfranogi o bosibl, ni ddylid byth gorfodi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd os ydynt yn

teimlo ofn neu os nad ydynt yn fodlon cymryd rhan ynddo am reswm arall;

- dylai plant a phobl ifanc gael cyfle i drafod rheolau a chontract ar gyfer ymddygiad, a dylent fod yn ymwybodol o'r sancsiynau am dorri rheolau;
- dylai ffôn fod ar gael i blant a phobl ifanc os oes modd;
- dylid arddangos rhifau ffôn ChildLine a'r NSPCC.

**Diwedd**

Yn ôl i'r Mynegai

## Adran 12

Yn ôl i'r Mynegai

**Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth**

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn nodi'n glir sut y dylid rheoli gwybodaeth bersonol. Anaml iawn y mae'r ddeddf yn rhwystr i ddatgelu gwybodaeth. Nid oes unrhyw gyfyngiad yn y Ddeddf Diogelu Data neu mewn unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n atal y broses o dynnu sylw at bryderon am unigolion a'u rhannu rhwng asiantaethau at ddibenion amddiffyn plant neu oedolion mewn perygl.

Mae'r broses o sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag niwed arwyddocaol, a'r gofyniad ehangach i'w diogelu a hyrwyddo eu lles, yn dibynnu'n sylfaenol ar rannu gwybodaeth, cydweithio a dealltwriaeth effeithiol rhwng asiantaethau a gweithwyr proffesiynol.

**Rhannu gwybodaeth yn ddiogel**

Er mwyn rhannu gwybodaeth gyfrinachol yn gyfreithlon ac yn ddiogel, mae angen sylfaen gyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth a rheswm dilys dros wneud hynny. Wrth benderfynu a ddylid rhannu gwybodaeth gyfrinachol mae angen ystyried y canlynol:

- a oes rhwymedigaeth statudol i ddatgelu'r wybodaeth? Hynny yw, a oes dyletswydd i ddatgelu gwybodaeth ar sail gorchymyn llys neu rwymedigaeth gyfreithiol arall, fel dyletswydd i hysbysu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?
- a oes cydsyniad clir neu ymhlyg gan y personau perthnasol?
- a oes budd cyhoeddus tra phwysig i ddatgelu'r wybodaeth, er enghraifft os yw plentyn neu oedolyn mewn perygl o niwed sylweddol?

Dylid ystyried arwyddocâd, neu arwyddocâd posibl y wybodaeth berthnasol. Mae'n rhaid i'r wybodaeth fod yn berthnasol i'r rheswm am ei rhannu, ac ni ddylid ei rhannu â neb arall heblaw'r ymarferwyr neu'r asiantaethau sydd angen y wybodaeth.

Mae angen bod yn agored ac yn onest ynglŷn â'r rhesymau pam mae angen rhannu gwybodaeth a pham mae angen rhoi camau penodol ar waith, oni bai y bydd gwneud hynny'n peri pryder diogelu.

Mae'n rhaid sicrhau cydsyniad i rannu gwybodaeth oni bai nad yw'n ddiogel gwneud hynny, nad oes modd gwneud hynny, neu y byddai gwneud hynny'n tanseilio'r gwaith o atal neu ganfod trosedd.

Dylai gwybodaeth fod yn gywir, cael ei storio'n ddiogel a pheidio â chael ei chadw pan nad oes ei hangen mwyach.

Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn ag a ddylid rhannu gwybodaeth, dylid cysylltu â'r Swyddog Diogelu Taleithiol am gyngor. Gweler Canllawiau Diogelu Data yr Eglwys yng Nghymru yn <https://www.churchinwales.org.uk/resources/privacy-statement> am ragor o wybodaeth.

**Ymateb i'r cyfryngau**

Mae honiadau o gamdriniaeth gan glerigion neu weithwyr yr eglwys yn debygol o ddenu sylw'r cyfryngau. Mewn unrhyw achos o gamdriniaeth honedig a all arwain at achos llys, mae'n hollbwysig peidio â datgelu unrhyw wybodaeth a all ddylanwadu ar ganlyniad unrhyw achos cyfreithiol. Wrth ymateb i sylw'r cyfryngau, mae angen ystyried dymuniadau, anghenion a llesiant dioddefwyr, budd y cyhoedd a pheryglon i eraill, gan gynnwys y troseddwr honedig neu hysbys. Bydd y Cyfarwyddwr

Cyfathrebu yn ymdrin â phob ymholiad gan y cyfryngau, a dylid cysylltu ag ef yn syth mewn unrhyw achos lle mae diddordeb gan y cyfryngau yn bosibl neu'n debygol.

**Diwedd**

Yn ôl i'r Mynegai

## Adran 13

**Chwythu'r chwiban  
(cofnodi cyfrinachol)**

Yn ôl i'r Mynegai

Mae'n rhaid i bob sefydliad sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion mewn perygl, neu sy'n darparu gwasanaethau ar eu cyfer, fod â gweithdrefnau priodol ar gyfer chwythu'r chwiban, a diwylliant sy'n hwyluso'r broses o fynd i'r afael â phryderon a honiadau yn ymwneud â diogelu. Yn benodol, mae angen bod yn ymwybodol bod lles plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn bwysicach na dim. Diben chwythu'r chwiban fel rhan o'r gweithdrefnau diogelu yw annog a galluogi unrhyw un sydd â phryder difrifol i fynd ati i fynegi'r pryder hwnnw.

Mae'n bosibl y bydd pobl sy'n gweithio yn yr Eglwys yng Nghymru, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i ddeiliaid swydd, gweithwyr cyflogedig neu wirfoddolwyr, yn ei chael yn anodd siarad am eu pryderon a'u mynegi, gan deimlo eu bod yn bradychu eu cydweithwyr neu'r eglwys. Hefyd, gallent boeni am ddioddef aflonyddu neu erledigaeth.

Mae'r gyfraith yn amddiffyn chwythwyr chwiban yn erbyn erledigaeth, gwahaniaethu neu anfantais maes o law os ydynt wedi codi'r mater dan sylw oherwydd pryder gwirioneddol. Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn amddiffyn gweithwyr yn erbyn cael eu diswyddo neu eu cosbi o ganlyniad i ddatgelu pryderon difrifol penodol. Mae'r polisi yn amddiffyn gwirfoddolwyr hefyd.

**Cyfrinachedd ac aros yn ddiennw**

Mae'n bwysig bod unigolyn sy'n mynegi pryder yn nodi ei enw wrth wneud yr honiad ac nad yw'n aros yn ddiennw. Bydd pryderon sy'n cael eu mynegi'n ddiennw yn cael eu hystyried, ond maent yn llai grymus o lawer ac mae'n llawer anoddach ymchwilio iddynt a'u profi. Mae modd mynegi pryderon yn gyfrinachol. Fodd bynnag, ar yr adeg briodol, mae'n bosibl y gofynnir i'r chwythwr chwiban gamu ymlaen fel tyst wrth geisio datrys y mater.

**Mynegi pryder**

Os oes gan unigolyn unrhyw bryderon bod rhywun yn yr eglwys yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, neu'n ymddwyn mewn ffordd sy'n mynd yn groes i unrhyw un o'r polisiau diogelu hyn, dylai gysylltu â'r Swyddog Diogelu Taleithiol yn y lle cyntaf.

Os nad yw'r unigolyn yn teimlo ei fod yn gallu cysylltu â'r Swyddog Diogelu Taleithiol, neu os yw'r honiad yn ymwneud â'r Swyddog Diogelu Taleithiol, dylid gofyn i'r Pennaeth Diogelu am gymorth.

Mae modd mynegi pryderon ar lafar yn y lle cyntaf, ond bydd angen eu cofnodi ar ffurf ysgrifenedig wedyn gan nodi hanes y pryder, cymaint o fanylion â phosibl ac unrhyw dystiolaeth ategol.

Gorau po gyntaf y caiff pryderon eu mynegi er mwyn rhoi camau gweithredu ar waith.

**Sut bydd yr Eglwys yn ymateb**

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn ymrwymo i leihau unrhyw berygl i unigolyn sy'n mynegi pryder yn ddidwyll, a bydd yn cefnogi unrhyw unigolyn sy'n gwneud hynny. Ni fydd yn goddef erledigaeth, bygythiadau neu effaith negyddol ar unrhyw un sy'n mynegi pryder yn ddidwyll, a bydd yn gweithredu i atal hyn. Mae'n bosibl y bydd y chwythwr chwiban yn cael ei alw i roi tystiolaeth

mewn achos troseddol neu ddisgyblu. Os yw hyn yn digwydd, bydd yn derbyn cyngor ar y weithdrefn ac unrhyw gymorth gofynnol posibl.

Bydd ymholiadau cychwynnol yn cael eu gwneud i benderfynu a yw ymchwiliad yn briodol, ac os ydyw, pa fath o ymchwiliad sydd ei angen.

Yn amodol ar gyfyngiadau cyfreithiol, bydd y chwythwr chwiban yn cael gwybod am ganlyniad unrhyw ymchwiliad.

**Diwedd**

Yn ôl i'r Mynegai

## Mynegi pryderon am unigolyn sydd mewn swydd o ymddiriedaeth

Mae'n hysbys bod y rhan fwyaf o achosion o gam-drin plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl yn cael eu cyflawni gan unigolion y mae plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt.

Mae holl weithwyr yr eglwys, gan gynnwys clerigion, gweithwyr cyflogedig a gwirfoddolwyr yn cael eu hystyried gan yr Eglwys yng Nghymru yn unigolion sydd mewn swyddi o ymddiriedaeth yn yr eglwys, ac o ganlyniad mae disgwyl iddynt gydymffurfio â'r polisi a'r gweithdrefnau diogelu.

Gall honiad neu bryder ymwneud â gweithgareddau yn yr eglwys, y cartref neu leoliad arall. Gall pryderon ymwneud â digwyddiad presennol neu rywbeth sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Mae'n bwysig cofio y gall digwyddiadau'r gorffennol fod yn berthnasol i ddiogelwch plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl heddiw. Felly, pryd bynnag mae'r digwyddiad honedig wedi digwydd, dylid dilyn y weithdrefn a nodir yn Adran 1.

### Beth yw torri ymddiriedaeth?

Mae unrhyw fath o gam-drin neu gam-fanteisio ar blentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl yn achos o dorri ymddiriedaeth. Mae'n bwysig bod pobl sydd mewn swyddi o gyfrifoldeb, awdurdod ac ymddiriedaeth yn ofalus iawn i sicrhau nad yw'r ymddiriedaeth hon yn cael ei thorri.

Mae'r diffiniad o dorri ymddiriedaeth yn ehangach na honiad yn ymwneud â niwed arwyddocaol neu'r tebygolrwydd o niwed arwyddocaol i blentyn neu oedolyn mewn perygl. Mae'n ymwneud â sefyllfaoedd lle mae pryderon wedi'u mynegi ynglŷn â'r posibilrwydd bod niwed wedi digwydd. Mewn unrhyw achos o dorri ymddiriedaeth, hyd yn oed os nad oes cyhuddiad, mae'n bwysig nodi y bydd angen gofyn i'r awdurdodau statudol am gyngor.

Byddai ymddygiad o'r fath yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- fethu cydymffurfio â pholisiau a gweithdrefnau diogelu gan gynnwys methu rhoi gwybod am bryderon diogelu yn brydlon, neu atal, rhwystro neu lesteirio eraill rhag mynegi unrhyw bryderon posibl yn ymwneud â materion diogelu;
- cyfeillio plentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl drwy gynnig neu roi cymhellion iddo fel anrhegion, danteithion, arian neu gyffuriau, neu drwy ddatblygu perthynas o ymddiriedaeth â'i deulu, neu drwy ddefnyddio'r rhyngwyd ac ati i ddatblygu perthynas er mwyn cam-drin neu gam-fanteisio ar yr unigolyn;
- meithrin perthynas ddwys o natur rywiol â pherson ifanc dros 16 oed ond llai na 18 oed;
- derbyn arian neu eitemau drud fel anrhegion er budd personol;
- datgelu unrhyw wybodaeth bersonol am eraill heb eu cydsyniad e.e. cyfeiriad (personol, e-bost neu negeseua), rhif ffôn neu fanylion banc, oni bai bod y mater yn ymwneud â diogelu;
- anfon negeseuon neu roi negeseuon ar unrhyw wefan cyfryngau cymdeithasol, neu ddefnyddio TGCh mewn unrhyw ffordd arall, er mwyn bygwth, dychryn, bychanu, cam-drin neu aflonyddu ar unrhyw unigolyn neu grŵp.

Mae'n bosibl y bydd y pryderon yn ymddangos yn gymharol ddibwys, fel methu cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau diogelu, neu mae'n bosibl y bydd yn amlwg bod trosedd wedi'i chyflawni.



Er y gall gweithredoedd unigolyn fod yn seiliedig ar fwriadau da, mae'n bwysig sicrhau nad ydynt yn cael eu camddehongli. Mae'n hynod bwysig cynnig gofal a chymorth priodol. Mae angen bod yn ofalus iawn wrth wrando ar blentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl, neu wrth gynnig cyngor iddynt, gan ddewis lleoliad neu safle priodol i wneud hynny.

Dylid bod yn ofalus cyn cymryd rhan mewn sgysiau preifat neu ddwys, a dylid osgoi gwneud hyn gyda phlant a phobl ifanc. Yn anad dim, peidiwch â meithrin perthynas sy'n cam-fanteisio ar yr ymddiriedaeth sy'n rhan naturiol o'r swydd y mae'r eglwys wedi'i rhoi i chi.

## **Sut i ymateb i bryder am unigolyn sydd mewn swydd o ymddiriedaeth yn yr Eglwys**

Os oes unrhyw un yn amau bod plentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl yn cael ei gam-drin, neu'n amau bod gweithiwr arall yn defnyddio ei swydd o ymddiriedaeth mewn ffordd amhriodol, mae ganddo ddyletswydd i hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol am ei amheumon. Dylid gofyn i'r Swyddog Diogelu Taleithiol am gyngor a chymorth. Os yw'r unigolyn yn poeni am fynegi ei bryderon oherwydd ôl-ffeithiau posibl, dylai ddefnyddio Gweithdrefn Chwythu'r Chwiban (Adran 13) a fydd yn ei amddiffyn.

Weithiau bydd pryderon yn cael eu mynegi yng nghyd-destun lleoliad teulu gweithiwr yr eglwys ei hun, er enghraifft, os yw rhywun wedi edrych ar ddelweddau o gam-drin plant yn y cartref neu wedi cam-drin ei blant ei hun mewn rhyw ffordd. Bydd yr amgylchiadau hyn yn effeithio ar sut mae gweithiwr yr eglwys yn gallu cyflawni ei rôl yn yr eglwys. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y Swyddog Diogelu Taleithiol yn cydweithio'n agos â gwasanaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol a'r heddlu. Hefyd, bydd yr esgob yn sicrhau bod gofal bugeiliol priodol ar gael i gefnogi gweithiwr yr eglwys a'i deulu.

Os yw'r pryder yn ymwneud â diogelu plentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl, rhaid dilyn y gweithdrefnau a'r canllawiau arfer gorau sy'n cael eu hamlinellu yn Adran 1.

Beth bynnag yw'r pryderon, mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n derbyn y wybodaeth drafod y mater gyda'r Swyddog Diogelu Taleithiol cyn gynted ag y bydd hynny'n ymarferol.

Os nad yw'r pryder yn ymwneud yn uniongyrchol ag amddiffyn plentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl, neu os nad yw'r pryder yn glir, mae angen ei drafod gyda'r Swyddog Diogelu Taleithiol.

Os nad yw'r meini prawf ar gyfer atgyfeirio'r mater i'r heddlu neu'r gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi'u bodloni, mae'n bosibl y bydd pryderon o hyd ynglŷn ag ymddygiad amhriodol posibl yr oedolyn, ac os felly bydd angen gofyn i'r Panel Diogelu Taleithiol am gyngor. Gall y cyngor hwnnw nodi bod y mater yn ddigon difrifol i'w atgyfeirio i Gorff Rheoleiddio fel Estyn, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru neu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Os yw ymchwiliad diogelu yn dod i'r casgliad bod clerig wedi cam-fanteisio ar ei swydd o ymddiriedaeth, atgyfeirir y mater i esgob yr esgobaeth, gan arwain o bosibl at ymchwiliad arall yn unol â rheolau disgyblu'r Eglwys yng Nghymru. Atgyfeirir unrhyw fater yn ymwneud â gweithwyr cyflogedig at gyflogwr dynodedig yr eglwys, a fydd yn rhoi camau gweithredu priodol ar waith yn unol â'i weithdrefn ddisgyblu ei hun. Yn dilyn pryder neu honiad yn ymwneud â gwirfoddolwr, mae'n bosibl y bydd yr unigolyn dan sylw yn penderfynu rhoi'r gorau i'w waith. Hyd yn oed os yw hynny'n digwydd, bydd cyngor y Panel Diogelu Taleithiol yn cael ei ddilyn os oes angen atgyfeirio'r mater i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Yr unig eithriad i rannu gwybodaeth gyda'r Swyddog Diogelu Taleithiol yw achos lle mai'r Swyddog Diogelu Taleithiol yw testun yr honiadau neu'r pryder, neu ei fod yn gysylltiedig â nhw mewn rhyw ffordd. Mewn achosion o'r fath, dylid cyfeirio'r mater at Ysgrifennydd y Dalaith.

Rhaid cydymffurfio â'r canlynol bob amser:

1. Ni ddylid hysbysu'r unigolyn sy'n destun pryder am y ffaith fod pryderon wedi'u mynegi.
2. Dim ond ar ôl cysylltu a chytuno â'r awdurdodau statudol y dylid cysylltu â'r unigolyn sy'n destun pryder.

Mae'n rhaid trosglwyddo'r holl gofnodion a nodiadau i'r Swyddog Diogelu Taleithiol (neu i Ysgrifennydd y Dalaith os yw'r pryderon yn ymwneud â'r Swyddog Diogelu Taleithiol) cyn gynted ag y bydd hynny'n ymarferol ac erbyn y diwrnod gwaith canlynol os oes modd.

### **Cofnodi a chadw cofnodion mewn achosion yn ymwneud â thorri ymddiriedaeth**

Mae'n rhaid dilyn y gweithdrefnau a'r canllawiau sy'n cael eu hamlinellu yn Adran 1.

Os yw ymchwiliad statudol yn cael ei gynnal yn ymwneud ag oedolyn sydd mewn swydd o ymddiriedaeth, ac os yw'r ymchwiliad yn dod i'r casgliad bod yr oedolyn wedi torri'r ymddiriedaeth honno, bydd y cofnodion yn cael eu cadw am 75 o flynyddoedd.

### **Gwahardd dros dro**

Mae gan yr Eglwys yng Nghymru gyfrifoldeb i sicrhau bod unrhyw aelod o gymuned yr eglwys sydd wedi troseddu yn erbyn plentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl, neu sy'n destun amheuan neu honiadau o'r fath, neu sydd wedi ymddwyn mewn ffordd arall sy'n gyfystyr â thorri ymddiriedaeth, yn derbyn cymorth a goruchwyliaeth briodol a bod unrhyw atgyfeiriadau gofynnol yn cael eu gwneud.

Bydd yr Eglwys yng Nghymru yn gweithredu yn unol ag egwyddorion canllawiau'r Llywodraeth a nodir yn "Gweithio Gyda'n Gilydd 2013" mewn perthynas â honiadau o gam-drin plant, gan gynnwys honiadau yn ymwneud â delweddau o gam-drin plant, p'un ai a ydynt wedi digwydd yn ddiweddar neu yn y gorffennol.

Ar sail cyngor y Panel Diogelu Taleithiol, mae'n bosibl y bydd angen i esgob yr esgobaeth neu gyflogwr arall yr eglwys wahardd gweithiwr cyflogedig neu wirfoddol cyn ac yn ystod unrhyw ymchwiliad.

### **Dyletswydd i atgyfeirio achos i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfrifol am gadw cofnodion yn ymwneud ag unrhyw un a allai fod yn anaddas i weithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl oherwydd ei ymddygiad yn y gorffennol. Sefydlwyd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o dan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 ac mae'n dwyn ynghyd y swyddogaethau a gyflawnwyd cyn hynny gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

Mae gan yr Eglwys yng Nghymru ddyletswydd gyfreithiol i atgyfeirio achos i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os credir bod unigolyn wedi niweidio plentyn neu oedolyn mewn perygl, neu os oes perygl y gallai wneud hynny yn y dyfodol.

Mae'n drosedd cyflogi unrhyw un (am dâl neu yn wirfoddol) i gymryd rhan mewn gweithgaredd a reoleiddir gyda grŵp os yw'n hysbys bod yr unigolyn wedi'i wahardd rhag gweithio gyda'r grŵp dan sylw.

**Diwedd**

Yn ôl i'r Mynegai

## Rhoi gwybod am gamdriniaeth o'r gorffennol ac ymdrin ag effeithiau datgeliad ar gynulleidfa

Ar ryw adeg, mae'n debygol y bydd offeiriad, neu unigolyn arall sy'n ymwneud ag addoli neu ofal bugeiliol, mewn sefyllfa lle mae rhywun yn datgelu iddo gael ei gam-drin pan oedd yn blentyn.

Fel sy'n wir am ymarfer gorau wrth glywed datgeliad gan blentyn, mae'n bwysig gwrando'n ofalus heb farnu'r unigolyn.

Mae'n bosibl y bydd yr unigolyn sy'n datgelu'r wybodaeth yn dweud nad yw am i eraill gael gwybod am yr hyn a ddigwyddodd. Fodd bynnag, nid yw hynny'n ymarfer da, ac mae cadw datgeliad yn gyfrinachol yn gallu peryglu eraill. Felly, mae'n rhaid trosglwyddo'r wybodaeth i'r Swyddog Diogelu Taleithiol.

### Os yw'r troseddwr yn dal yn fyw

Os yw unigolyn yn datgelu camdriniaeth hanesyddol a bod y troseddwr yn dal yn fyw, dylid annog y goroeswr i gytuno i ddweud wrth yr heddlu gan y gallai'r troseddwr fod yn cam-drin plant o hyd.

Bydd y Swyddog Diogelu Taleithiol yn gyfrifol am gysylltu â'r heddlu i drosglwyddo manylion y goroeswr a'r troseddwr. Bydd y Swyddog Diogelu Taleithiol yn hysbysu'r heddlu a yw'r goroeswr wedi cydsynio i ddatgelu'r gamdriniaeth ai peidio. Os credir bod pryderon iechyd neu ddiogelwch posibl yn codi os yw'r dioddefwr yn datgelu ei enw, dylid trafod y mater hwn gyda'r heddlu. Fodd bynnag, dylid cofio bod yr heddlu yn gallu mynnu bod enwau'n cael eu datgelu drwy orchymyn llys os ydynt yn credu bod y wybodaeth hon yn drech na pheryglon eraill yn ymwneud ag adnabod rhywun.

Dylid parchu dymuniadau a theimladau'r sawl sy'n datgelu'r wybodaeth lle bo hynny'n bosibl. Gall gorfodi rhywun i ddarparu gwybodaeth yn erbyn ei ewyllys olygu ei fod yn tynnu'r honiad yn ôl, ac felly mae'n wrthgynhyrchiol.

Os oes unrhyw ddatgeliad yn ymwneud â throsedd honedig, a/neu berygl parhaus o niwed arwyddocaol i'r goroeswr, boed yn blentyn neu'n oedolyn, mae'n bwysig sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei rhannu â'r heddlu ar unwaith. Os nad yw'r goroeswr yn dymuno siarad â'r heddlu, mae'n annhebygol iawn y bydd yr heddlu yn gorfodi cyswllt os ydynt yn gwybod nad yw'r unigolyn am i hynny ddigwydd. Gwaith yr heddlu yw penderfynu beth sydd angen ei wneud â'r wybodaeth, hynny yw, a ddylid ei chadw er gwybodaeth neu ymchwilio iddi.

### Os yw'r troseddwr wedi marw neu'n anhysbys

O dan yr amgylchiadau hyn, dylid annog y goroeswr i rannu unrhyw wybodaeth hysbys am y troseddwr fel bod modd ei throsglwyddo i'r heddlu. Mae'n bwysig bod y wybodaeth hon ym meddiant yr heddlu hyd yn oed os yw'r unigolyn wedi marw oherwydd mae'n bosibl y bydd yn berthnasol i rwydwaith ehangach o ddioddefwyr ac ymchwiliadau eraill sydd ar y gweill.

### Cymorth ar gyfer goroeswyr

Mae gofal bugeiliol a chymorth ysbrydol yn wahanol i gymorth cwnsela neu therapiwtig. Er bod modd eu darparu ochr yn ochr â'i gilydd, mae'n bwysig bod gwasanaethau cwnsela yn cael eu darparu gan unigolion â'r cymwysterau priodol. Os yw'r drosedd honedig wedi'i chyflawni gan

aelod o'r eglwys, dylid trafod y mater â'r Swyddog Diogelu Taleithiol a fydd yn gallu helpu i sicrhau bod y cymorth mwyaf addas ar gael i'r goroeswr.

Dylai'r rhai sy'n cynnig gofal bugeiliol a chymorth ysbrydol i oroeswyr gysylltu â'r Swyddfa Diogelu Taleithiol i sicrhau bod ffiniau'n cael eu hystyried o safbwynt parchu natur y pwnc, cyfrinachedd a hyd er mwyn rheoli disgwyliadau a diwallu anghenion yr unigolyn sy'n gofyn am gymorth. Mae hyn yn berthnasol iawn os yw'r datgeliad perthnasol yn ymwneud â'r llysoedd, neu'n debygol o ymwneud â'r llysoedd.

## **Ymdrin ag effeithiau datgeliad (cyfredol neu hanesyddol) ar gymuned yr eglwys<sup>1</sup>**

Yn dilyn datgeliad bod clerig neu leygwr cyfrifol mewn plwyf wedi bod yn gyfrifol am gam-drin plant yn rhywiol, mae'r effaith ar y gynulleidfa yn gallu bod yn sylweddol. Yn ogystal ag ymdopi â'r ffaith fod unigolyn arwyddocaol wedi gorfod gadael cymuned yr eglwys, bydd angen ystyried yr effaith anorfod ar ei olynydd, ac ystyried sut i sicrhau bod y gynulleidfa yn ymdopi â'r profiad.

Mae'r broses sy'n wynebu cynulleidfa yn dilyn achos o dorri ymddiriedaeth yn debyg i'r broses o alaru. Bydd pawb yn teimlo sioc yn y dechrau, gan chwilio am atebion a theimlo ar goll, cyn derbyn y sefyllfa maes o law.

Bydd ymateb cychwynnol aelodau unigol o'r gynulleidfa yn amrywio, gan ddibynnu ar lawer o ffactorau, gan gynnwys y canlynol:

- Rôl yr unigolyn yn yr eglwys.
- Graddfa'r ymddiriedaeth sy'n rhan annatod o rôl yr unigolyn.
- I ba raddau roedd aelod y gynulleidfa yn derbyn ffeithiau'r achos.
- A oedd aelod y gynulleidfa mewn cysylltiad â'r dioddefwr neu'r clerig sydd wedi troseddu.
- Perthynas yr aelod â'r clerig. Er enghraifft, a oedd yr aelod yn trafod materion dwys â'r clerig, a wnaeth y clerig weinidogaethu ym mhriodas yr aelod neu gymryd rhan mewn digwyddiadau sacramentaidd eraill? Neu a oedd y clerig yn derbyn cyffes yr aelod?
- Diwinyddiaeth yr unigolyn o safbwynt offeiriadaeth ac arweiniad.
- I ba raddau roedd yr aelod yn dibynnu ar y clerig.
- A oedd yr aelod yn amau bod rhywbeth o'i le ac felly'n teimlo'n euog.
- Sut cafodd y gynulleidfa wybod am y gamdriniaeth/camymddwyn.
- Pa mor agos oedd plant yr aelod at y clerig.
- Oedran a gwerthoedd yr unigolyn.
- Ei hanes ei hun o gamdriniaeth neu gamymddwyn.

Gall aelodau'r gynulleidfa deimlo dicter, dadrith, cywilydd a/neu dristwch yn y lle cyntaf.

Gall rhai effeithiau posibl ar y gynulleidfa gyfan gynnwys:

---

<sup>1</sup> Mae'r erthygl hon wedi'i haddasu o erthygl a ysgrifennwyd gan Janet Hind, cyn Cyngorydd Amddiffyn Plant Eglwys Lloegr, yn 2014.

- Diffyg egni.
- Diffyg ymddiriedaeth mewn arweinwyr yn parhau.
- Rhaniadau o fewn y gynulleidfa.
- Rhai aelodau o'r gynulleidfa yn gadael swyddi o gyfrifoldeb, neu'n gadael yn gyfan gwbl.
- Tynnu cymorth ariannol yn ôl.
- Dicter, sydd efallai'n cael ei drosglwyddo i faterion digyswllt.
- Cynllwyn o ddistawrwydd ynglŷn â'r digwyddiad (er mwyn amddiffyn y troseddwr neu'r dioddefwr)
- Teimlad o anobaith ynglŷn â dyfodol y gynulleidfa.
- Rhoi'r bai neu'r cyfrifoldeb am y digwyddiad ar rywun arall, fel yr esgobaeth.
- Problemau'n gwneud penderfyniadau arferol a gofynnol.

Os nad yw'r gynulleidfa wedi bod drwy broses o wella, gall yr elfennau hyn barhau a mynd yn fwy parhaol. Gallant ymddangos yn amherthnasol i'r digwyddiad trawmatig penodol. Gall hyn achosi anhawster mawr i'r periglor nesaf, yn enwedig os nad yw'n gwybod am yr hyn a ddigwyddodd.

Mewn sefyllfa o'r fath, dylid ystyried penodi gweinidog dros dro. Gall unigolyn profiadol sy'n derbyn cymorth da osod esiampl o aeddfedrwydd ysbrydol, ffiniau iach, a chadw'r gynulleidfa mewn lle diogel wrth iddi ddod i delerau ac ymdopi â'r hyn sydd wedi digwydd.

Dylid gofyn am gymorth y tîm diogelu a llunio cynllun gydag uwch glerigion eraill yn yr esgobaeth i fynd i'r afael â'r sefyllfa mewn ffordd sensitif a phroffesiynol.

Bydd angen i'r tîm gyfarfod yn rheolaidd yn ystod ymchwiliad i achos o gam-drin. Bydd angen i'r tîm sicrhau bod anghenion y gynulleidfa yn cael eu monitro. Mae'n anorfod y bydd angen sicrhau lefel uchel o gyfrinachedd yn ystod yr ymchwiliad. Mae'n rhaid i'r rhai sy'n meddu ar wybodaeth dderbyn cymorth gan unigolyn mewn swydd uchel yn yr esgobaeth.

Cyn gynted â phosibl, a phan fo'r wybodaeth ar fin cyrraedd y cyhoedd, mae angen hysbysu'r gynulleidfa am y ffeithiau i'r graddau y bo hynny'n bosibl heb nodi pwyswch yw'r dioddefwr. Mae'n bosibl mai cyfarfod plwyf fydd yr achlysur gorau i wneud hyn, gan y bydd uwch aelodau'r esgobaeth a'r tîm diogelu yn gallu cynorthwyo'r gynulleidfa i brosesu'r wybodaeth.

Mae'n rhaid i'r gynulleidfa gael cyfle i fynegi ei theimladau; bydd y teimladau hyn yn wahanol ond ni ddylid eu herio. Hefyd, dylai'r gynulleidfa gael cyfle i drafod ôl-ffeithiau'r digwyddiad.

Gallai'r gynulleidfa drafod cynlluniau'r dyfodol, fel pa gyfarfodydd sydd eu hangen arnynt, beth yw anghenion ysbrydol a bugeiliol y gynulleidfa ac a oes angen cymorth unigol ar rai ohonynt, er enghraifft, unigolyn sydd wedi'i gam-drin yn y gorffennol ac a oedd yn credu ei fod wedi dod i le diogel.

Bydd yn ddefnyddiol i'r gynulleidfa roi'r digwyddiad yn ei gyd-destun mewn cyfarfod diweddarach, er enghraifft drwy ddysgu am droseddau rhyw, camddefnyddio pŵer, meithrin perthynas amhriodol ar-lein a chamfanteisio. Gallai goroeswr camdriniaeth (nid y dioddefwr) a throseddwr (nid y clerig) helpu pobl o bosibl i ddeall yr hyn sydd wedi digwydd.

Bydd angen adrodd yn ôl i'r tîm sy'n gyfrifol am egluro'r sefyllfa i'r gynulleidfa.

Dros amser, bydd y gynulleidfa yn ad-drefnu ei hun ac yn dygymod â'r sefyllfa gobeithio. Gall arwyddion bod y gynulleidfa yn dechrau derbyn y sefyllfa gynnwys y canlynol:

- Mae'r cyfrifoldeb am y drosedd yn cael ei gydnabod yn briodol.
- Bydd y ffaith nad yw'r clerig yn mynd i ddychwelyd yn cael ei derbyn.
- Bydd agwedd fwy realistig at rôl y clerig.
- Bydd y pethau da a wnaeth y clerig sydd wedi troseddu yn cael eu cydnabod yn ogystal â'i gamweddau a'r niwed a wnaeth.
- Ni fydd neb yn gweld bai ar y dioddefwr, ond cydnabyddir bod angen cymorth arno (hyd yn oed os nad yw'r gynulleidfa yn ei adnabod).
- Trafodir yn agored â'r gynulleidfa, a bydd swyddogaethau a chyfrifoldebau yn cael eu rhannu'n briodol.
- Mae angen sicrhau bod ffeithiau'r digwyddiad yn cael eu cofnodi yn hanes a chof y plwyf fel eu bod yn cael eu derbyn ac nad ydynt yn datblygu'n gyfrinach sy'n achosi problemau maes o law.
- Mewn cynulleidfaoedd anesmwyth, gallai'r broses o ddatblygu hanes neu gronoleg plwyf fod yn fan cychwyn i ddarganfod gwreiddiau anghydfod.
- Gallai'r gynulleidfa gyrraedd sefyllfa lle gallai digwyddiad cymodi litwrgaidd helpu i atgyfnerthu cynnydd pobl wrth iddynt geisio iachâd.

## **Diwedd**

Yn ôl i'r Mynegai

## Adran 16

Yn ôl i'r Mynegai

**Ymateb i oroeswyr**

Mae'r teimlad o wella o boen a thrawma camdriniaeth yn bwysig i bobl sydd wedi dioddef camdriniaeth, ac mae'n bosibl y bydd y rhai sy'n ceisio gweinidogaethu ochr yn ochr â nhw yn gwneud cyfraniad pwysig at ddarparu cymorth perthnasol. Mae taith pob unigolyn yn unigryw, a bydd yr hyn sy'n bwysig iddo, sy'n ei gynorthwyo ac sy'n rhoi gobaith a chynhaliaeth iddo yn wahanol ym mhob achos.

Mae rhai pobl sydd wedi goroesi camdriniaeth wedi dioddef rhagor o drawma wrth ofyn am gymorth i geisio gwella. Mewn rhai achosion, ar sail bwriadau da o bosibl, mae pobl mewn eglwys wedi ceisio gorfodi defodau neu weddïau gwella ar yr unigolyn sy'n gofyn am gymorth. Mae gorfodi unrhyw beth neu gamgymryd bodlonrwydd am gydsyniad yn amhriodol bob amser, ac mae'n dangos diffyg tosturi a dealltwriaeth. Hefyd, mae'n gallu peri rhagor o drawma i'r unigolyn drwy fethu cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod yr unigolyn yn rheoli'r hyn sy'n digwydd iddo, a sut a phwy sy'n cyffwrdd ynddo. Mewn achosion prin, mae rhagor o weithredoedd o gamdriniaeth wedi'u cyflawni gan yr unigolyn sy'n ceisio cynnig gofal neu wellhad.

Fodd bynnag, i lawer o bobl mae'r eglwys yn gwneud gwaith pwysig yn helpu goroeswyr i brosesu a deall yr hyn sydd wedi digwydd, a'u helpu i wella. Mae angen defnyddio arferion da o safbwynt gofal bugeiliol a chanllawiau diogelu ym mhob sefyllfa sy'n cynnig gweddïau gwellhad, arferion gwellhad a gweinidogaeth achubiaeth ym mywyd yr eglwys. Mae'n rhaid sicrhau bod ansawdd gofal bugeiliol, ymddygiad personol a gweinidogaeth yn yr amgylchiadau hyn o'r safon uchaf.

Weithiau mae'r rhai sydd wedi cael eu cam-drin wedi cael eu hannog, yng nghyd-destun yr eglwys, i faddau yn ddiamod fel pe bai dyna'r peth gorau i'w wneud. Hefyd, mae rhai arweinwyr Cristnogol wedi awgrymu yn ddiamwys, neu wedi ensynio, bod dioddefwr camdriniaeth wedi methu mewn rhyw ffordd os nad yw'n maddau i'r sawl sydd wedi'i gam-drin. Mae hyn yn adlewyrchu diwinyddiaeth wael, mae'n ymarfer hynod wael ac mae'n achosi rhagor o drawma i'r unigolyn. Mae maddeuant, fel proses wella'r unigolyn, yn fater personol. Dim ond yr unigolyn sydd â'r hawl i benderfynu a yw am faddau i'r sawl sydd wedi'i gam-drin, ac ni ddylid ei farnu na'i feirniadu – beth bynnag yw ei benderfyniad. I rai, bydd maddau'n rhan bwysig o'r broses o wellhad, a gall ddod â heddwch a thawelwch meddwl iddynt. Ond ni fydd eraill yn teimlo'r un angen i faddau. Gallant deimlo nad yw'r sawl sydd wedi'i gam-drin wedi dangos unrhyw edifeirwch ac nad oes modd maddau iddo, neu gallant gredu mai mater i Dduw yw maddau iddo.

Beth bynnag yw agwedd y goroeswyr at faddeuant, dylent dderbyn tosturi a chefnogaeth am eu penderfyniad unigol.

Dylid cofio am anghenion goroeswyr i gyfarfod yn rhywle y tu allan i ardal yr eglwys, a mynd ati'n ofalus i ddewis lleoliad i ddatgelu'r wybodaeth.

Mae sefydliadau sy'n arbenigo mewn cynnig cymorth i oroeswyr camdriniaeth wedi'u rhestru yn Atodiad I.

**Cefnogi Goroeswyr**

Os gofynnir i oroeswyr gymryd rhan mewn prosesau mewnol fel rhoi tystiolaeth mewn tribiwnlys, mae'n bwysig cynnig cymorth iddynt bob cam o'r ffordd. Os oes rhaid iddynt fynychu tribiwnlys, dylent gael y cyfle i fynd â rhywun yn gwmni iddynt a dylid sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Dylid eu hamddiffyn yn erbyn unrhyw gyswllt uniongyrchol â'u camdriniwr neu eu camdriniwr honedig mewn cyfarfodydd o'r fath, oni bai eu bod yn gofyn yn benodol fel arall.

Mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i anghenion lles y goroeswyr gydol y prosesau hyn, a rhaid trafod eu hanghenion yn y dechrau.

### **Cefnogi Gweithwyr**

Mae gan yr eglwys gyfle unigryw i gynnig gweinidogaeth fugeiliol sensitif i bawb sy'n gysylltiedig ag achosion cam-drin. Pan fydd diogelwch unigolyn wedi'i sicrhau mewn achos o gam-drin honedig, mae'n hollbwysig bod yr eglwys yn creu strwythurau ar gyfer cwnsela a chefnogi gweithwyr. Mae darparu gweinidogaeth fugeiliol yn waith cymhleth ac anodd, a rhaid sylweddoli bod gwneud y gwaith hwn am amser hir, fel mewn achos llys, yn gallu achosi straen. Bydd angen darparu cymorth, ac efallai cyngor, arweiniad a chwnsela proffesiynol ar gais i'r rhai sy'n gwneud y gwaith hwn.

**Diwedd**

Yn ôl i'r Mynegai



## Gweithio gyda chamdrinwyr honedig a throsteddwy'r hysbys

Mae gan yr Eglwys ddyletswydd i ofalu am bawb sy'n aelodau ohoni, gan gynnwys throsteddwy'r. Mae'n rhaid cymryd y ddyletswydd hon i ofalu o ddifrif, a dylai gynnwys dyletswydd i beidio â rhoi unrhyw unigolyn mewn perygl o niwed.

Mae'n bosibl y bydd throsteddau'n dod i'r amlwg flynyddoedd ar ôl iddynt gael eu cyflawni. Pryd bynnag y digwyddodd yr achos o gam-drin, mae'n rhaid i'r unigolyn fod yn atebol am ei weithredoedd, ac mae'n bosibl y bydd yn parhau i fod yn risg arwyddocaol i blant a/neu oedolion mewn perygl. Mae'n rhaid hysbysu'r heddlu a/neu'r asiantaethau gofal cymdeithasol am y throsteddau bob amser. Bydd y Swyddogion Diogelu Taleithiol yn cysylltu â'r awdurdodau statudol fel sy'n briodol.

### Gweinidogaethu gyda Throsteddwy'r neu Gamdrinwyr Hysbys

Mae throsteddwr yn cael ei ddiffinio fel rhywun a ddyfarnwyd yn euog neu a gafodd rybudd am drosedd. Mae'r Trefniadau Aml-asiantaeth ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPP) yn rhoi dyletswydd statudol ar yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai (yr Awdurdod Cyfrifol) a sefydliadau eraill yr ystyrir bod ganddynt 'ddyletswydd i gydweithredu', i reoli'r perygl o niwed i'r cyhoedd a achosir gan gategoriâu penodedig o drosteddwy'r.

Categori 1 – Trosteddwy'r Rhyw Cofrestredig

Categori 2 – Trosteddwy'r Treisgar

Categori 3 – Trosteddwy'r treisgar neu rywiol eraill

Mae canllawiau MAPP yn gosod cyfrifoldeb ar yr heddlu i gydgyssylltu ac arwain y broses o asesu a rheoli risg, rhannu gwybodaeth am drosteddwy'r a dyfeisio strategaethau i reoli'r perygl. Hefyd, mae'r canllawiau yn mynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â phobl nad ydynt wedi cael euogfarn neu rybudd am drosteddau, ond sydd o dan amheuaeth o gymryd rhan mewn gweithgarwch trosteddol.

Mae gan yr Eglwys ddyletswydd i ymroi i reoli risg i'r gymuned gan ddarparu cymorth a gofal i unigolyn a allai fod wedi'i ynysu a heb lety na swydd sefydlog.

Pan fydd throsteddwr hysbys sy'n destun gofynion hysbysu Deddf Trosteddau Rhywiol 2003 (Categori 1 – Trosteddwr Rhyw Cofrestredig) yn ymuno â chynulleidfya eglwys, dylid hysbysu Swyddog Diogelu Taleithiol yn syth a llunio cytundeb. Gweler Ffurflen 14 (Cytundeb enghreifftiol gyda throsteddwr hysbys). Dylid gwneud y cytundeb hwn gyda'r throsteddwr bob amser, ONI BAI bod awdurdodau statudol yn argymhell y byddai gwneud hynny'n cynyddu'r perygl, sy'n eithriad prin. Mewn achos o'r fath, byddai'r eglwys yn dilyn cyngor yr awdurdodau statudol.

Cydnabyddir hefyd y gallai categorïau eraill o drosteddwy'r a reolir o dan MAPP, neu unigolion nad ydynt wedi cael eu dyfarnu'n euog neu gael rhybudd am drosedd, ond sydd wedi ymddwyn mewn ffordd sy'n destun pryder (er enghraifft, y rhai sydd o dan amheuaeth o drosteddu) achosi perygl o niwed. Mae'n rhaid hysbysu Swyddog Diogelu Taleithiol am unigolion o'r fath hefyd, a bydd yntau'n rhannu'r wybodaeth gyda'r Awdurdodau Cyfrifol i leihau'r perygl a achosir gan unigolion o'r fath.

Dylai'r heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill farnu pob achos yn unigol, gan ystyried lefelau perygl y gweithgarwch rhywiol trosteddol. Gall fod yn briodol llunio cytundeb gyda'r unigolion hynny nad ydynt yn Drosteddwy'r Rhyw Cofrestredig ond a allai fod yn berygl.

## Adolygiad o Gytundebau Trosteddwyr

Dylai Swyddog Diogelu Taleithiol adolygu Cytundebau trosteddwyr bob 12 mis. Pan nad oes pryderon nac unrhyw newidiadau arwyddocaol yn y cytundeb cyfredol, EFALLAI na fydd rhaid cynnal cyfarfod ffurfiol. Mewn ymgynghoriad â'r Heddlu, y Periglor a swyddogion arwyddocaol eraill, gellid cytuno bod y cytundeb cyfredol yn parhau i fod mewn grym. Y Swyddog Diogelu Taleithiol fyddai'n arwain a chytuno ar hyn ac yn cyflwyno ei argymhelliad i'r Panel Diogelu Taleithiol, gyda'r Panel yn cael y gair olaf ar sut i gynnal yr adolygiad.

Ni ddylai unrhyw gytundeb cyfredol bara am fwy na thair blynedd heb gynnal Cyfarfod Adolygu Cytundeb. Y Swyddog Diogelu Taleithiol fydd yn arwain hyn. Dim ond dan amgylchiadau eithriadol lle mae yna dystiolaeth annibynnol gref yn ymwneud â lefel y perygl, y rhoddir ystyriaeth i ddirwyn y cytundeb i ben.

Bydd y cytundeb yn cael ei adolygu'n ffurfiol hefyd pan fo amgylchiadau'n newid, er enghraifft:

- Clerig newydd
- Amrywiad yn statws MAPPA y trosteddwr
- Achos o droseddu pellach
- Nodi ffactorau risg newydd
- Methiant o ran cydymffurfio â'r cytundeb cyfredol

Pan fydd clerig yn gadael plwyf/ardal weinidogaeth neu genhadaeth lle mae trosteddwr hysbys yn addoli, mae'n rhaid trosglwyddo'r wybodaeth hon ar unwaith i'r periglor newydd neu'r unigolyn sy'n gyfrifol dros dro. Mae angen gwneud hyn cyn gynted ag y bydd yr unigolyn yn dechrau'r swydd, a dylid anfon copi o'r cytundeb sydd wedi'i lofnodi mewn ffordd gyfrinachol. Mae'r clerig sy'n gadael ei swydd yn gyfrifol am hysbysu'r swyddog diogelu taleithiol am y newid hwn.

Bydd pob cytundeb trosteddwr yn cael ei adolygu gan aelodau'r Panel Diogelu Taleithiol, a fydd yn ystyried pa mor briodol yw'r cytundeb a'r amodau cysylltiedig.

## Datgelu Gwybodaeth am Droseddwr Rhyw

Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref ar gyfnewid gwybodaeth am bawb sydd wedi cael eu dyfarnu'n euog neu gael rhybudd am drosedd rhyw, neu sydd wedi ymddangos gerbron llys am drosedd rhyw, ac am bawb a allai fod yn fygythiad i blant ac eraill ym marn yr asiantaethau perthnasol, yn pwysleisio y dylai'r broses o ddatgelu gwybodaeth ddigwydd fel rhan o system a phrotocol sefydlog rhwng asiantaethau bob tro, a'i chynnwys mewn system asesu a rheoli risg.

**Diwedd**

Yn ôl i'r Mynegai

## Adran 18

Yn ôl i'r Mynegai

## Asesu Risg – Yr Eglwys yng Nghymru

Yr hyn sydd bwysicaf i ni yw amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed – plant, pobl ifanc ac oedolion bregus. Mae peryglon yn elfen annatod o weithgareddau ac amgylcheddau; yr hyn sy'n rhaid i ni ei wneud yw eu lleihau, gan amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, ein gweithwyr, gwirfoddolwyr, ein heglwysi a gweithgareddau oddi ar y safle hefyd.

### Beth yw asesiad risg?

Asesiad Risg yw edrych ar weithgaredd / amgylchedd i nodi risg neu beryglon posibl (pethau a allai achosi niwed neu fynd o chwith) i grwpiau agored i niwed (ac eraill). Yna mae angen ystyried y camau y dylid eu cyflwyno i ddileu neu leihau'r peryglon a nodwyd.

Gall fod pethau yn yr amgylchedd a allai achosi niwed e.e. gwifrau trydan, plygiau sydd o fewn cyrraedd plant neu gadeiriau wedi'u stacio'n wael; neu fod perygl yn rhan o'r gweithgaredd, yn enwedig oddi ar safle e.e. croesi ffyrdd, trefniadau teithio.

Bydd mwy o berygl gyda rhai nag eraill, a'r peryglon mwyaf fydd angen sylw yn gyntaf gan mai'r rhain allai achosi'r niwed mwyaf.

### Pryd mae angen cwblhau asesiad risg?

Dylid cwblhau asesiad risg cyn cynnal unrhyw weithgaredd os oes grwpiau agored i niwed yn cymryd rhan. Os yw'n weithgaredd rheolaidd, dylid cynnal asesiad risg ar y dechrau, ac yna yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod popeth yn dal i fod yn ddiogel (o leiaf bob blwyddyn). Yn achos gweithgareddau a gynhelir unwaith, dylid cynnal asesiad risg ymhell ymlaen llaw. Os yw'r gweithgaredd yn digwydd oddi ar y safle, dylid ymweld â'r lleoliad fel rhan o'r asesiad er mwyn gallu nodi'n effeithiol holl risgiau posibl y daith a'r lleoliad.

## Y broses asesu risg

Bydd angen i chi roi sylw i bum cwestiwn er mwyn nodi risgiau gweithgaredd / digwyddiad a fydd yn eich galluogi i nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod y gweithgaredd / digwyddiad yn ddiogel yn ôl lefel y risg a nodwyd gennych.

### 1. Beth yw'r risgiau neu'r peryglon posibl?

Er enghraifft: croesi ffyrdd, dŵr agored, cerbydau (fel teithwyr), ymddygiad heriol, gweithgareddau penodol.

### 2. Pwy fydd yn mynychu ac a allai fod mewn perygl o niwed?

Nid oes angen rhestru enwau unigolion – dim ond meddwl am y grwpiau o blant/pobl ifanc/oedolion mewn perygl a'r 'staff' sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd (yn cynnwys y rhai ag anabledau, anghenion arbennig).

### 3. Beth yw'r risgiau i'r grwpiau hyn?

Dylid ystyried y risgiau neu'r peryglon posibl ar gyfer pob grŵp.

#### 4. Beth sydd wedi'i wneud i leihau'r risgiau hyn?

A oes camau diogelwch wedi'u cymryd ar gyfer y risgiau o'r peryglon a nodwyd? E.e. A ddarparwyd y canlynol: gwybodaeth, cyfarwyddyd neu hyfforddiant digonol, systemau digonol, neu weithdrefnau a pholisïau yn cynnwys y Polisi Diogelu? A yw'r camau diogelwch yn enghraifft o arfer da? A ydyn nhw'n lleihau'r risg cymaint ag sy'n ymarferol resymol?

#### 5. A allech chi gyflwyno rhywbeth arall i leihau risgiau?

Beth mwy y gellid fod wedi'i wneud yn rhesymol ar gyfer y risgiau hynny nad oedd yn cael eu rheoli'n ddigonol? Bydd angen rhoi blaenoriaeth i'r risgiau hynny sy'n effeithio ar lawer o bobl a/neu a allai arwain at niwed difrifol.

### Amcangyfrif lefel y risg

<b>Dibwys</b>	Dim angen gweithredu – dim angen cofnodi.
<b>Derbyniol</b>	Dim angen gweithredu, ond mae angen monitro a chofnodi, i sicrhau bod mesurau rheoli'n cael eu cynnal.
<b>Cymedrol</b>	Dylid ymdrechu i leihau'r risg. Os yw risg yn gysylltiedig â chanlyniadau niweidiol, bydd angen cynnal asesiad risg arall.
<b>Sylweddol</b>	Ni ddylid dechrau'r gweithgaredd nes bod y risg wedi'i lleihau neu ei dileu.
<b>Annioddefol</b>	Ni ddylid parhau â'r gweithgaredd na'i ddechrau nes bod y risg wedi'i lleihau neu ei dileu

Darperir templed o asesiad risg isod. Dylid ei gwblhau a'i gadw ar ffeil yn yr Ardal Cenhadaeth/Gweinidogaeth a dylai fod ar gael ar gyfer unrhyw archwiliad/ymweliadau.

Y penawdau yw'r meysydd craidd i'w hystyried a dylid ychwanegu atynt ar gyfer gweithgareddau penodol / anarferol. Dylid ystyried anghenion y rhai a fydd yn cymryd rhan yn y gweithgareddau arfaethedig bob amser.

Efallai yr hoffech ystyried adolygu'r asesiad ar ôl cynnal y digwyddiad, yn enwedig os yw'n debygol o gael ei ailadrodd, i weld a gollwyd unrhyw feysydd neu a ellid fod wedi awgrymu / cymryd unrhyw gamau eraill.

**Asesiad Risg yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer Gweithgareddau a Digwyddiadau**



YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES



**TEMPLED ASESIAD RISG**

Grid gwag y gallwch ei ddefnyddio i gofnodi'ch asesiad risg.

Asesiad risg ar gyfer: .....

Cynhaliwyd gan: .....

Dyddiad: .....

PERYGL	Beth allai ddigwydd?	Pwy allai frifo?	Camau a gymerwyd i leihau'r risg


**Diwedd**

Yn ôl i'r Mynegai

## Atodiad I

Yn ôl i'r Mynegai

### Cysylltiadau Defnyddiol

#### Rhifau Cyswllt Pwysig

Mae'n rhaid i chi hysbysu'r Swyddog Diogelu Taleithiol am unrhyw bryder neu honiad, a bydd y Swyddog hwn yn rhoi'r camau gweithredu priodol ar waith a'ch cynorthwyo i roi unrhyw gamau gweithredu perthnasol ar waith.

Mae'n rhaid cydymffurfio â'r gofynion isod cyn cysylltu â gwasanaethau allanol.

#### Cysylltu â'r Gwasanaethau Brys

- Os oes risg o niwed uniongyrchol, h.y. bod rhywun mewn perygl ar hyn o bryd, dylech chi ffonio 999.
- Dylech chi gysylltu â'r Swyddog Diogelu Taleithiol bob amser cyn gynted ag y bo modd ar ôl unrhyw gam gweithredu a digwyddiad. Ffoniwch **07787 244 037** neu **07551 124 219**.
- Cwblhewch Ffurflen 9 - Rhoi Gwybod am Bryder Diogelu.

#### Cysylltu â'r Heddlu

Os oes risg o niwed a bod y digwyddiad yn un troseddol (er enghraifft, achos honedig o ddwyn neu dwyll) ond nad oes neb mewn perygl uniongyrchol (h.y. nid oes rhaid i chi ffonio 999) ac nad yw'r Swyddog Diogelu Taleithiol ar gael, dylech chi gysylltu â'r Heddlu ar unwaith.

Dylech chi ffonio 101 i gysylltu â'r Heddlu. Mae'r rhif ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Os oes gennych chi nam ar eich clyw gallwch chi gysylltu â gwasanaeth minicom ar 01656 656980.

#### Cysylltu â'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol

Os oes risg o niwed ond nad oes neb mewn perygl uniongyrchol (h.y. nid oes angen i chi ffonio'r Heddlu neu Ambiwlans) ac nad yw'r Swyddog Diogelu Taleithiol ar gael, dylech gysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn uniongyrchol.

Ewch i wefan yr Awdurdod Lleol penodol am ei rif ffôn cyswllt presennol.

#### Adnoddau ar gyfer Gwybodaeth Bellach

Bwriedir i'r adnoddau a amlinellir isod fod yn ffynonellau gwybodaeth bellach ar gyfer cynrychiolwyr a rhanddeiliaid yr eglwys, ac ar gyfer atgyfeirio unrhyw un arall sydd angen gwybodaeth a/neu gymorth. Mae'n rhaid cysylltu'n uniongyrchol â'r Swyddog Diogelu Taleithiol ar gyfer unrhyw ymholiadau neu bryderon sy'n ymwneud yn uniongyrchol â materion diogelu.

## Plant a Phobl Ifanc

<b>NSPCC</b> <a href="http://www.nspcc.org.uk/services-and-resources/nspcc.helpline">www.nspcc.org.uk/services-and-resources/nspcc.helpline</a>	<b>0808 800 5000</b>
<b>ChildLine</b> (gwasanaeth cwnsela ddydd a nos, saith diwrnod yr wythnos ar gyfer plant a phobl ifanc) <a href="http://www.childline.org.uk">www.childline.org.uk</a>	<b>0800 1111</b>
<b>Meic</b> (llinell gymorth gwybodaeth ac eiriolaeth ddydd a nos, saith diwrnod yr wythnos ar gyfer plant a phobl ifanc) <a href="http://www.meiccymru.org">www.meiccymru.org</a>	<b>0808 802 3456</b>
<b>Kidscape</b> (llinell gymorth ar gyfer rhieni sy'n poeni am fwlio) <a href="http://www.kidscape.org.uk">www.kidscape.org.uk</a>	<b>02077 303 300</b>
<b>Swyddfa'r Comisiynydd Plant</b> <a href="http://childcomwales.org.uk">http://childcomwales.org.uk</a>	<b>0808 801 1000</b>

## Oedolion

<b>The National Careline</b> (gwybodaeth am ofal a chymorth ar gyfer pobl hŷn, eu gofalwyr a'u teuluoedd) <a href="http://www.thenationalcareline.org">www.thenationalcareline.org</a>	<b>0800 069 9784</b>
<b>Age Cymru</b> (gwybodaeth, cymorth a chynghor ar gyfer pobl hŷn) <a href="http://www.ageuk.org.uk/cymru">www.ageuk.org.uk/cymru</a>	<b>0800 022 3444</b>
<b>Action for Elder Abuse</b> <a href="http://www.elderabuse.org.uk">www.elderabuse.org.uk</a>	<b>080 8808 8141</b>
<b>Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn</b> <a href="http://www.olderpeoplewales.com/wl/Home.aspx">http://www.olderpeoplewales.com/wl/Home.aspx</a>	<b>0344 264 0670</b>
<b><u>Cyrff Cynghorol / Rheoleiddio</u></b>	
<b>CCPAS:</b> <b>Churches Child Protection Advisory Service</b> <a href="http://www.ccpas.co.uk">www.ccpas.co.uk</a>	<b>0303 003 111</b>
<b>AGGCC:</b> <b>Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru</b> <a href="http://cssiw.org.uk/?skip=1&amp;lang=cy">http://cssiw.org.uk/?skip=1&amp;lang=cy</a>	<b>0300 790 0126</b>



## Diogelwch Ar-lein

### Wisekids

[www.wisekids.org.uk](http://www.wisekids.org.uk)    [info@wisekids.org.uk](mailto:info@wisekids.org.uk)

**01633 673 339**

### Action for Children's Net Smart

[www.actionforchildren.org.uk/our-services/family-support/parenting-suport/netsmart](http://www.actionforchildren.org.uk/our-services/family-support/parenting-suport/netsmart)

### BBC Webwise

<https://www.bbc.com/ownit>

### Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein    **0800 1111**

[www.thinkuknow.co.uk](http://www.thinkuknow.co.uk)

## Cymorth ar gyfer Dioddefwyr a Goroeswyr

### The Survivors Trust

[www.thesurvivorstrust.org](http://www.thesurvivorstrust.org)

**0808 801 0818**

### MACSAS

(Ministry and Clergy Sexual Abuse Survivors)

[www.macsas.org.uk](http://www.macsas.org.uk)

**0808 801 0340**

### NAPAC

<https://www.napac.org.uk>

**0808 801 0331**

## Cymorth a Thriniaeth ar gyfer Troseddwyr

### The Lucy Faithfull Foundation

(yn gweithio gyda theuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan gamdriniaeth gan gynnwys y sawl sydd wedi'i chyflawni, pobl ifanc ag ymddygiad rhywiol amhriodol, a dioddefwyr)

[www.lucyfaithfull.org](http://www.lucyfaithfull.org)

**0808 100 0900**

### Stop it Now

(llinell gymorth gyfrinachol ar gyfer unrhyw un sy'n poeni am unrhyw agwedd ar gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys teuluoedd a gweithwyr proffesiynol)

[www.stopitnow.org.uk/wales](http://www.stopitnow.org.uk/wales)

**0808 100 0900**

## Atodiad 2

### Cadw'n Ddiogel Ar-lein! Canllaw i Blant

1. Paid â dweud wrth neb ar-lein ble rwyd ti'n byw, i ba ysgol rwyd ti'n mynd, dy gyfeiriad, dy gyfeiriad e-bost neu dy rif ffôn, a phaid byth ag anfon lluniau ohonot ti dy hun at unrhyw un. Os oes unrhyw un yn gofyn i ti am y wybodaeth hon, dylet ddweud wrth dy fam neu dy dad.
2. Mae'n wych gwneud ffrindiau ar-lein ond PAID BYTH â chytuno i gyfarfod rhywun rwyd ti wedi siarad ag ef/hi ar-lein. Mae ffrindiau ar-lein yn dal i fod yn bobl ddieithr ac mae rhai pobl yn gallu dweud celwydd am bwy ydyn nhw. Os wyt ti'n cyfarfod â rhywun fel hyn, dylet ti wneud yn siŵr bod dy fam neu dy dad yn gwybod, A GOFALU eu bod nhw, neu oedolyn diogel arall, yn dod i gadw cwmni i ti.
3. Paid byth ag agor e-byst, negeseuon neu ffeiliau gan unrhyw un nad wyt ti'n ei adnabod. Fe allen nhw gynnwys firysau neu negeseuon cas.
4. Mae'r rhyngrwyd yn wych ar gyfer dod o hyd i wybodaeth, ond cofia na fydd popeth y byddi di'n ei ddarllen yn wir. Dylet gadarnhau bod yr hyn rwyd ti'n ei ddarllen yn wir drwy edrych ar wefannau gwahanol, edrych mewn llyfrau neu ofyn i dy athro neu i rywun sy'n gwybod.
5. Dydy pawb ar-lein ddim yn dweud y gwir am bwy ydyn nhw a beth maen nhw'n ei wneud. Weithiau mae pobl yn defnyddio'r rhyngrwyd i fwlio, brifo neu achosi poen meddwl i bobl. Y peth mwyaf diogel i'w wneud yw dim ond siarad ar-lein â phobl rwyd ti'n eu hadnabod yn dy fywyd go iawn, a gofalu bod dy rieni yn gwybod pa ystafelloedd sgwrsio rwyd ti'n eu defnyddio. Os yw rhywun yn gwneud i ti deimlo'n anghyfforddus, yn gofyn i ti wneud rhywbeth nad wyt ti eisiau ei wneud, neu'n dy fwlio di ar-lein, dylet ddweud wrth dy fam neu dy dad.
6. Os wyt ti'n poeni am rywbeth rwyd ti wedi'i weld ar-lein neu rywbeth y mae rhywun wedi'i ddweud wrthyd ti ar-lein, fe allai di roi gwybod i'r CEOP (Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein) [www.thinkuknow.net](http://www.thinkuknow.net).

### Cadw'n Ddiogel Ar-lein! Canllaw i Bobl Ifanc

- Dylet ofalu bob amser bod dy riant/gofalwr yn fodlon i ti ddefnyddio ystafell sgwrsio, a chofia ond defnyddio ystafelloedd sgwrsio sy'n cael eu rheoleiddio a'u cynnal gan sefydliadau cyfrifol sy'n monitro gweithgarwch.
- Os wyt ti'n defnyddio ystafell sgwrsio dylet ddefnyddio ffugenw a pheidio â datgelu unrhyw wybodaeth a allai arwain at bobl yn dy adnabod, fel dy enw go iawn, dy oedran, dy gyfeiriad, dy gyfeiriad e-bost, dy rif ffôn, enw dy ysgol neu grŵp eglwys/ieuenctid. Cofia fod ystafelloedd sgwrsio yn 'fannau cyhoeddus' a does wybod pwy sy'n eu defnyddio.
- Dylet gadw dy gyfrineiriau yn gyfrinachol, gan osgoi eu datgelu wrth dy ffrindiau hyd yn oed.
- Paid â datgelu gwybodaeth os wyt ti'n teimlo'n anghyfforddus yn gwneud hynny. Os yw gwefan yn dweud bod yn rhaid i ti lenwi maes gorfodol ac nad wyt ti'n fodlon gwneud hynny, dylet adael y wefan.

- Dylet sgwrsio'n ddiogel - mae'n amhosibl bod yn siŵr bob amser mai dim ond pobl o'r un oed â ti sy'n defnyddio ystafell sgwrsio - mae'n bosibl bod y person arall yn oedolyn sy'n ceisio dy dwyllo. Dylet flocio pobl sy'n gwneud i ti deimlo'n anghyfforddus a pheidio â defnyddio ystafelloedd sgwrsio a gwefannau 'dros 18 oed' a rhannau eraill o'r rhyngwrwyd sydd wedi'u bwriadu ar gyfer oedolion. Mae'r rhybuddion yno i dy amddiffyn di. Mae defnyddio gwefannau ar gyfer oedolion yn gallu gwneud biliau ffôn yn ddrutach o lawer hefyd.
- Dylet adael ystafell sgwrsio yn syth os oes rhywbeth yn peri pryder i ti. Cofia ddweud wrth dy riant/gofalwr/arweinydd ieuencid a rhoi gwybod i ddarparwr y gwasanaeth sgwrsio / darparwr gwasanaethau rhyngwrwyd am unrhyw negeseuon sy'n ddi-chwaeth / yn dangos agwedd wael. Dylet gadw unrhyw sgysiau sy'n gallu profi bod rhywun wedi bod yn dy fwlio di neu'n aflonyddu arnat ti. Os wyt ti'n poeni am rywbeth rwyt ti wedi'i weld ar-lein neu am rywbeth y mae rhywun wedi'i ddweud wrthyt ti ar-lein, fe all di roi gwybod i'r CEOP (Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein) [www.thinkuknow.net](http://www.thinkuknow.net) <<http://www.thinkuknow.net>>.
- Paid ag anfon llun at neb drwy neges destun neu e-bost, a phaid byth ag anfon ffotograffau o natur rywiol ohonot dy hun. Efallai dy fod ti'n ymddiried yn y person rwyt ti wedi anfon ffotograff ato ar hyn o bryd, ond weithiau mae pobl yn defnyddio ffotograffau fel hyn i fwlio eraill pan nad ydyn nhw'n ffrindiau bellach. Paid â meddwl nad yw hyn yn gallu digwydd i ti.
- Dydy'r bobl rwyt ti'n cysylltu â nhw ar-lein ddim yn dweud y gwir amdanyn nhw eu hunain bob amser – does neb yn gallu eu gweld. Paid byth â threfnu cyfarfod â rhywun heb gytuno ar hynny ymlaen llaw gyda dy riant/gofalwr, a chofia ofyn i dy riant/gofalwr gadw cwmni i ti yn y cyfarfod cyntaf, a gofalu eich bod yn cwrdd mewn lle cyhoeddus.
- Dylet fod yn ofalus cyn cymryd rhan mewn cystadlaethau ac ati. Mae'n bosibl y byddi di'n cytuno i dderbyn gwasanaethau nad oes eu hangen arnat ti. Hefyd, paid byth â datgelu manylion dy gerdyn credyd neu fanylion banc heb drafod â dy riant/gofalwr ymlaen llaw. Os wyt ti'n talu am rywbeth ar-lein, dylet ofalu bod symbol diogelwch cerdyn credyd yn ymddangos ar y wefan. Mae'r symbol hwn yn debyg i glo melyn ac mae'n golygu bod dy fanylion yn ddiogel.
- Paid byth ag ymateb i negeseuon e-bost neu negeseuon mewn grwpiau defnyddwyr sy'n gas, yn awgrymog neu'n dramgwyddus, a phaid â 'throlïo' (ysgrifennu negeseuon pryfoclyd i ddigio pobl).

### E-byst

- Os wyt ti'n derbyn e-bost gan rywun nad wyt ti'n ei adnabod, paid ag agor unrhyw ddolen neu atodiad. Mae'n bosibl eu bod yn cynnwys firsau sy'n gallu difrodi neu ddinistrio dy gyfrifiadur, neu dy gysylltu â gwefannau amhriodol neu anghyfreithlon.
- Dylet sicrhau bod meddalwedd diogelu rhag firsau wedi'i gosod ar dy gyfrifiadur.
- Paid byth ag anfon llythyrau cadwyn drwy'r rhyngwrwyd - maen nhw wedi'u gwahardd ar y rhyngwrwyd. Os wyt ti'n derbyn un, dylet roi gwybod i'r Darparwr Gwasanaethau Rhyngwrwyd.
- Mae twyll a sgiamau ar-lein yn gyffredin. Dylet fod yn amheus os wyt ti'n derbyn neges e-bost yn dweud dy fod ti wedi ennill cystadleuaeth neu loteri na wnest ti gymryd rhan ynddyn nhw, neu os wyt ti'n derbyn cynnig sy'n rhy dda i fod yn wir. Mae'n annhebygol o fod yn wir!

## Polisi'r Eglwys ar Ddefnydd Derbyniol o TGCh

Wrth ddefnyddio cyfarpar yr eglwys, mae'n rhaid i chi gydymffurfio â pholisi'r eglwys ar ddefnydd derbyniol o TGCh. Mae hyn yn nodi na allwch chi wneud y canlynol:

- Chwilio am a/neu ddefnyddio gwefannau pornograffig, hiliol neu rai sy'n hyrwyddo casineb;
- Defnyddio TGCh sydd wedi'i darparu gan yr eglwys i storio, arddangos a/neu drosglwyddo deunydd pornograffig, rhywiaethol, hiliol, homoffobaidd neu dreisgar;
- Anfon e-byst neu roi negeseuon neu luniau ar unrhyw wefan cyfryngau cymdeithasol, neu ddefnyddio TGCh mewn unrhyw ffordd arall, i fygwth, bwlio neu gam-drin unrhyw unigolyn neu grŵp;
- Lawrlwytho, anfon ymlaen a/neu losgi i unrhyw CD/DVD unrhyw gerddoriaeth, delweddau neu ffilmiau oddi ar y rhyngwyd heb ganiatâd y sawl sydd â'r hawlfraint;
- Datgelu unrhyw wybodaeth bersonol am eraill heb eu cydsyniad e.e. cyfeiriadau (personol, e-bost neu negeseua), ffotograffau, rhifau ffôn neu fanylion banc.

## Atodiad 3

### Corau a chorau eglwys sy'n cynnwys pobl ifanc

#### Cod ymarfer ar gyfer staff a gwirfoddolwyr

#### Cyflwyniad

Dylai staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio ac yn cymdeithasu â phlant yng nghyd-destun côr cadeirlan neu gorau eglwysig eraill fod yn ymwybodol bod diogelu yn hollbwysig i'r gadeirlan ac i'r esgobaeth. Cyhoeddir y cod ymarfer hwn i sicrhau bod arferion gorau yn cael eu dilyn a bod camddealltwriaeth yn cael ei osgoi. Er budd pob plentyn ac oedolyn, ac er budd y gadeirlan ei hun, mae'n bwysig bod staff a gwirfoddolwyr yn dilyn y cod ymarfer hwn er mwyn osgoi rhoi eu hunain, eu cydweithwyr neu aelodau o gorau mewn perygl.

Mae'r cod ymarfer hwn yn ceisio cyflwyno canllawiau ar sut y dylai pob oedolyn ryngweithio â phlant mewn adran gerdd er mwyn cynnal perthynas iach a diamwys ac osgoi sefyllfaoedd a allai gael eu camddehongli neu eu camddefnyddio. At ddibenion y ddogfen hon, mae plentyn (y cyfeirir ato fel 'aelod o'r côr' weithiau) yn unrhyw un o oedran ysgol, hyd yn oed os yw dros 18 oed, sy'n aelod o gôr y gadeirlan neu gôr eglwysig arall neu gonsort, neu sy'n bresennol mewn neu yng nghyffiniau cadeirlan, neu mewn adran gerdd yn rhywle arall.

Mae cynnwys y ddogfen hon yn berthnasol i holl staff a gwirfoddolwyr y gadeirlan sy'n dod i gysylltiad â phlant mewn côr, gan gynnwys organyddion, clerigion, gwarchodwyr y côr, rhieni sy'n cynorthwyo, clercod lleyg ac aelodau o'r consort sy'n oedolion, p'un ai a oes ganddynt gyfrifoldeb uniongyrchol dros aelodau'r côr ai peidio.

Mae'n bosibl y bydd rhai o'r oedolion sy'n ymwneud â'r corau yn rhieni i aelodau'r côr hefyd. Mewn sefyllfa o'r fath, mae'n dderbyniol i'r oedolion hynny gymdeithasu ag aelodau'r côr sy'n ffrindiau i'w plentyn yn y ffordd arferol y tu allan i'r côr. Nid oes angen atal aelodau eraill o'r côr rhag dod i chwarae gyda'u plentyn, neu osgoi rhoi lifft i aelodau eraill o'r côr gyda'u plentyn eu hunain ac ati. Mae'n rhaid defnyddio synnwyr cyffredin. Fodd bynnag, gall fod yn syniad da dweud wrth rieni aelodau eraill o'r côr bod unrhyw drefniadau sy'n cael eu gwneud yn drefniadau preifat rhwng rhieni ac nad ydynt yn gysylltiedig â swydd y rhiant yn y gadeirlan.

#### Personél

Dyma'r oedolion sy'n cael cyswllt rheolaidd â phlant mewn corau:

- y cyfarwyddwr cerdd
- yr organydd cynorthwyol
- clerigion y gadeirlan
- gwarchodwyr y côr
- y clercod lleyg
- oedolion sy'n canu mewn consort cadeirlan neu mewn côr eglwysig arall

Dylai pob oedolyn sicrhau bod ei berthynas â'r plant yn y côr yn adlewyrchu oedran, rhyw ac aeddfedrwydd y plant perthnasol. Yn benodol, mae'n bwysig sicrhau nad yw unrhyw agwedd ar ymarweddiad, iaith ac agwedd, sut bynnag y cânt eu mynegi, yn arwain at gamddealltwriaeth, yn enwedig wrth ymdrin â llanciau a llancesau neu fechgyn a merched hŷn.

## Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

Y cyfarwyddwr cerdd a'r organydd cynorthwyol sy'n bennaf gyfrifol am les aelodau'r côr. Fe'u cyflogir gan y cabidwl ac mae ganddynt ddyletswydd i ofalu am aelodau'r côr. Pan fydd aelodau'r côr yn bresennol yn y gadeirlan, mae o leiaf un organydd/cyfarwyddwr yn bresennol ac yn bennaf gyfrifol am aelodau'r côr, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys materion cerddorol a bugeiliol.

Mae tîm o warchodwyr gwirfoddol yn helpu i ofalu am aelodau'r côr. Maent yn gyfrifol am faterion bugeiliol yn ystod eu cyfnodau o ddyletswydd, gan ymdrin â materion fel bwyd a diod aelodau'r côr, salwch, y gofrestr bresenoldeb, camymddwyn, a materion emosiynol. Maent yn gyfrifol i'r cyfarwyddwr cerdd, a dylent hysbysu'r organydd/cyfarwyddwr cyfrifol am unrhyw broblemau arwyddocaol sy'n codi yn ystod eu ddyletswyddau. Wedyn, dylai'r organydd/cyfarwyddwr cyfrifol hysbysu'r cyfarwyddwr cerdd mor fuan ag sy'n ymarferol bosibl.

Bydd nifer o glercod lleyg sy'n oedolion yn aelodau o gôr cadeirlan, a bydd y consort yn cynnwys oedolion sy'n canu. Nid oes gan y cantorion hyn unrhyw gyfrifoldebau disgyblu neu fugeiliol uniongyrchol dros aelodau'r côr oni bai bod y cyfrifoldebau hyn wedi'u dirprwyo iddynt gan yr organydd/cyfarwyddwr ar ddyletswydd am gyfnod penodol. Fodd bynnag, byddant yn rhyngweithio ag aelodau'r côr ac yn sgwrsio am arferion a gwasanaethau. Mewn sefyllfaoedd lle nad yw'r organydd/cyfarwyddwr neu warchodwyr ar gael, dylent fynd i'r afael ag unrhyw broblemau sy'n effeithio ar aelodau'r côr, gan sicrhau eu bod yn hysbysu'r organydd/cyfarwyddwr ar ddyletswydd am eu camau gweithredu mor fuan ag sy'n ymarferol bosibl. Er nad oes ganddynt unrhyw gyfrifoldeb am ddisgyblu aelodau'r côr, gall cyfarwyddyd neu gerydd achlysurol fod yn briodol (e.e. gofyn i aelod o'r côr fod yn ddistaw neu roi'r gorau i ymddygiad gwrthgymdeithasol neu beryglus). Drwy wneud hyn, gallant atgyfnerthu cyfarwyddiadau a disgywliadau cyfarwyddwr a gwarchodwyr y côr. Mae'n rhaid i unrhyw gerydd o'r fath fod yn hynaws ac yn achlysurol, ac ni ddylid ceryddu'r un aelod o'r côr yn gyson. Os credir bod angen rhoi camau gweithredu pellach ar waith, dylid hysbysu'r hebryngwr neu gyfarwyddwr y côr, a fydd yn mynd i'r afael â'r mater mewn ffordd briodol (gan gynnwys anwybyddu'r ymddygiad am y tro weithiau). Anaml iawn y bydd rhieni yn cael eu hysbysu am ymddygiad gwael eu plant, a bydd personél y côr yn mynd i'r afael â'r mater fel arfer. Yr unig berson sydd â'r awdurdod i hysbysu rhieni am ymddygiad gwael yw cyfarwyddwr y côr (naill ai'r cyfarwyddwr cerdd neu'r organydd cynorthwyol).

## Cysylltiad Corfforol

Dylai pob oedolyn osgoi cysylltiad corfforol ag aelodau'r côr, ac eithrio yn yr amgylchiadau canlynol:

- Atal plentyn er mwyn sicrhau nad yw'n niweidio neu'n anafu ei hun neu bobl eraill, neu nad yw'n difrodi eiddo. Rhaid defnyddio grym rhesymol yn unig i wneud hyn.
- Cysuro plentyn sydd mewn trallod. Dylid sicrhau bod oedolion eraill yn gwybod am hyn a bod unrhyw gysuro yn digwydd yng ngŵydd oedolion eraill os oes modd.
- Rhoi Cymorth Cyntaf.
- Rhannu'r heddwch yn y Cymun Bendigaid drwy ysgwyd llaw.

Ni ddylai cysylltiad corfforol ddigwydd yn aml, para'n hir neu gael ei ailadrodd yn rheolaidd, a rhaid iddo fod yn briodol. Dylai oedolion ystyried oedran y plentyn dan sylw ac osgoi unrhyw gysylltiad a allai gael ei gamddechongli. Os oes unrhyw gysylltiad corfforol anarferol rhwng oedolyn a phlentyn, hyd yn oed yn ddamweiniol, mae'n bwysig bod yr oedolyn yn hysbysu'r cyfarwyddwr cerdd am y digwyddiad mor fuan ag sy'n ymarferol posibl, hyd yn oed os yw'r digwyddiad yn achosi embaras neu'n ymddangos yn ddibwys.

## Sgwrs ac Ymarweddiad

Pan fo plant yn bresennol, dylai oedolion osgoi gwneud unrhyw sylwadau a allai gael eu dehongli fel sylwadau o natur rywiol neu ddwys: ac ni ddylai oedolion annog eraill i drafod pynciau fel hyn. Ceir ambell eithriad posibl i'r rheol hon. Mewn sefyllfa lle mae trallod plentyn yn cael ei achosi gan bryderon corfforol neu emosiynol sydd angen eu cydnabod er mwyn cynorthwyo'r plentyn ar y pryd, mae'n bosibl y bydd angen i hebryngwr (neu organydd/cyfarwyddwr mewn amgylchiadau eithriadol) wrando ar blentyn yn egluro problem bersonol, ac ymateb yn briodol iddo. Ni ddylent addo cadw pethau'n gyfrinachol mewn amgylchiadau fel hyn, a rhaid iddynt hysbysu'r cyfarwyddwr cerdd, cydgysylltydd diogelu'r gadeirlan a'r Swyddog Diogelu Taleithiol am y digwyddiad cyn gynted â phosibl.

Dylai oedolion sicrhau nad ydynt yn trafod unrhyw beth amhriodol â phlant, gan ystyried oedran y plentyn. Dylent ddefnyddio eu crebwyll proffesiynol i sicrhau nad ydynt yn trafod unrhyw beth sy'n amhriodol i'w dyletswyddau neu eu perthynas â'r plentyn perthnasol.

Mae gwneud sylwadau ansensitif neu sylwadau sy'n gwawdio neu'n bychanu pobl ifanc yn gyson ac mewn ffordd gas yn enghraifft o gam-drin, a rhaid osgoi gwneud hyn.

## Rôl Fugeiliol Hebryngwyr

Mae'n bosibl mai'r hebryngwr fydd y person cyntaf y mae plentyn yn ymddiried ynddo, yn enwedig os yw'n wynebu problemau yn y cartref. Mae'n bosibl y bydd angen cydweithio mwy ag ysgol y plentyn mewn sefyllfa fel hon. Ar ôl i'r hebryngwr gasglu gwybodaeth am sefyllfa'r plentyn yn y cartref, mewn rhai amgylchiadau dylai'r gadeirlan gydweithio ag ysgol y plentyn, sydd efallai'n gwybod am ofal neu ddiffyg hapusrwydd y plentyn. Mae enghreifftiau posibl yn cynnwys sefyllfa lle nad yw rhiant yn dod i gasglu plentyn, sefyllfa lle mai plentyn yw prif ofalwr rhiant, neu sefyllfa lle mae plentyn yn gorfod gwneud gwaith domestig yn y cartref sy'n effeithio ar ei lesiant. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae angen gofal bugeiliol a chydweithio ag asiantaethau eraill, yn enwedig ysgol y plentyn. Dylai'r hebryngwr ofyn am gyngor gan y Swyddog Diogelu Taleithiol os oes ganddo/ganddi unrhyw amheuan.

## Obsesiynau a Ffoli ar Rywun

Dylai oedolion fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o lanciau, llancesau a phlant hŷn yn datblygu obsesiynau ac yn ffoli ar rywun. Dylai oedolion roi gwybod i gydweithiwr os ydynt yn sylwi ar aelod o'r côr yn datblygu obsesiwn a allai roi'r cydweithiwr mewn perygl. Dylai oedolion ymddwyn yn broffesiynol bob amser a pheidio ag ychwanegu at broblemau'r plentyn drwy wneud hwyl am ei ben neu bryfocio unrhyw sefyllfa o'r fath. Os ydynt yn poeni am sefyllfa benodol sy'n datblygu, dylent siarad â'r cyfarwyddwr cerdd. Os yw aelod o'r côr yn ymddwyn mewn ffordd annerbyniol yn gorfforol neu ar lafar, dylai'r oedolyn perthnasol ymbellhau mewn ffordd dyner ond pendant, gan egluro nad yw agosatrwydd o'r fath yn briodol nac yn dderbyniol. Fodd bynnag, mae'n bwysig peidio ag ymateb mewn ffordd sy'n bychanu'r plentyn.

Os yw aelod o'r côr yn tueddu i aros yn hwyr gydag oedolyn yn rheolaidd er mwyn cynnig helpu neu drafod materion, dylai'r oedolyn perthnasol fynd ati i atal y sefyllfa, naill ai drwy ofyn i aelod arall o'r côr helpu gyda'r un dasg, gwahodd oedolyn neu aelod arall o'r côr i'r ystafell, neu sicrhau nad oes modd i'r un peth ddigwydd eto.

## **Cyngherddau, teithiau, ymweliadau a gweithgareddau eraill oddi ar y safle**

Pan fydd gweithgareddau'r côr yn digwydd y tu allan i'r gadeirlan, dylai oedolion gydymffurfio â'r un safonau ymddygiad, hyd yn oed mewn sefyllfa lle nad ydynt 'ar ddyletswydd' ond bod aelodau o'r côr yn bresennol. Dylai oedolion ystyried pa fath o argraff y mae eu hymddygiad a'u sgwrs yn ei chreu ar aelodau'r côr, gan gofio y gallant fod yn esiamplau i rai aelodau.

Dylai oedolion fod yn ofalus i ragweld problemau a all godi mewn lleoliadau anghyfarwydd. Ni fydd plant yn gweld eu rhieni yn aml yn ystod taith, a gall rhai ohonynt deimlo hiraeth, yn enwedig felly plant iau. Er ei bod yn briodol i oedolion roi sicrwydd i blant yn y cyd-destun hwn, ni ddylent adael i berthynas amhriodol ddatblygu ar sail anghenion neu anawsterau plentyn. Os yw oedolyn yn synhwyro perygl yn y cyswllt hwn, mae'n bwysig iddo gynnwys oedolion priodol eraill yn y sefyllfa, fel nad yw'r plentyn dan sylw yn dibynnu ar un oedolyn.

## **Digwyddiadau cymdeithasol**

Bydd calendr pob adran gerdd yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau cymdeithasol. Dylai oedolion fod yn ymwybodol bod y berthynas lai ffurfiol sy'n briodol weithiau yn y cyd-destun hwn yn gallu cael ei chamddehongli gan bobl ifanc. Mae'n bwysig pwysleisio bod angen yr un safonau ymddygiad pan fydd aelodau'r côr yn bresennol mewn digwyddiadau cymdeithasol â'r hyn a geir yn ystod digwyddiadau'r côr. Dylai oedolion gofio bod angen ymddwyn yn ofalus iawn yng ngŵydd aelodau mwy aeddfed o'r côr yn y sefyllfaoedd hyn.

## **Cyfarfodydd rhwng oedolion a phlant y tu allan i weithgareddau'r côr**

Gall rhai pobl gredu mai dim ond rhyngweithio rhwng aelodau o'r côr ac oedolion yn ystod gweithgareddau'r côr a ddylai fod o ddiddordeb i'r gadeirlan. Fodd bynnag, pe bai sefyllfa'n datblygu y tu allan i ffiniau gweithgareddau'r côr yn ymwneud â phlentyn ac oedolyn sy'n perthyn i'r côr, byddai'n cael effaith amlwg ar y gadeirlan.

Fel arfer, mae'n amhriodol i oedolyn drefnu neu gytuno i gyfarfod ag aelod o'r côr, neu ymestyn cyfarfyddiad ar hap ag aelod o'r côr, y tu allan i amgylchedd y côr. Os yw oedolion yn rhagweld y bydd sefyllfa o'r fath yn datblygu, dylent ei thrafod â'r cyfarwyddwr cerdd. Ychydig iawn o eithriadau sydd i'r rheol hon, ond un eithriad posibl yw sefyllfa lle mae gan oedolyn drefniant preifat â rhiant i roi gwersi offerynnol neu wersi theori cerdd i'w blentyn. Hefyd, mae'n bosibl y bydd angen i oedolyn ymgysylltu'n broffesiynol â phlentyn mewn cyd-destun gwahanol (e.e. fel aelod o staff mewn ysgol).

Mae'n briodol i aelodau o staff gyfarfod â phlant yng ngŵydd eu rhieni y tu allan i weithgareddau'r côr. Fodd bynnag, dylid annog rhieni i wneud eu plentyn yn ymwybodol o'r berthynas briodol â'r oedolyn perthnasol yn ystod gweithgareddau'r côr a gweithgareddau eraill er mwyn osgoi unrhyw ddryswch posibl.

## **Cyfathrebu ag aelodau o'r côr y tu allan i weithgareddau'r côr**

Ar ôl cael caniatâd rhieni, gellir cynnwys cyfeiriadau e-bost aelodau hyn o'r côr yng nghronfa ddata'r côr, fel eu bod yn derbyn yr un negeseuon e-bost â'u rhieni ynglŷn â gweithgareddau'r côr. Dim ond y cyfarwyddwr cerdd sy'n cadw'r cyfeiriadau e-bost hyn, ac ni fydd yn eu defnyddio i gyfathrebu ag unrhyw aelod unigol o'r côr.



Ni ddylai staff, gwirfoddolwyr neu ymwelwyr gyfathrebu'n uniongyrchol ag aelodau unigol o'r côr y tu allan i weithgareddau'r côr. Mae pob dull cyfathrebu yn amhriodol, gan gynnwys ffonio, anfon negeseuon testun, anfon negeseuon e-bost, ysgrifennu llythyrau, anfon parseli, a dulliau cyfathrebu electronig eraill / dulliau eraill nad ydynt yn electronig. Dim ond yr organydd/cyfarwyddwyr a hebryngwyr y côr ddylai fod â rhifau ffôn symudol aelodau o'r côr os ydynt wedi'u derbyn, ac ni allant eu defnyddio at unrhyw ddiben ac eithrio dibenion swyddogol yn ymwneud â gweithgareddau'r côr. Mae diben swyddogol posibl yn cynnwys cadarnhau lleoliad aelod hŷn o'r côr yn ystod taith os yw ei rieni wedi rhoi caniatâd iddo beidio â chael ei oruchwylio am gyfnod cyfyngedig, neu os oes angen anfon neges frys at aelod o'r côr. Ni ddylid byth ymestyn unrhyw sgwrs ag aelod o'r côr, ac ni ddylai aelod o staff gysylltu â'r un aelod o'r côr yn rheolaidd.

Os oes angen cysylltu â rhywun ynglŷn â rhywbeth nad yw'n fater brys, y peth gorau i'w wneud bob tro yw cysylltu â rhieni'r plentyn (neu rieni'r tŷ yn achos lletywyr) a gofyn am gael siarad â'r aelod perthnasol o'r côr. Ni ddylid cysylltu'n rheolaidd yn y modd hwn ag unrhyw aelod penodol o'r côr. Mae gan rieni'r hawl i beidio â rhoi caniatâd i oedolyn siarad â'u plentyn y tu allan i weithgareddau'r côr, ac i weithredu fel canolwr os oes angen trosglwyddo neges.

Os oes angen i oedolyn gysylltu ag aelod penodol o'r côr fel y nodwyd uchod, dylai ddefnyddio rhif ffôn y cartref neu rif ffôn symudol y rhieni yn hytrach na rhif ffôn symudol yr aelod o'r côr. Os yw'r aelod o'r côr ac nid ei riant yn digwydd ateb ffôn y cartref, dylai'r aelod o staff neu'r gwirfoddolwr ddefnyddio ei ddisgresiwn i benderfynu a yw'n briodol siarad yn uniongyrchol â'r aelod o'r côr, neu a ddylai ofyn am gael siarad â'i rieni yn gyntaf. O safbwynt aelodau iau o'r côr, mae'n debygol o fod yn fwy priodol i siarad â'u rhieni yn gyntaf. Dylai pob sgwrs fod yn gryno.

Dylai oedolion osgoi rhoi eu manylion cyswllt i unrhyw aelod o'r côr, ac ni ddylent dderbyn ceisiadau gan aelodau o'r côr i fod yn ffrindiau ar Facebook. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd aelod o'r côr yn canfod manylion cyswllt oedolyn ac yn mynd ati i gysylltu ag ef drwy anfon neges destun, e-bost neu drwy ei ffonio. Os yw'r neges yn un syml ac yn ymwneud â gweithgareddau'r côr, mae'n briodol ateb y cwestiwn yn gryno. Ond os yw nifer y negeseuon hyn yn cynyddu neu os yw'r neges yn cyfeirio at faterion nad oes ganddynt gysylltiad uniongyrchol â'r côr, pa mor ddiniwed bynnag ydynt, byddai'n ddoeth hysbysu'r cyfarwyddwr cerdd.

## Atodiad 4

### Deddfwriaeth diogelu a fframweithiau statudol eraill

#### Deddfwriaeth diogelu

- Deddf Plant 1989
- Deddf Plant 2004
- Deddf Diogelu Data 1998
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000
- Deddf Troseddau Rhyw 2003
- Deddf Troseddau Rhyw 2009
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006
- Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (Gweithgarwch Rheoledig) (Cymru) 2010
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

#### Fframweithiau statudol a chanllawiau polisi eraill

- Cod Ymarfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008
- Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 – 2007
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant 2013
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant 2015
- Diogelu a Hyrwyddo Lles Plant a Phobl Ifanc sydd mewn perygl o gael eu Cam-drin drwy Gamfanteisio Rhywiol - 2013
- Diogelu Plant sydd wedi'u Masnachu o bosibl – 2008
- Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod – Protocol Cymru Gyfan – 2011
- Cyfarwyddyd Ymarfer Cymru Gyfan: Diogelu Plant a Phobl Ifanc sy'n cael eu heffeithio gan Gam-drin Domestig – 2011
- Diogelu Plant y mae Salwch yn cael ei Achosu neu ei Ffugio gan Ofalwyr – Protocol Cymru Gyfan - 2007
- Diogelu a Hyrwyddo Lles Plant a Phobl Ifanc Digwmni sy'n Ceisio Lloches – 2011
- Rheoli Pobl Ifanc sy'n cymryd rhan mewn Ymddygiad Rhywiol Niweidiol – Protocol Cymru Gyfan – 2011
- Protocol Cymru Gyfan – Plant sydd Ar Goll – 2012

- Siart Llif Cymru Gyfan ar gyfer Ymarferwyr sy'n ymdrin â datgeliad neu bryder ynghylch Priodas dan Orfod. (Grŵp adolygu AWCPP mis Mawrth 2014)
- Y Swyddfa Gartref, 1993: Safe from harm: a code of practice for safeguarding the welfare of children in voluntary organisations in England and Wales
- Polisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Hawdd eu Niweidio rhag cael eu Cam-drin (Ionawr 2013)
- Canllaw Llywodraeth Cymru: Mewn Dwylo Diogel 2000

## Atodiad 5

### GEIRFA

#### Diffiniadau a Thermau Allweddol

##### Oedolyn sy'n wynebu risg

Mae'r diffiniad canlynol yn dod o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

- (1) Mae "oedolyn sy'n wynebu risg", at ddibenion y Rhan hon, yn oedolyn sydd -
- yn cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso,
  - y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio), ac
  - nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso.

##### Plentyn

Mae plentyn yn unrhyw unigolyn nad yw wedi cyrraedd 18 oed eto. Nid yw'r ffaith fod plentyn yn un ar bymtheg oed, yn byw'n annibynnol neu mewn addysg bellach, neu'n aelod o'r lluoedd arfog, neu yn yr ysbyty, neu mewn carchar neu sefydliad i droseddwyr ifanc, yn newid ei statws na'i hawl i wasanaethau neu ei hawl i gael ei amddiffyn o dan ddeddfwriaeth.

##### Cam-drin ac esgeuluso plant

Mae cam-drin ac esgeuluso plant yn enghreifftiau o gamarfer. Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn drwy ei niweidio neu drwy fethu gweithredu i atal niwed. Gall plant gael eu cam-drin mewn lleoliad teuluol, sefydliadol neu gymunedol (gan gynnwys yr eglwys), gan bobl sy'n hysbys iddynt, neu mewn achosion prinnach, gan rywun dieithr. Gallant gael eu cam-drin gan oedolyn arall neu oedolion eraill, neu gan blentyn arall neu blant eraill<sup>1</sup>.

##### Plentyn sy'n wynebu risg

Mae'r diffiniad canlynol yn dod o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

Mae "plentyn sy'n wynebu risg" yn blentyn sydd -

- yn cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin, ei esgeuluso, neu ei niweidio mewn modd arall, ac
- y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio).

##### Camfanteisio'n rhywiol ar blentyn

Plentyn hŷn neu oedolyn yn defnyddio plentyn at ddibenion rhywiol. Mae cam-fanteisio posibl yn cynnwys llwgrwobrwyo, gwobrwyo, bygwth, gorfodi neu unrhyw ddull arall o gymell plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Yn aml, mae'r rhyngryd a mathau eraill o dechnoleg y cyfryngau yn cael eu defnyddio mewn achosion cam-drin o'r fath. Mae trais, gorfodi a dychryn yn gyffredin. Mae enghreifftiau o gam-drin plant yn rhywiol yn cynnwys gofyn neu bwyso ar blentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol (beth bynnag yw'r canlyniad), dinoethiad anweddus i blentyn er mwyn bodloni chwantau rhywiol, neu ddychryn y plentyn neu feithrin perthynas amhriodol ag ef ar-lein, cyswllt rhywiol

<sup>1</sup> Mae nifer sylweddol o droseddwyr rhyw yn blant o dan oed eu hunain. Rhaid cofio mai plant yw'r unigolion hyn a bod angen ystyried eu hanghenion, er mae'n bosibl y bydd angen gweithredu i amddiffyn plant eraill. Mae'n rhaid atgyfeirio pob achos i wasanaeth gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol.

corfforol â phlentyn, neu ddefnyddio plentyn i greu delweddu camdriniol. Er gwaethaf ymddygiad heriol posibl plant sydd wedi cael eu cam-drin, mae'n rhaid cofio eu bod wedi dioddef cam-drin rhywiol, ac nad troseddwyr mohonynt.

### **Masnachu mewn plant**

Y diffiniad o fasnachu mewn plant yw "recriwtio, cludo, trosglwyddo, llochesu a/neu dderbyn" plentyn er mwyn cam-fanteisio arno. Mae'n gallu cynnwys dod â phlant i mewn i'r wlad, weithiau heb drefniadau mewnfudo priodol, at ddibenion anghyfreithlon amrywiol, gan gynnwys gwasanaeth domestig, mabwysiadu anghyfreithlon, casglu organau, hawlio budd-daliadau neu buteindra. Mae'n bosibl na fydd plant sydd wedi'u masnachu o wlad dramor yn gallu siarad llawer o Saesneg, os o gwbl. Hefyd, mae plant yn gallu cael eu masnachu yn y DU. Mae unrhyw blentyn sy'n cael ei gymryd o un wlad i wlad arall, neu o un lle i le arall, gan grŵp troseddol cyfundrefnol er mwyn cam-fanteisio arno yn cael ei ystyried yn blentyn sy'n cael ei fasnachu. Dylid cysylltu â'r heddlu neu â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol ar unwaith os yw aelod o'r eglwys yn canfod plentyn o'r fath, neu os yw'n gwybod neu'n amau bod y gweithgarwch hwn yn digwydd.

### **Caethwasiaeth fodern a masnachu pobl**

Ystyr masnachu yw recriwtio, cludo, trosglwyddo, llochesu a/neu dderbyn person er mwyn cam-fanteisio arno. Mae'n gallu cynnwys dod â pherson i mewn i'r wlad, weithiau heb drefniadau mewnfudo priodol, at ddibenion anghyfreithlon amrywiol, gan gynnwys gwasanaeth domestig, mabwysiadu anghyfreithlon, casglu organau, hawlio budd-daliadau neu buteindra. Mae masnachu pobl yn gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern lle mae pobl sydd wedi'u masnachu yn cael eu cadw yn erbyn eu hewyllys a'u gorfodi i weithio. Dylid cysylltu â'r heddlu neu â gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion yr awdurdod lleol ar unwaith os yw aelod o'r eglwys yn canfod plentyn o'r fath, neu os yw'n gwybod neu'n amau bod y gweithgarwch hwn yn digwydd.

### **Gofal cymdeithasol i blant**

Adran yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gwaith cymdeithasol, gofal personol, amddiffyn neu gymorth cymdeithasol ar gyfer plant a'u teuluoedd gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

### **Cam-drin cymhleth wedi'i drefnu, neu gam-drin lluosog**

Mae ystyr "cymhleth" yn dibynnu, i ryw raddau, ar amgylchiadau'r achos, ond mae'n gallu cynnwys sefyllfaoedd sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Camdrinwyr lluosog
- Plant lluosog
- Camdriniaeth sefydliadol e.e. camdriniaeth systematig mewn ysgol breswyl neu gartref gofal preswyl
- Cam-drin wedi'i drefnu e.e. cam-drin plant er mwyn greu delweddu o gam-drin plant i'w dosbarthu i rwydwaith o bobl sy'n cam-drin plant yn rhywiol
- Puteinio/masnachu plant
- Achosion hynod sensitif e.e. yn ymwneud ag unigolyn adnabyddus sy'n debygol o ddenu cyhoeddusrwydd

**Cam-drin/trais** Defnyddir y term hwn i ddisgrifio camdriniaeth gorfforol, rhywiol neu

<b>domestig</b>	emosiynol (gan gynnwys geiriol ac ariannol) rhwng oedolion sy'n bartneriaid, yn aelodau'r teulu neu'r rhai sy'n rhoi gofal ar hyn o bryd neu yn y gorffennol, beth bynnag yw eu rhywedd neu eu rhywioldeb. Yn ogystal ag effeithio ar y dioddefwr, gall camdriniaeth o'r fath effeithio ar aelodau eraill o'r teulu, gan gynnwys plentyn neu oedolyn mewn perygl o bosibl. Mae Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 wedi ymestyn diffiniad cyfreithiol niwed i gynnwys niwed sy'n deillio o weld neu glywed pobl eraill yn cael eu cam-drin, yn enwedig yn y cartref.
<b>Salwch ffug neu salwch gwneud</b>	Gall rhieni a gofalwyr gymell symptomau mewn plentyn, neu gymryd arnynt eu bod wedi gweld symptomau, gan arwain at ymchwiliadau neu driniaeth ddiangen.
<b>Cam-drin emosiynol</b>	Cam-drin plentyn yn emosiynol yn gyson nes cael effaith niweidiol ddifrifol a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Mae'n gallu cynnwys cyfleu wrth blant eu bod yn ddiwerth neu nad oes neb yn eu caru, eu bod yn annigonol neu eu bod yn cael eu gwerthfawrogi i'r graddau eu bod yn diwallu anghenion person arall yn unig. Mae'n gallu cynnwys peidio â rhoi cyfleoedd i'r plentyn fynegi ei safbwyntiau, ei dawelu yn fwriadol neu 'wneud hwyl' ar ben yr hyn y mae'n ei ddweud neu sut y mae'n cyfathrebu. Mae'n gallu cynnwys gorfodi disgwyliadau ar blant sy'n amhriodol i'w hoedran neu eu datblygiad. Gall y disgwyliadau hyn gynnwys mathau o ryngweithio sydd y tu hwnt i allu datblygiadol y plentyn, yn ogystal â'i amddiffyn gormod a chyfyngu ar ei brofiadau archwilio a dysgu, neu atal y plentyn rhag cymryd rhan mewn rhyngweithio cymdeithasol arferol. Mae'n gallu cynnwys gweld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin. Mae'n gallu cynnwys bwlio difrifol (gan gynnwys seiberfwlio), peri i blant deimlo ofn neu deimlo eu bod mewn perygl yn aml, neu gam-fanteisio ar blant neu eu llygru. Mae rhyw lefel o gam-drin emosiynol yn rhan o bob math o gam-drin plentyn, ond mae'n gallu digwydd ar ei ben ei hun.
<b>Anffurfio organau cenhedlu benywod</b>	Y termau eraill am hyn yw torri organau cenhedlu benywod ac enwaedu benywod. Mae'n ymwneud â thynnu defodol rhai o organau cenhedlu allanol benywod neu'r holl organau. Mae'n cael ei ymarfer gan rai grwpiau ethnig ac mae'n drosedd. Os oes unrhyw amheuan bod hyn yn mynd i ddigwydd neu ei fod wedi digwydd, dylid cysylltu â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol neu'r heddlu.
<b>Priodas dan orfod</b>	Mae priodas dan orfod yn wahanol i briodas drwy drefniant. Er bod y naill briodas a'r llall 'wedi ei threfnu' gan rieni neu berthynas arall fel arfer, mewn priodas dan orfod mae'n bosibl y bydd y plentyn/person ifanc o dan oed ac yn methu cydsynio, neu nad yw am gydsynio. Ni ddylai gwybodaeth am briodas dan orfod sydd wedi digwydd neu a allai ddigwydd gael ei thrin fel mater i'r teulu, ac ni ddylai unrhyw wybodaeth gael ei thrafod ag aelodau'r teulu neu gael ei datgelu iddynt. Dylid cysylltu â'r awdurdod lleol neu'r heddlu.
<b>Niwed</b>	Cam-drin neu amharu ar iechyd neu ddatblygiad, gan gynnwys, er enghraifft, amharu ar iechyd neu ddatblygiad o ganlyniad i weld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin.

**Cam-drin sy'n gysylltiedig â'r rhyngrwyd**

Gall oedolion ddefnyddio ystafelloedd sgwrsio, gwefannau rhwydweithio cymdeithasol, gwasanaethau negeseua, camerâu digidol, ffonau symudol a'r rhyngrwyd yn gyffredinol i feithrin perthynas amhriodol ar-lein â phlant, a'u cam-drin. Yn benodol, mae plant yn agored i gael eu cam-drin gan oedolion sy'n honni eu bod yn blant o'r un oedran ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol ac sy'n ceisio cael lluniau neu drefnu cyfarfodydd. Hefyd, gall plant gamddefnyddio'r cyfleusterau hyn eu hunain, weithiau'n anfwriadol ac weithiau â bwriad maleisus.

**Esgeuluso**

Methiant cyson i ddiwallu anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn, sy'n debygol o amharu ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn mewn ffordd ddifrifol. Gall esgeuluso ddigwydd yn ystod beichiogrwydd o ganlyniad i'r fam yn camddefnyddio sylweddau. Ar ôl i blentyn gael ei eni, neu ar unrhyw oedran, gall esgeulustod gynnwys methiant rhiant neu ofalwr i wneud y canlynol:

- Darparu bwyd, dillad a lloches digonol (gan gynnwys gwahardd plentyn o'r cartref neu gefnu arno);
- Amddiffyn plentyn yn erbyn niwed neu berygl corfforol ac emosiynol;
- Sicrhau goruchwyliaeth ddigonol (gan gynnwys defnyddio gofalywr annigonol); neu
- Sicrhau mynediad i ofal neu driniaeth feddygol briodol.

Hefyd, mae'n gallu cynnwys esgeuluso anghenion emosiynol sylfaenol plentyn, neu fethu ymateb i'r anghenion hynny.

**Cam-drin corfforol**

Taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi neu fygu plentyn, neu achosi niwed corfforol o fath arall iddo. Hefyd, mae niwed corfforol yn gallu deillio o riant neu ofalwr yn ffugio neu'n cymell salwch mewn plentyn y maent yn gofalu amdano.

**Cam-drin defodol**

Mae hyn yn cynnwys unrhyw fath o gam-drin plant neu oedolion (gan gynnwys cam-drin corfforol, rhywiol a seicolegol) sy'n ymwneud â defodau. Nid yw cam-drin defodol yn golygu defodau satanaidd o reidrwydd, ond mae'n gallu cynnwys addoliad satanaidd. Anaml iawn y mae cam-drin defodol yn ymwneud ag un digwyddiad, a fel arfer mae'n cynnwys cam-drin rheolaidd dros amser hir. Mae'n gallu cynnwys cam-drin corfforol a rhywiol difrifol a milain, defnyddio defodau/cyflyru gan gynnwys dulliau rheoli'r meddwl a chyffuriau sy'n newid cyflwr y meddwl, a defodau/bygythiadau i reoli'r dioddefwr. Yn ystod ac ar ôl y gamdriniaeth, mae'r rhan fwyaf o ddioddefwyr yn cael eu dychryn, eu rheoli'n feddyliol gan rywun arall a'u datgysylltu, sy'n golygu ei bod yn anodd iawn iddynt ddweud wrth rywun arall.

**Diogelu a hyrwyddo lles plant**

- Atal ac amddiffyn plant yn erbyn camdriniaeth ac esgeulustod;
- Atal pobl rhag amharu ar iechyd a datblygiad plant;
- Sicrhau eu bod yn derbyn gofal diogel ac effeithiol er mwyn cynyddu eu cyfleoedd bywyd.

**Niwed arwyddocaol**

Mae Adran 31(10) o Ddeddf Plant 1989 yn datgan y canlynol: "where the question of whether harm suffered by a child is significant turns on the child's health or development, his health or development shall be compared with that which could reasonably be expected of a similar child".

Y cysyniad hwn yw'r trothwy sy'n sbarduno ymyriad statudol.

### Cam-drin rhywiol

Gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhyw, nad ydynt yn cynnwys lefel uchel o drais o reidrwydd, p'un ai a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithgareddau hyn gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys ymosodiad drwy dreiddiad (er enghraifft, treisio neu ryw drwy'r geg) neu weithredoedd nad ydynt yn ymwneud â threiddiad fel mastyrbio, cusanu, rhwbio a chyffwrdd drwy ddiwad. Hefyd, gallent gynnwys gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â chyffwrdd, fel cynnwys plant wrth edrych ar ddelweddau o natur rhywiol neu eu creu, gwyllo gweithgareddau rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn ffordd sy'n amhriodol yn rhywiol, neu feithrin perthynas amhriodol â phlentyn er mwyn ei gam-drin (gan gynnwys dros y rhyngwyd). Nid dynion yn unig sy'n cam-drin plant neu bobl ifanc yn rhywiol. Mae menywod a phlant eraill yn gallu cyflawni gweithredoedd o gam-drin rhywiol hefyd.

### Hunan-niwed

Mae hunan-niwed bwriadol yn gallu cynnwys cymryd gorddos, toriadau, camddefnyddio cyffuriau neu alcohol. Mae dulliau Byrddau Lleol Diogelu Plant o fynd i'r afael â hunan-niwed bwriadol yn amrywio. Bydd yn briodol trafod achos o'r fath bob amser â'r awdurdod lleol a / neu â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

### Cam-drin ysbrydol

Nid yw'r diffiniadau statudol yn cynnwys cam-drin ysbrydol, ond mae cam-drin ysbrydol yn gallu digwydd oddi mewn i gymunedau ffydd a'r tu allan iddynt, gan gynnwys yr eglwys. Mewn cymunedau ffydd, mae defnydd amhriodol o greddo neu arferion crefyddol yn gallu achosi niwed hefyd. Mae modd camddefnyddio hyn drwy weithredoedd addysgu gormesol neu drwy weinidogaethau gwella ac achubiaeth ymwithiol. Gall unrhyw un o'r rhain arwain at blant yn dioddef niwed corfforol, emosiynol neu rhywiol. Os yw'r cyfryw ymddygiad yn cael ei weld, dylid atygfeirio'r mater drwy gydweithio â'r asiantaethau statudol priodol.

Yn ddiweddar, mae'r cysyniad o gam-drin ysbrydol wedi'i ymestyn (cyf. Y Parchedig Dr Lisa Oakley 2013) i gynnwys y canlynol:

*Spiritual abuse is coercion and control of one individual by another in a spiritual context. The target experiences spiritual abuse as a deeply emotional personal attack. This abuse may include: manipulation and exploitation, enforced accountability, censorship of decision making, requirements for secrecy and silence, pressure to conform, misuse of scripture or the pulpit to control behavior, requirement of obedience to the abuser, the suggestion that the abuser has a "divine" position, isolation from others, especially those external to the abusive context.*



**Ffurflenni a Chanllawiau**

Yn ôl i'r Mynegai

Mae'n rhaid cadw pob ffeil sy'n cael ei chwblhau yn ddiogel yn unol â pholisiau a gweithdrefnau diogelu data a chadw cofnodion.

<b>Canllaw 1:</b>	Egwyddorion diogelu
<b>Ffurflen 2:</b>	Ffurflen ganiatâd gyffredinol
<b>Ffurflen 3:</b>	Ffurflen ganiatâd ar gyfer gweithgareddau penodol
<b>Ffurflen 4:</b>	Ffurflen ganiatâd i wneud a defnyddio delweddau
<b>Ffurflen 5:</b>	Ffurflen ganiatâd i gyfathrebu â phobl ifanc drwy ddulliau electronig
<b>Ffurflen 6:</b>	Ffurflen gais i gymeradwyo gweithgareddau
<b>Ffurflen 7:</b>	Rhoi gwybod am ddigwyddiad, damwain neu ddigwyddiad/damwain fu bron a digwydd
<b>Ffurflen 8:</b>	Cofnod y sesiwn
<b>Ffurflen a Chanllaw 9:</b>	Rhoi gwybod am bryder neu honiad diogelu Nodiadau cyfarwyddyd - rhoi gwybod am bryder neu honiad diogelu
<b>Ffurflen 10:</b>	Cytundeb ar gyfer defnyddio TGCh
<b>Ffurflen 11:</b>	Datganiad ar weithdrefnau diogelu
<b>Ffurflen 12:</b>	Ffurflen gais enghreifftiol
<b>Ffurflen 13:</b>	Cais enghreifftiol am eirida
<b>Ffurflen 14:</b>	Cytundeb enghreifftiol â throeddwr hysbys

## **Canllaw I** **Egwyddorion diogelu**

### **Arferion da ar gyfer diogelu plant ac oedolion yn yr eglwys**

Mae Polisi a Gweithdrefnau Diogelu yr Eglwys yng Nghymru (diwygiwyd mis Mawrth 2016) yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am y pwnc hwn. Mae'r canllaw diogelu hwn wedi'i fwriadu ar gyfer pawb sy'n cefnogi neu'n gwneud gwaith am dâl neu waith gwirfoddol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl. Dylid sicrhau bod gan bawb sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl gopi o'r canllaw hwn.

### **Os oes gennyh chi bryderon ynglŷn â cham-drin posibl (gan gynnwys honiadau)**

- Dylech gysylltu â'r heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol mewn argyfwng.
- Fel arfer, dylech gysylltu â'r Swyddog Diogelu Taleithiol neu Gydgysylltydd Diogelu'r Plwyf.  
<http://cym.eglwysyngnghymru.org.uk/strwythur/corff-y-cynrychiolwyr/adnoddau-dynol/diogelu/>
- Penderfynwch ar y cyd a oes angen gofyn am gyngor neu a ddylid cysylltu â'r heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol ar unwaith. Mae'n rhaid hysbysu'r Swyddog Diogelu Taleithiol hefyd.
- Dylech roi gwybod i offeiriad y plwyf (os nad yw'r pryder neu'r honiad yn ymwneud ag e) a dim ond dweud wrth y bobl sydd angen cael gwybod er mwyn diogelu'r sefyllfa.

### **Mae plentyn, person ifanc neu oedolyn yn dymuno datgelu eu bod wedi cael eu cam-drin**

- Dylech adael i'r unigolyn siarad heb ymyrryd, gan dderbyn beth sy'n cael ei ddweud. Peidiwch â chwestiynu'r unigolyn neu ddechrau ymchwilio.
- Peidiwch ag addo cyfrinachedd. Dylech egluro y bydd angen i chi drosglwyddo'r wybodaeth er mwyn cadw'r unigolyn ac eraill yn ddiogel.
- Dylech gadw nodiadau manwl o'r hyn sy'n cael ei ddweud, cofnodi dyddiadau, amseroedd a digwyddiadau, gan ddefnyddio'r geiriau a ddefnyddiwyd os oes modd.
- Dylech lofnodi, dyddio a rhoi'r nodiadau hyn i'r unigolyn sy'n gyfrifol am faterion diogelu.
- Sicrhau nad oes unrhyw sefyllfa yn codi a allai achosi rhagor o bryder.

### **Os ydych chi'n derbyn cwyn neu honiad yn erbyn unrhyw un, gan gynnwys eich hun**

- Dylech roi gwybod i'r Swyddog Diogelu Taleithiol ar unwaith.
- Dylech ysgrifennu nodiadau manwl a chyfoes o'r hyn a welsoch, yr hyn a glywsoch neu'r hyn a ddywedwyd wrthyh.
- Dylech lofnodi, dyddio a rhoi'r nodiadau hyn i'r unigolyn sy'n gyfrifol am faterion diogelu.

- Dylech geisio sicrhau nad oes neb yn cael ei roi mewn sefyllfa a allai arwain at ragor o berygl.

***Cod ymarfer wrth weithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl***

- Dylech drin pawb â pharch, a bod yn esiampl dda i eraill.
- Dylech barchu gofod a phreifatrwydd personol.
- Dylech sicrhau bod mwy nag un person yn bresennol mewn gweithgareddau, neu sicrhau bod pobl eraill yn gallu'ch gweld a'ch clywed bob amser.
- Dylech sicrhau nad oes neb arall yn gallu camddehongli unrhyw weithredoedd.
- Mae'n rhaid herio ymddygiad annerbyniol fel bwlio, ffafriaeth, ensyniadau ac ati.
- Mae'n rhaid osgoi unrhyw gysylltiad corfforol neu eiriol amhriodol ag eraill.
- Peidiwch â rhoi unrhyw un, gan gynnwys eich hun, mewn sefyllfa fregus neu beryglus.
- Rhaid i chi beidio â chuddio honiadau neu weithredoedd yn ymwneud â cham-drin posibl. **COFNODWCH A RHOWCH WYBOD.**
- Os ydych chi'n cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp neu breswyl, dylech ddarllen Polisi Diogelu yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer gwybodaeth gynhwysfawr am arferion gorau.



## Ffurflen 2:

## Ffurflen ganiatâd gyffredinol

<b>CANIATÂD RHIANT/GWARCHIEDWAD AR GYFER GWEITHGAREDD/DIGWYDDIAD</b>			
<b>I. NATUR Y DIGWYDDIAD/GWEITHGAREDD:</b>			
<b>Dyddiad(au):</b>		<b>Amser(au):</b>	
<b>Costau</b>			
<p>Rwy'n cytuno i: .....(enw)</p> <p>Dyddiad Geni: .....</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gymryd rhan yn y digwyddiadau a ddisgrifiwyd.</li> <li>Pan ei fod/ei bod yn cymryd rhan, rwy'n deall y bydd o dan reolaeth a gofal arweinydd y grŵp a/neu oedolion eraill a gymeradwywyd gan yr eglwys/arweinwyr y sefydliad, ac er bydd y staff sy'n rheoli'r grŵp yn cymryd pob gofal rhesymol o'r plant, ni fyddant yn gyfrifol o reidrwydd am unrhyw golled, niwed neu anaf i fy mhlentyn yn ystod y gweithgaredd, neu o ganlyniad i'r gweithgaredd.</li> <li>Rwy'n cydnabod yr angen iddo/iddi ymddwyn mewn ffordd gyfrifol a byddaf yn sicrhau ei fod/ei bod yn ymwybodol o'r disgwyliad i ymddwyn yn gyfrifol.</li> </ul>			
<b>2. TREFNIADAU CLUDO:</b> <b>(rhieni/gofalwyr sy'n gyfrifol am y trefniadau hyn)</b> Nodwch sut y bydd eich mab/merch yn teithio i'r gweithgaredd neu'r man casglu ac yn ôl wedyn ar gyfer y trip diwrnod/preswyl.			
<b>3. GWYBODAETH FEDDYGOL:</b>			
<b>a) A oes gan eich plentyn unrhyw gyflwr/cyflyrau sydd angen triniaeth feddygol gan gynnwys meddyginiaeth, e.e. anadlydd, meddyginiaeth wrth epilepsi neu inswlin?</b>			
<b>OES</b>	<i>Os OES nodwch y manylion</i>	<b>NAC OES</b>	
<b>Manylion y driniaeth feddygol:</b>			

**b) Nodwch unrhyw ofynion dietegol arbennig sydd gan eich plentyn (gan gynnwys alergeddau e.e. cnau) a'r math o feddyginiaeth gwella poen/ffliw y gellir ei rhoi i'ch plentyn os oes angen.**

**c) Nodwch unrhyw OFNAU NEU FFOBIAU sydd gan eich plentyn.**  
(Bydd y wybodaeth hon yn helpu'r oedolion i gynorthwyo'ch plentyn os oes unrhyw anawsterau yn codi)

**ch) A oes gan eich mab/merch alergedd i unrhyw feddyginiaeth e.e. penisilin?**

<b>OES</b>	<i>Os OES nodwch isod</i>	<b>NAC OES</b>	
------------	---------------------------	----------------	--

**d) Pryd oedd y tro diwethaf i'ch mab/merch gael pigiad tetanws?**

**dd) A oes angen i'r trefnydd gael gwybod am unrhyw wybodaeth berthnasol arall neu ofynion perthnasol eraill e.e. salwch teithio/symudedd?**

**Byddaf yn hysbysu arweinydd y digwyddiad cyn gynted ag y bo modd am unrhyw newidiadau i'r amgylchiadau meddygol neu amgylchiadau eraill cyn dechrau'r daith.**

#### **4. GWYBODAETH GYSWLLT**

<b>Rhif ffôn gwaith / Rhif ffôn symudol:</b>	
<b>Rhif ffôn cartref:</b>	
<b>Cyfeiriad cartref:</b>	

<b>Unigolyn arall i gysylltu ag ef mewn argyfwng:</b>			
<b>Enw:</b>			
<b>Rhif ffôn:</b>			
<b>Cyfeiriad:</b>			
<b>Enw'r meddyg teulu:</b>			
<b>Rhif ffôn y meddyg teulu:</b>			
<b>Cyfeiriad y meddyg:</b>			
<b>5. DATGANIAD</b>			
<p>Yn dilyn salwch neu ddamwain bydd arweinydd y digwyddiad neu ei gynorthwyr yn gwneud pob ymdrech i gysylltu â mi. Os nad oes modd gwneud hyn am ba reswm bynnag, rwy'n cytuno i'm mab/merch dderbyn meddyginiaeth yn unol â'r cyfarwyddyd ynghyd ag unrhyw driniaeth ddeintyddol, feddygol neu lawfeddygol frys, gan gynnwys anesthetig neu drallwysiad gwaed, yn unol â'r hyn sy'n ofynnol yn ôl yr awdurdodau meddygol sy'n bresennol.</p>			
<b>Llofnod:</b>		<b>Dyddiad:</b>	
<b>Enw llawn:</b> <i>(prif lythrennau)</i>			
<b>Perthynas â'r plentyn:</b>			
	<b>Llofnod rhiant neu warcheidwad</b>		

**Ffurflen 3:****Ffurflen ganiatâd ar gyfer gweithgareddau penodol**

<b>CANIATÂD RHIANT/GWARCHHEIDWAD AR GYFER GWEITHGAREDD/DIGWYDDIAD</b>
---

<b>I. NATUR Y DIGWYDDIAD/GWEITHGAREDD:</b>
--

<b>Dyddiad(au):</b>		<b>Amser(au):</b>	
<b>Costau</b>			

Rwy'n cytuno i: ..... (enw)

Dyddiad Geni: .....

- Gymryd rhan yn y gweithgareddau a ddisgrifiwyd.
- Pan ei fod/ei bod yn cymryd rhan, rwy'n deall y bydd o dan reolaeth a gofal arweinydd y grŵp a/neu oedolion eraill a gymeradwywyd gan yr eglwys/arweinwyr y sefydliad, ac er bydd y staff sy'n rheoli'r grŵp yn cymryd pob gofal rhesymol o'r plant, ni fyddant yn gyfrifol o reidrwydd am unrhyw golled, niwed neu anaf i fy mhlentyn yn ystod y gweithgaredd, neu o ganlyniad i'r gweithgaredd.
- Rwy'n cydnabod yr angen iddo/iddi ymddwyn mewn ffordd gyfrifol a byddaf yn sicrhau ei fod/ei bod yn ymwybodol o'r disgwyliad i ymddwyn yn gyfrifol.

<b>2. TREFNIADAU CLUDO:</b>
-----------------------------

**(rhieni/gofalwyr sy'n gyfrifol am y trefniadau hyn)**

Nodwch sut y bydd eich mab/merch yn teithio i'r gweithgaredd neu'r man casglu ac yn ôl wedyn ar gyfer y trip diwrnod/preswyl.

<b>3. GWYBODAETH FEDDYGOL:</b>
--------------------------------

<b>a) A oes gan eich plentyn unrhyw gyflwr/cyflyrau sydd angen triniaeth feddygol gan gynnwys meddyginiaeth, e.e. anadlydd, meddyginiaeth wrth epilepsi neu inswlin?</b>
--

<b>OES</b>	<i>Os OES rhowch y manylion</i>	<b>NAC OES</b>	
------------	---------------------------------	----------------	--

**Manylion y driniaeth feddygol:**

<b>b) Nodwch unrhyw ofynion dietegol arbennig sydd gan eich plentyn (gan gynnwys alergeddau e.e. cnau) a'r math o feddyginiaeth gwella poen/ffliw y gellir ei rhoi i'ch plentyn os oes angen.</b>			
<b>c) Nodwch unrhyw OFNAU NEU FFOBIAU sydd gan eich plentyn.</b> <i>(Bydd y wybodaeth hon yn helpu'r oedolion i gynorthwyo'ch plentyn os oes unrhyw anawsterau yn codi)</i>			
<b>ch) A oes gan eich mab/merch alergedd i unrhyw feddyginiaeth e.e. penisilin?</b>			
<b>OES</b>	<i>Os OES nodwch y manylion isod</i>	<b>NAC OES</b>	
<b>d) Pryd oedd y tro diwethaf i'ch mab/merch gael pigiad tetanws?</b>			
<b>dd) A oes angen i'r trefnydd gael gwybod am unrhyw wybodaeth berthnasol arall neu ofynion perthnasol eraill e.e. salwch teithio/symudedd?</b>			
<b>e) <u>AR GYFER TEITHIAU PRESWYL YN UNIG</u> – Hyd y gwyddoch chi, a yw'ch mab/merch wedi dod i gysylltiad ag unrhyw glefydau cyffwrdd-ymledol neu heintus, neu wedi cael unrhyw salwch/cyflwr dros yr wythnosau diwethaf a allai fod yn gyffwrdd-ymledol?</b>			
<b>OES</b>	<i>Os OES rhowch y manylion</i>	<b>NAC OES</b>	
<b>Byddaf yn hysbysu arweinydd y digwyddiad cyn gynted ag y bo modd am unrhyw newidiadau i'r amgylchiadau meddygol neu amgylchiadau eraill cyn dechrau'r daith.</b>			
<b>4. GWYBODAETH GYSWLLT</b>			
<b>Rhif ffôn gwaith / Rhif ffôn symudol:</b>			



<b>Rhif ffôn cartref:</b>			
<b>Cyfeiriad cartref:</b>			
<b>Unigolyn arall i gysylltu ag ef mewn argyfwng:</b>			
<b>Enw:</b>			
<b>Rhif ffôn:</b>			
<b>Cyfeiriad:</b>			
<b>Enw'r meddyg teulu:</b>			
<b>Rhif ffôn y meddyg teulu:</b>			
<b>Cyfeiriad y meddyg:</b>			
<b>5. DATGANIAD</b>			
<p>Yn dilyn salwch neu ddamwain bydd arweinydd y digwyddiad neu ei gynorthwyyr yn gwneud pob ymdrech i gysylltu â mi. Os nad oes modd gwneud hyn am ba reswm bynnag, rwy'n cytuno i'm mab/merch dderbyn meddyginiaeth yn unol â'r cyfarwyddyd ynghyd ag unrhyw driniaeth ddeintyddol, feddygol neu lawfeddygol frys, gan gynnwys anesthetig neu drallwysiad gwaed, yn unol â'r hyn sy'n ofynnol yn ôl yr awdurdodau meddygol sy'n bresennol.</p>			
<b>Llofnod:</b>		<b>Dyddiad:</b>	
<b>Enw llawn:</b> (prif lythrennau)			
<b>Perthynas â'r plentyn:</b>			
	<b>Llofnod rhiant neu warcheidwad</b>		



**Ffurflen 4:**  
**Ffurflen ganiatâd i wneud a defnyddio delweddau**

**FFURFLEN GANIATÂD RHIENI/GWARCHIEDWAID A PHOBL IFANC AR  
GYFER TYNNU A DEFNYDDIO FFOTOGRAFFAU A GWNEUD A  
DEFNYDDIO FIDEOS**

Mae .....(enw'r  
plwyf/digwyddiad) yn cydnabod yr angen i sicrhau lles a diogelwch pob plentyn a pherson  
ifanc.

Yn unol â'n polisi diogelu, ni fyddwn yn caniatáu i neb dynnu neu ddefnyddio ffotograffau neu  
wneud neu ddefnyddio fideos neu ddelweddau eraill o blant a phobl ifanc heb ganiatâd eu  
rheini/gwarcheidwaid a'r plant.

Rydym yn defnyddio delweddau i'n helpu i godi ymwybyddiaeth o waith y sefydliad, at  
ddibenion cyhoeddusrwydd/hyrwyddo neu i rannu gwybodaeth. Bydd unrhyw ganiatâd sy'n  
cael ei roi yn para am ddwy flynedd, ac ar ôl hynny mae'n bosibl y bydd cais newydd am  
ganiatâd yn cael ei wneud. Noder na fydd gwrthod rhoi caniatâd yn rhoi unrhyw unigolyn o  
dan anfantais mewn unrhyw ffordd.

Bydd y plwyf/digwyddiad a enwir yn cydymffurfio ag egwyddorion ymarfer diogel ar gyfer  
tynnu, defnyddio a storio ffotograffau a gwneud, defnyddio a storio fideos o blant a phobl  
ifanc.

(enw) .....

Bydd y plwyf/digwyddiad a enwir yn cymryd camau i sicrhau bod y delweddau hyn yn cael eu  
defnyddio at y dibenion arfaethedig yn unig. Os ydych chi'n sylwi bod y delweddau hyn yn  
cael eu defnyddio yn amhriodol dylech hysbysu:

(enw) .....

**I'W GWBLHAU GAN Y RHIANT/GWARCHIEDWAD:**

Rwyf i .....(enw'r rhiant/gwarcheidwad) yn  
caniatáu i'r plwyf/digwyddiad a enwir dynnu ffotograff neu wneud fideo o mhentyn:

.....(enw'r plentyn)

Rwy'n deall y bydd y delweddau hyn yn cael eu dangos at y dibenion canlynol: (nodwch y  
manylion a'r dyddiadau)

.....

.....

a thrwy hyn rwy'n cytuno i hyn.

Llofnod: ..... Dyddiad: .....

I'W GWBLHAU GAN Y PLENTYN/PERSON IFANC:  
(Os yw o oedran a lefel ddealltwriaeth ddigonol)

Rwyf i ..... (enw'r plentyn)

yn caniatáu i

.....  
(enw'r plwyf/digwyddiad)

dynnu ffotograffau neu wneud fideos ohonof yn cymryd rhan yn y gweithgaredd canlynol:  
(nodwch y gweithgaredd/manylion cryno)

.....  
.....  
.....

A thrwy hyn rwy'n cytuno i hyn.

Llofnod: ..... Dyddiad: .....



**Ffurflen 5:**  
**Ffurflen ganiatâd i gyfathrebu â phobl ifanc**  
**drwy ddulliau electronig**

**Caniatâd i gyfathrebu â phobl ifanc I I oed a throsodd drwy ddulliau electronig**

Mae llawer o blant a phobl ifanc yn cyfathrebu ar ffurf electronig drwy ddefnyddio ffonau symudol, e-bost a gwefannau cyfryngau cymdeithasol, ac mae'r dulliau hyn yn gallu cyflymu a hwyluso trefniadau. Noder nad yw'r rhai o dan 13 oed yn cael defnyddio Facebook, felly ni fydd yn cael ei ddefnyddio i gysylltu â phlant o dan 13 oed.

Os nad ydych chi'n rhoi caniatâd, ni fydd eich plentyn o dan unrhyw anfantais a bydd yr arweinwyr yn cysylltu â chi yn uniongyrchol i wneud trefniadau.

Rwyf/nid wyf yn rhoi caniatâd i chi gysylltu â'm plentyn .....  
 (enw) drwy ddefnyddio ffôn symudol/e-bost/neu'r rhyngwyd at ddibenion trefnu  
 gweithgareddau i blant/pobl ifanc.

*(dilëwch fel sy'n briodol)*

Llofnod: ..... Dyddiad: .....  
 Rhiant neu Warcheidwad



## Ffurflen 6: Ffurflen gais i gymeradwyo gweithgareddau

Mae'r ffurflen hon i'w chwblhau gan arweinydd y gweithgaredd/digwyddiad/grŵp neu gan gynrychiolydd dynodedig arall o'r eglwys er mwyn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y gweithgaredd.

Ar ôl cwblhau'r ffurflen hon, dylid ei rhoi i Offeiriad y Plwyf ynghyd ag Asesiad Risg sydd wedi'i gwblhau a ffurflenni caniatâd priodol gan y rhai â chyfrifoldeb rhiant ar gyfer y plant a fydd yn cymryd rhan yn y gweithgaredd.

Mae angen i Offeiriad y Plwyf neu'r Cyngor Plwyf Eglwysig lofnodi a chytuno bod y gweithgaredd wedi'i gymeradwyo, ac mae'n rhaid i'r Offeiriad gadw copi o'r gymeradwyaeth hon.

<b>CAIS AM GYMERADWYO DIGWYDDIADAU A GWEITHGAREDDAU GYDA PHLANT A PHOBL IFANC</b>			
<b>(GAN OFFEIRIAD Y PLWYF NEU ARWEINYDD Y SEFYDLIAD)</b>			
<b>Plwyf/ Sefydliad</b>			
<b>Arweinydd y digwyddiad:</b>	Bydd yr unigolyn hwn yn gyfrifol am ymdrin ag unrhyw bryderon diogelu hefyd.		
<b>Manylion y digwyddiad/gweithgaredd:</b>			
<b>Cyrchfannau:</b>			
<b>Dyddiad gadael:</b>		<b>Amser:</b>	
<b>Dyddiad dychwelyd:</b>		<b>Amser:</b>	
<b>Trefniadau teithio:</b> Dylech gynnwys enw'r cwmni trafndiaeth os yw'n hysbys ( <i>lle bo hynny'n berthnasol</i> )			
<b>Enw a chyfeiriad y llety a fydd yn cael ei ddefnyddio:</b> ( <i>os yn berthnasol</i> )			

<b>Rhif ffôn:</b>			
<b>Enw pennaeth y ganolfan:</b> (os yw'n hysbys)			
<b>Manylion unrhyw weithgaredd peryglus a'r prosesau cynllunio, trefnu a staffio cysylltiedig:</b>			
<b>Trefniadau yswiriant:</b> Nodwch fanylion y ddarpariaeth yswiriant ar gyfer y gweithgaredd/digwyddiad h.y. a yw'r trefniadau esgobaethol presennol yn darparu yswiriant? Os nad ydynt, pa drefniadau a fydd yn cael eu gwneud?			
<b>Enwau, rhyw, profiad a chyfrifoldebau penodol yr oedolion sy'n arwain:</b> (I wirio bocs – cliciwch ochr dde'r llygoden – priodweddau – gwirio – ok) (M Menyw / D Dyn)			
	M <input type="checkbox"/> D <input type="checkbox"/>		
	M <input type="checkbox"/> D <input type="checkbox"/>		
	M <input type="checkbox"/> D <input type="checkbox"/>		
	M <input type="checkbox"/> D <input type="checkbox"/>		
	M <input type="checkbox"/> D <input type="checkbox"/>		
	M <input type="checkbox"/> D <input type="checkbox"/>		
	M <input type="checkbox"/> D <input type="checkbox"/>		
	M <input type="checkbox"/> D <input type="checkbox"/>		
	M <input type="checkbox"/> D <input type="checkbox"/>		
	M <input type="checkbox"/> D <input type="checkbox"/>		
<b>Maint a chyfansoddiad arfaethedig y grŵp:</b>			
<b>Ystod oedran:</b>		<b>Cymhareb oedolion i blant:</b>	
<b>Nifer y bechgyn:</b>		<b>Nifer y merched:</b>	
<b>Unrhyw anghenion penodol hysbys y cyfranogwyr:</b>			

<b>Manylion cyswllt yr unigolyn cyswllt:</b>			
<b>Enw:</b>			
<b>Rhif ffôn:</b>			
<b>COFIWCH ATODI COPI O UNRHYW DAFLEN WYBODAETH A ANFONWYD AT RIENI, FFURFLENNI CANIATÂD RHIENI A'R FFURFLEN ASESU RISG (OS OES ANGEN I'R PLWYF EI CHWBLHAU)</b>			
<b>Yr asesiad risg i'w gwblhau:</b>			
<b>Gan:</b>		<b>Ar:</b>	
<b>Llofnod:</b>		<b>Dyddiad:</b>	
<b>Arweinydd y digwyddiad:</b> <i>(Enw llawn)</i>			
<b>A gymeradwywyd y digwyddiad?</b>	<b>Do</b>		<b>Naddo</b>
<b>A dderbyniwyd yr asesiad risg?</b>	<b>Do</b>		<b>Naddo</b>
<b>A dderbyniwyd y ffurflenni caniatâd?</b>	<b>Do</b>		<b>Naddo</b>
<b>Unrhyw sylwadau</b>			
<b>Mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n cwblhau'r ffurflen hon lofnodi isod ac yna anfon y ffurflen at Offeiriad y Plwyf/y Cyngor Plwyf Eglwysig i gael ei chymeradwyo a'i llofnodi.</b>			
<b>Llofnod:</b>		<b>Dyddiad:</b>	
<b>Swydd:</b>			
<b>Cymeradwywyd/ni chymeradwywyd <i>(dilëwch fel sy'n briodol)</i> y gweithgaredd hwn gan Offeiriad y Plwyf/aelod dynodedig o'r Cyngor Plwyf Eglwysig.</b>			
<b>Llofnod:</b>		<b>Dyddiad:</b>	
<b>Swydd:</b>			



### Ffurflen 7:

## Rhoi gwybod am ddigwyddiad, damwain neu ddigwyddiad/damwain fu bron a digwydd

Mae'n rhaid cwblhau'r ffurflen hon yn dilyn pob digwyddiad yn ymwneud ag unrhyw randdeiliad yr eglwys (aelod o'r gynulleidfa, rhywun yn cymryd rhan mewn digwyddiad, aelod o staff, gwirfoddolwr, clerig, myfyriwr ac ati). Mae'n rhaid i'r aelod o staff, y gwirfoddolwr perthnasol, neu dyst gwblhau'r ffurflen mor fuan â phosibl ar ôl y digwyddiad.

Hefyd, mae'n rhaid trafod unrhyw ddigwyddiad gyda'r aelod o staff priodol neu ddynodedig er mwyn sicrhau bod yr ymchwiliad gofynnol yn cael ei gwblhau a bod gwersi'n cael eu dysgu i helpu i atal digwyddiadau yn y dyfodol.

<b>Arweinydd y digwyddiad:</b>		<b>Rhif ffôn cyswllt:</b>	
<b>Manylion y digwyddiad:</b>			
<b>Enw'r unigolyn perthnasol:</b>		<b>Dyddiad geni:</b>	
<b>Dyddiad y digwyddiad:</b>		<b>Amser:</b>	
<b>Lleoliad y digwyddiad:</b>			
<b>Amgylchiadau'r digwyddiad:</b> <i>(gallwch barhau ar dudalen ar wahân os oes angen)</i>			



<b>Natur y niwed:</b>			
<b>Triniaeth a roddwyd:</b>			
<b>Yr unigolyn a gafodd ei hysbysu:</b>			
<b>Unrhyw gamau gweithredu eraill:</b>			
<b>Llofnod:</b>		<b>Dyddiad:</b>	
<b>Enw mewn llythrennau bras:</b>		<b>Swydd:</b>	

**MAE’N RHAI D ANFON Y FFURFLEN HON AT Y SWYDDOG IECHYD A DIOGELWCH, CYDGYSYLLTYDD DIOGELU’R PLWYF, A’R PENNAETH DIOGELU OS YW HYNNY’N BRIODOL**



**Ffurflen 8:**  
**Cofnod y sesiwn**

<b>Plwyf / Sefydliad:</b>	
<b>Arweinydd y digwyddiad:</b>	
<b>Taflen cofnodi sesiwn ar gyfer:</b> <i>(nodwch fanylion y gweithgaredd)</i>	
<b>A gynhaliwyd ar:</b> <i>(nodwch y dyddiad)</i>	
<b>Plant/pobl ifanc a fynychodd:</b> <i>(nodwch eu henwau)</i>	
<b>Staff ar ddyletswydd:</b> <i>(nodwch eu henwau)</i>	

<b>Manylion y sesiwn (math/enw'r digwyddiad, y gweithgaredd neu'r grŵp, dyddiad ac amser):</b>			
<b>Digwyddiadau o arwyddocâd:</b> <i>(os yn berthnasol – gan gynnwys pryderon)</i>			
<b>Camau gweithredu:</b>			
<b>Llofnod:</b>		<b>Dyddiad:</b>	
<b>Swydd:</b>			



**Ffurflen a Chanllaw 9:  
Rhoi gwybod am bryder neu honiad diogelu**

Dylai'r ffurflen hon gael ei chwblhau gan unrhyw un sydd â phryderon diogelu yn ymwneud â phlentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl. Os yw pryderon yn cael eu mynegi ynglŷn â mwy nag un plentyn ar yr un aelwyd, mae'n rhaid cwblhau ffurflen ar gyfer pob plentyn. Os oes pryderon yn ymwneud â diogelwch unrhyw unigolyn ar y pryd, mae'n rhaid i chi ofyn am gymorth yn syth. Dylid cwblhau'r ffurflen hon cyn gynted â phosibl ar ôl mynegi'r pryder.

**Ni ddylai'r unigolyn sy'n cwblhau'r ffurflen hon fynd ati ar unrhyw gyfrif i ymchwilio i'r pryderon a fynegwyd.**

Dylid cyflwyno'r ffurflen hon ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill yn ddi-oed i'r Swyddog Diogelu Taleithiol. Mae'n rhaid cadw'r wybodaeth hon yn gwbl gyfrinachol a'i storio'n ddiogel yn unol â'r polisiau a'r gweithdrefnau diogelu data a chadw cofnodion.

***Dylech ddarllen y nodiadau cyfarwyddyd sydd wedi'u hatodi cyn cwblhau'r ffurflen hon.***

**Esgobaeth:** ..... **Plwyf:** .....

<b>1. Ffynhonnell a Natur y Pryder / Honiad</b>		
Enw'r sawl sy'n mynegi'r pryder:  Swydd:	Rhif ffôn:  E-bost:	Dyddiad mynegi'r pryder:
Natur y pryder: (Cam-drin corfforol / Cam-drin emosiynol / Esgeuluso / Cam-drin rhywiol / Cam-drin ariannol / Ymddygiad amhriodol / Cam-drin hanesyddol)		
Crynodeb o'r honiad:		

<b>2. Manylion yr unigolyn sy'n destun y pryder</b>				
Enw:				Dyddiad geni (neu oedran yn fras)
Rhyw:	Dyn		Menyw	
Ethnigrwydd:				

Cyfeiriad:
Rhif ffôn:
Enw'r rhiant/y gwarcheidwad:
A yw'r unigolyn hwn yn ymwybodol o'r honiad sydd wedi'i wneud? Nac ydy [ ] Ydy [ ] (Ni ddylid cysylltu â'r unigolyn hwn nes bod y Swyddog Diogelu Taleithiol wedi awdurdodi hynny)
Cyfeiriad (os yn wahanol i'r uchod):
Rhif ffôn (os yn wahanol i'r uchod):

### 3. Manylion natur y pryder/honiad

Dylid cynnwys manylion y pryder ei hun, nodi'r tystion (a'u manylion cyswllt) a'r ffynonellau gwybodaeth os na chafodd y pryder/honiad ei weld yn uniongyrchol. Hefyd, dylid nodi dyddiadau, amseroedd, lleoliadau, unrhyw gamau gweithredu ac ati.

Os oes angen, gallwch chi barhau ar ddalennau ychwanegol a'u hatodi i'r ffurflen hon.	
<b>4. Gwrthrych yr honiad (enw a chyfeiriad y troseddwr honedig os yw hynny'n berthnasol)</b>	
Enw:	
Perthynas â'r unigolyn y mae'r pryder wedi'i fynegi yn ei gylch:	
Swydd: Clerig/Lleyg Crefyddol/Arall/Dim swydd (nodwch y manylion)	
Dyddiad geni:	Rhif ffôn:
Cyfeiriad:	
A ydych yn ymwybodol o unrhyw bryderon blaenorol yn ymwneud â'r unigolyn hwn? Nac ydw [ ] Ydw [ ] Nodwch y manylion:	
A yw'r unigolyn hwn yn ymwybodol o'r honiad sydd wedi'i wneud? Nac ydy [ ] Ydy [ ] (Ni ddylid hysbysu neu gysylltu â'r unigolyn hwn nes bod y Swyddog Diogelu Taleithiol wedi awdurdodi hynny)	

<b>5. Cofnodi Gweithgarwch</b>
A oes atgyfeiriad diogelu wedi'i wneud i'r Gwasanaethau Statudol/Brys?  Nac oes [ ] Oes [ ] Dyddiad:
Enw'r unigolyn a dderbyniodd yr atgyfeiriad:
Manylion cyswllt:
Pa gamau gweithredu y bydd yn eu rhoi ar waith a phryd?

--

Pa gymorth sydd wedi'i dderbyn ynglŷn â chamau gweithredu nesaf y sawl sy'n gwneud yr atgyfeiriad?

A oes unrhyw wasanaeth statudol arall wedi'i hysbysu?

- |                        |                          |                             |                          |                          |                          |             |                          |          |                          |
|------------------------|--------------------------|-----------------------------|--------------------------|--------------------------|--------------------------|-------------|--------------------------|----------|--------------------------|
| Heddlu                 | <input type="checkbox"/> | Gofal Cymdeithasol Oedolion | <input type="checkbox"/> | Gofal Cymdeithasol Plant | <input type="checkbox"/> | Iechyd      | <input type="checkbox"/> | Addysg   | <input type="checkbox"/> |
| Gwasanaeth Prawf Arall | <input type="checkbox"/> | Esgob                       | <input type="checkbox"/> | Swyddog Diogelu          | <input type="checkbox"/> | Cyfreithiol | <input type="checkbox"/> | Yswiriwr | <input type="checkbox"/> |
|                        | <input type="checkbox"/> | Nodwch:                     |                          |                          |                          |             |                          |          |                          |

Enw	Manylion cyswllt	Dyddiad

Llofnod: ..... Dyddiad: .....

## Rhoi gwybod am bryder neu honiad diogelu – nodiadau cyfarwyddyd

### Gwneud Atgyfeiriad

Bydd angen i chi ddarparu cymaint o'r wybodaeth ganlynol â phosibl, ond ni ddylech oedi cyn gwneud atgyfeiriad os nad yw'r wybodaeth wrth law.

Bydd angen y canlynol ar gyfer plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed:

- Enw, dyddiad geni a chyfeiriad y plentyn/plant sy'n destun y pryder;
- Enwau'r rhieni neu'r gofalwyr;
- Manylion unrhyw blant arall ar yr un aelwyd;
- Manylion y pryder, y digwyddiad neu'r honiad;
- Amser a chyd-destun y datgeliad, os yn berthnasol;
- Unrhyw wybodaeth sy'n hysbys am yr unigolyn y mae pryderon neu honiad yn ei gylch;
- A yw'r unigolyn y mae honiad wedi'i wneud yn ei erbyn yn ymwybodol o'r atgyfeiriad;
- A oes unrhyw blant eraill a allai fod mewn perygl;
- Beth sydd wedi cael ei ddweud wrth y plentyn am yr atgyfeiriad;
- Enw a manylion cyswllt y sawl sydd wedi gwneud yr atgyfeiriad.

Bydd angen y canlynol ar gyfer oedolyn mewn perygl:

- Enw, dyddiad geni a chyfeiriad yr oedolyn sy'n destun y pryder a'r rheswm y mae'n cael ei drin fel oedolyn mewn perygl at ddibenion yr atgyfeiriad hwn;
- Enwau'r gofalwyr os ydynt yn hysbys;
- Manylion unrhyw bobl eraill ar yr aelwyd gan gynnwys unrhyw blant, os yw'r manylion yn hysbys;
- Manylion y pryder, y digwyddiad neu'r honiad gan gynnwys graddfa'r cam-drin, effaith y cam-drin ar lesiant yr oedolyn, a oes unrhyw ddeddf wedi'i thorri, a yw'r unigolyn neu unrhyw unigolyn arall wedi'i fygwth neu ei ddychryn, a'r perygl o ragor o gam-drin;
- A fydd angen asesiad meddygol ar yr oedolyn mewn perygl (ar gyfer sefyllfaoedd lle nad oes bywyd yn y fantol);
- Amser a chyd-destun y datgeliad, os yn berthnasol;
- Unrhyw wybodaeth am yr unigolyn y mae pryderon neu honiadau yn ei gylch;
- A yw'r unigolyn y mae honiad wedi'i wneud yn ei erbyn yn ymwybodol o'r atgyfeiriad;
- A oes unrhyw un arall a allai fod mewn perygl;
- Beth sydd wedi cael ei ddweud wrth yr oedolyn mewn perygl am yr atgyfeiriad;
- Enw a manylion cyswllt y sawl sydd wedi gwneud yr atgyfeiriad.



## Canllawiau a Rhestr Wirio Cofnodi a Chadw Cofnodion

Er mwyn cadw Cofnodion Diogelu, dylid defnyddio Ffurflen 9: Rhoi Gwybod am Bryder neu Honiad Diogelu.

Diben cofnodion ysgrifenedig ym maes diogelu yw:

- Sicrhau bod gwybodaeth bwysig yn cael ei chofnodi yn glir, yn gryno ac yn gywir;
- Darparu cofnod clir o unrhyw gyswllt â phlentyn, oedolyn mewn perygl a/neu deulu gan gynnwys amser y cyswllt;
- Cynorthwyo cysondeb pan na fydd gweithiwr ar gael neu pan fydd yn cael ei newid;
- Darparu'r sail ar gyfer barn a phenderfyniadau proffesiynol;
- Darparu tystiolaeth ar gyfer ymchwiliadau, ymholiadau ac achosion llys;
- Cofnodi unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd, a'r hyn y cytunwyd arno neu yr anghytunwyd arno, a darparu tystiolaeth bod gweithdrefnau wedi'u dilyn yn briodol.

Dylai cofnodion:

- Ddefnyddio iaith glir, syml;
- Cael eu llofnodi, eu dyddio a'u hamseru;
- Bod yn gryno ac yn ddarllenadwy a chydymffurfio â safonau a gofynion asiantaethau proffesiynol, cenedlaethol a lleol;
- Bod yn ffeithiol gywir a gwahaniaethu rhwng ffeithiau, barn, crebwyll a damcaniaeth;
- Bod yn drefnus a chynnwys cofnodion manwl a chronolegau a chrynodebau, gan gynnwys pob cyswllt;
- Bod yn ddigon cynhwysfawr i gynnwys pwyntiau pwysig, ond nid yn rhy fanwl;
- Cofnodi safbwyntiau, camau gweithredu a phenderfyniadau;
- Egluro os yw penderfyniadau wedi'u gwneud gan asiantaethau ar y cyd, neu eu cymeradwyo gan reolwr;
- Cofnodi trafodaethau ffurfiol ac anffurfiol a oruchwyliwyd, gan gynnwys cyngor dros y ffôn.

## Cofnodi Pryder Diogelu

Dylid rhoi'r camau gweithredu canlynol ar waith:

- Egluro pwysigrwydd cofnodi gwybodaeth a gofyn am ganiatâd i wneud nodiadau yn ystod unrhyw sgwrs. Sicrhau bod yr unigolyn sy'n rhoi'r wybodaeth i chi yn gwybod bod modd iddo weld y wybodaeth sydd gennych chi amdano;
- Os na allwch chi wneud nodiadau ar y pryd, dylech wneud cofnod ysgrifenedig cyn gynted ag y bo modd wedyn, ac erbyn diwedd y dydd bob amser;
- Cofnodi amser, dyddiad, lleoliad a fformat y wybodaeth (e.e. llythyr, galwad ffôn, cyswllt uniongyrchol) a'r unigolion a oedd yn bresennol pan gyflwynwyd y wybodaeth, gan lofnodi a dyddio'r cofnod.

- Cynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl, ond nodi'n glir y wybodaeth sy'n ffeithiol gywir, yn dystiolaeth ail-law ac yn farn bersonol. Ni ddylid damcaniaethu neu wneud rhagdybiaethau;
- Cynnwys unrhyw gyd-destun a gwybodaeth gefndir berthnasol a arweiniodd at y datgeliad;
- Cadw cofnod o gamau gweithredu ar Ffurflen 9: Rhoi Gwybod am Bryder a Honiad Diogelu a chofnodi amseroedd, dyddiadau ac enwau pobl y cysylltwyd ac y siaradwyd â nhw, ynghyd â'u manylion cyswllt;
- Cynnwys manylion llawn unrhyw atgyfeiriadau i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r heddlu;
- Trosglwyddo'r holl gofnodion gwreiddiol, gan gynnwys nodiadau bras, i'r Swyddog Diogelu Taleithiol erbyn y diwrnod gwaith nesaf.

### Storio Cofnodion

Dylai'r holl ffurflenni a dogfennau gael eu storio'n ddiogel, eu defnyddio a'u hadalw yn unol â gofynion diogelu data. Yn ôl Deddf Diogelu Data 1998, dylai cofnodion sy'n cynnwys data personol:

- Gael eu prosesu yn deg ac yn gyfreithlon;
- Cael eu sicrhau a'u defnyddio at ddibenion penodol;
- Bod yn ddigonol, yn berthnasol a heb gynnwys gormod o wybodaeth;
- Bod yn gywir;
- Peidio â chael eu cadw am fwy o amser nag sydd ei angen;
- Cael eu prosesu yn unol â hawliau unigolyn;
- Bod yn ddiogel;
- Peidio â chael eu trosglwyddo i wledydd y tu allan i'r DU heb ddiogelwch digonol.

Mae'n rhaid storio cofnodion yn gyfrinachol mewn lle diogel ac ni ddylid eu rhannu â neb ac eithrio'r Swyddog Diogelu Taleithiol, gweithiwr proffesiynol o wasanaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol perthnasol, yr heddlu, neu yn unol â gweithdrefnau disgyblu priodol er mwyn diogelu plentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl.



## Ffurflen 10: Cytundeb ar gyfer defnyddio TGCh

Mae'r ffurflen hon yn cael ei rhoi gan gynrychiolydd priodol yr Eglwys i'r rhai sy'n dymuno defnyddio cyfarpar TGCh sy'n eiddo i'r Eglwys neu sydd ar safle'r Eglwys. Mae'n rhaid i'r ffurflen hon gael ei llofnodi gan yr unigolyn sy'n defnyddio'r cyfarpar, ac os yw'r unigolyn hwn o dan 18 oed, mae'n rhaid i'r ffurflen gael ei llofnodi hefyd gan oedolyn priodol, sef rhiant/gwarcheidwad fel arfer. Mae'n rhaid i'r ffurflen gael ei llofnodi a'i dychwelyd i gynrychiolydd priodol yr eglwys cyn bod modd defnyddio cyfarpar TGCh.

<b>Plwyf / Sefydliad:</b>			
<b>Enw:</b>			
<p>Rwy'n deall ac yn cytuno i gydymffurfio â pholisi'r eglwys ynglŷn â'r defnydd priodol o TGCh. Rwy'n deall na allaf wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Chwilio am a/neu ddefnyddio unrhyw wefannau pornograffig, hiliol neu wefannau sy'n hyrwyddo casineb.</li> <li>• Defnyddio cyfarpar TGCh sy'n cael ei ddarparu gan yr Eglwys i storio, arddangos a/neu drosglwyddo deunydd pornograffig, rhywiaethol, hiliol, homoffobaidd neu dreisgar.</li> <li>• Anfon negeseuon e-bost neu roi negeseuon neu luniau ar unrhyw safle cyfryngau cymdeithasol neu ddefnyddio TGCh mewn unrhyw ffordd arall i fygwth, dychryn, bwlio, bychanu, cam-drin neu aflonyddu ar unrhyw unigolyn neu grŵp.</li> <li>• Lawrlwytho, anfon ymlaen a/neu losgi ar unrhyw CD unrhyw gerddoriaeth, delweddau neu ffilmiau oddi ar y rhyngwrwd heb ganiatâd y sawl sydd â'r hawlfraint.</li> <li>• Datgelu unrhyw wybodaeth bersonol am bobl eraill heb eu cydsyniad e.e. cyfeiriadau (personol, e-bost neu negeseua), rhifau ffôn neu fanylion banc.</li> </ul> <p>Rwy'n cytuno i'r telerau uchod.</p> <p>Rwyf wedi darllen Atodiad 2 (os ydych chi o dan 18 oed mae'n rhaid i oedolyn lofnodi'r ffurflen hon hefyd)</p>			
<b>Llofnod:</b>		<b>Dyddiad:</b>	
Llofnod oedolyn os yw'r person ifanc o dan 18 oed.			
<b>Enw:</b>		<b>Llofnod:</b>	
<b>Perthynas:</b>		<b>Dyddiad:</b>	



## Ffurflen 11: Diogelu

<b>Enw'r Plwyf / Ardal Weinidogaeth / Ardal Genhadaeth*</b>			
<b>Enw:</b>			
<b>Rôl:</b>			
<p>Rwyf i .....(enw llawn)          Yn datgan drwy hyn fy mod wedi gweld a deall y gweithdrefnau ynglŷn â sut i ymdrin â phryderon a honiadau yn ymwneud â diogelu, ac y byddaf yn cydymffurfio â Pholisi Diogelu yr Eglwys yng Nghymru.</p>			
<b>Llofnod</b>		<b>Dyddiad:</b>	

**Dylai'r Polisi Diogelu (gweler Adran I) gael ei lofnodi a'i arddangos mewn man cyhoeddus yn eich eglwys neu neuadd yr eglwys.**

**\*Dim ond mewn Plwyfi unedig a chyfunol y dylid defnyddio enw'r Ardal Weinidogaeth / Ardal Genhadaeth.**



## Ffurflen 12: Ffurflen gais

Plwyf:		
Swydd y gwneir cais amdani:		
Enw llawn:		
Cyfeiriad llawn:		
Rhif ffôn:	Yn ystod y dydd:	
	Gyda'r nos:	

Nodwch unrhyw gymwysterau, sgiliau a phrofiad perthnasol rydych chi wedi'u hennill drwy gyflogaeth neu waith gwirfoddol sy'n eich gwneud yn addas i'r swydd hon. Defnyddiwch ddalennau ar wahân i barhau os oes angen.

Ydych chi erioed wedi'ch dyfarnu'n euog o gyflawni trosedd, neu a ydych chi'n wynebu cyhuddiadau troseddol ar hyn o bryd?

Ydw / Nac ydw	Os 'Ydw', nodwch natur a dyddiad y drosedd.
---------------	---

Nodwch enw a chyfeiriad dau ganolwr y gall y plwyf gysylltu â nhw i gael gwybodaeth am eich addasrwydd ar gyfer y swydd

Enw:

Cyfeiriad:

Rhif ffôn:

Swydd:

Perthynas (*os yn briodol*):

Enw:

Cyfeiriad:

Rhif ffôn:

Swydd:

Perthynas (*os yn briodol*):

*Rwy'n tystio bod y wybodaeth ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd y gwn i, ac rwy'n cydsynio drwy hyn i chi archwilio gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i ddilysu'r wybodaeth ar y ffurflen hon. Rwy'n ymwybodol y bydd manylion euogfarnau wedi'u disbyddu yn cael eu datgelu, ynghyd â gwybodaeth berthnasol arall a all fod yn hysbys i'r Heddlu.*

**LLOFNOD** ..... **DYDDIAD** .....



## Ffurflen 13: Cais enghreifftiol am eirda

### Cais am Eirda

#### CYFRINACHOL

Mae'r unigolyn a enwir isod wedi gwneud cais am y swydd isod yn y Plwyf a enwir ac mae wedi'ch enwi chi fel canolwr i gefnogi ei gais.

**Pwysig: Ni allwn gynnig swydd i unrhyw ymgeisydd nes ein bod wedi derbyn dau eirda annibynnol, a gofynnir i chi ddarparu un ohonynt.**

Enw'r Ymgeisydd: .....

Enw'r Plwyf: .....

Swydd y gwneir cais amdani: .....

Dylech gwblhau'r adran briodol yn rhinwedd eich rôl fel canolwr:

- Cyflogwr neu reolwr presennol neu flaenorol (cwblhewch Adrannau A, C ac Ch)
- Athro neu diwtor ysgol presennol neu flaenorol (cwblhewch Adrannau B ac Ch)
- Ffrind neu gydnabod personol (cwblhewch Adrannau C ac Ch)
- Nid wyf yn dymuno darparu geirda am y rheswm canlynol:

#### Adran A (i'w chwblhau gan gyflogwr presennol neu flaenorol)

#### Yr Ymgeisydd a'ch Sefydliad

Ym mha rinwedd y gwnaethoch chi gyflogi'r unigolyn?

Teitl(au) swydd(i)	O	Tan

#### Absenoldeb

Yn ystod dwy flynedd olaf cyfnod gwaith yr ymgeisydd:

- a) Am sawl diwrnod oedd yr ymgeisydd yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch? ...
- b) Sawl cyfnod o absenoldeb salwch gafodd yr ymgeisydd? .....

**Yr Ymgeisydd a'i Swydd**

A oes unrhyw gamau disgyblu wedi'u rhoi ar waith yn erbyn yr ymgeisydd, neu a yw'n wynebu ymchwiliad neu wrandawriad disgyblu? Oes/Ydy\* [ ] Nac oes/Nac ydy [ ]

Beth oedd dyletswyddau'r ymgeisydd yn eich sefydliad?

A wnaeth yr ymgeisydd gyflawni ei ddyletswyddau yn foddhaol? Do [ ] Naddo\* [ ]

A fydddech chi'n cyflogi'r ymgeisydd eto? Byddwn [ ] Na fyddwn \* [ ]

Beth oedd agwedd yr ymgeisydd at ei waith?

**Ewch i Adran Ch****Adran C (ar gyfer canolwyr personol / cyflogwyr presennol neu flaenorol)**

Am faint o amser ydych chi wedi adnabod yr ymgeisydd? .....

Ym mha rinwedd ydych chi'n adnabod yr ymgeisydd? .....

Nodwch allu'r ymgeisydd o safbwynt y priodweddau canlynol:


	Da	Boddhaol	Gwael
Gonestrwydd			
Dibynadwyedd			
Modd Ymddiried Ynddo/i			
Parchu cyfrinachedd			
Gallu gweithio fel aelod o dîm			
Gallu dilyn gweithdrefnau			
Gallu trin plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl ag urddas			
Gallu gwrando ar safbwyntiau plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl, a'u parchu.			

Sylwadau



**Ewch i Adran Ch****Adran Ch (i'w chwblhau gan BOB canolwr)**

Mae manylion y swydd y mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais amdani wedi'u hatodi. Defnyddiwch y bocs isod i nodi pa mor addas yw'r ymgeisydd ar gyfer y swydd (gallwch barhau ar ddalennau ychwanegol os oes angen).



A oes gennych chi unrhyw bryderon ynglŷn ag addasrwydd yr unigolyn hwn i weithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl?



Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau perthnasol eraill am yr ymgeisydd?

Ydych chi'n fodlon i gynnwys y geirda hwn gael ei rannu â'r ymgeisydd?

Ydw [ ] Nac ydw [ ]

Manylion y sawl sy'n cwblhau'r ffurflen:

Enw: .....

Swydd: .....

Llofnod: ..... Dyddiad: .....

Diolch am gwblhau'r ffurflen hon. Dylech ei dychwelyd at:

Enw: .....

Cyfeiriad: .....

**Ffurflen 14:**  
**Cytundeb enghreifftiol â throeddwr hysbys**

**Dylai'r Cytundeb Diogelu Taleithiol canlynol gael ei gwblhau gan y Swyddog Diogelu Taleithiol neu'r Pennaeth Diogelu yn unig.**



## **Cytundeb Diogelu Taleithiol** **Cytundeb diogelu cyfrinachol rhwng**

**(Enw)**.....

### **a'r Eglwys yng Nghymru**

Mae canllawiau'r Eglwys yng Nghymru ar ddiogelu yn gwneud darpariaeth i'r rhai a allai fod yn beryglus i blant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl gymryd rhan mewn rhai mathau o addoli cyn belled â'u bod yn gwneud hynny yng nghyd-destun cytundeb ysgrifenedig sy'n sicrhau'r diogelwch gorau posibl ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl. Mae'r cytundeb hwn, sy' cael ei roi ar waith yn ddi-oed, yn cydymffurfio â'r canllawiau hynny.

Mae'r cytundeb hwn yn deillio o bryderon ynglŷn â chyswllt yr unigolyn â phlant a phobl ifanc ar ôl iddo neu iddi gael euogfarn am droseddau difrifol yn erbyn plant a/neu oedolion mewn perygl. Dyma ddibenion y cytundeb hwn:

- ystyried difrifoldeb y troseddau gan (Enw) .....
- cytuno ar y telerau sy'n sylfaen iddo / iddi fynychu'r eglwys

### **Y Cytundeb**

- Cytunaf y byddaf ond yn mynychu (Enw'r Eglwys a'r Pentref) .....  
ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu hysbysebu. Os dymunaf fynychu unrhyw eglwys arall, mae'n rhaid i mi hysbysu'r Swyddog Diogelu Taleithiol fel bod cytundeb ysgrifenedig yn cael ei wneud gyda'r eglwys. Nid yw'r cytundeb hwn yn drosglwyddadwy.
- Cytunaf i beidio â chwilio am, na derbyn, unrhyw swydd yn yr eglwys neu unrhyw le arall sy'n gysylltiedig â phlant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl.
- Cytunaf i beidio â'm rhoi fy hun mewn sefyllfa lle rwyf ar fy mhen fy hun gyda phlant neu pobl ifanc ar safle o eiddo'r eglwys neu mewn lleoliad eglwysig.
- Cytunaf i beidio â cheisio cysylltu â phlant neu pobl ifanc mewn unrhyw fodd (e.e. rhyngwyd, ffôn neu ffôn symudol).
- Cytunaf i beidio â mynychu rhai cyfarfodydd neu ddigwyddiadau yn dilyn cyfarwyddyd gan y periglor neu aelodau tîm y clerig.
- Cytunaf na fyddaf yn eistedd/sefyll yn agos at blant neu pobl ifanc yn yr eglwys.
- Cytunaf i beidio â thynnu ffotograffau neu wneud fideos o unrhyw weithgareddau'r eglwys sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc.
- Os rwy'n cael fy ngwahodd i gartrefi pobl ar gyfer digwyddiadau'n ymwneud â'r eglwys, cytunaf i beidio â mynychu os oes plant neu pobl ifanc yn bresennol.
- Cytunaf na fyddaf yn cadw allwedd, na fyddaf yn agor safleoedd eglwysig ac na fyddaf yn derbyn unrhyw rôl swyddogol yn yr eglwys.

- Rwy'n derbyn y bydd rhai pobl yn yr eglwys yn cael gwybod am fy sefyllfa.
- Rwy'n derbyn y bydd (Enw) .....yn darparu gofal bugeiliol i mi.
- Rwy'n deall y bydd yr Eglwys yng Nghymru yn cydweithio â'r asiantaethau statudol yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau diogelu, ac y bydd unrhyw bryderon yn cael eu cymryd o ddifrif ac yn destun adroddiad.
- Os nad wyf yn cydymffurfio â'r amodau hyn, rwy'n deall y gellir gofyn i mi adael yr eglwys, ac y bydd yr asiantaethau statudol yn cael eu hysbysu.
- Rwy'n deall y bydd y cytundeb hwn yn cael ei adolygu bob blwyddyn ac y bydd yn para am gyfnod amhenodol.

Llofnod: .....ENW

Llofnod: ..... ENW'R PERIGLOR

Enw mewn llythrennau bras: .....


Llofnod: ..... YR HEDDLU NEU'R GWASANAETH PRAWF

Enw mewn llythrennau bras: .....

Llofnod: .....  
SWYDDOG DIOGELU TALEITHIOL / PENNAETH DIOGELU

Enw mewn llythrennau bras: .....

Dyddiad llofnodi:.....



## 'CADW'N DDIOGEL'

### Disgwyliadau Rhieni neu Warcheidwaid Cyfreithiol plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiad


Fel 'Rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol' plant / pobl ifanc sy'n mynychu'r digwyddiad hwn byddaf yn:

- ystyried Polisiâu a Gweithdrefnau'r Eglwys yng Nghymru (yn cynnwys y Polisi Diogelu);
- cyflwyno unrhyw bryderon / gwybodaeth ychwanegol ar ffurflenni cydsyniad y pecyn gwybodaeth ac i Oruchwylwyr cyn y digwyddiad;
- sicrhau bod y wybodaeth ar y ffurflenni cydsyniad wedi'i chwblhau ac wedi'i hystyried yn llawn, yn enwedig gwybodaeth feddygol a thechnoleg drydanol;
- darparu manylion cysylltu y tu allan i oriau a bod ar gael ar y ffôn/a neu pan fo angen yn bersonol pe bai goruchwylwyr am gysylltu mewn argyfwng;
- siarad â'r plant / pobl ifanc cyn y digwyddiad am y safonau 'Cadw'n Ddiogel' y gofynnwyd iddynt eu dilyn. Dyma'r safonau:
  - ymddwyn yn barchus a chyfrifol tuag at eu hunain ac eraill bob amser;
  - gweithredu yn unol â'r gyfraith, dilyn polisiâu a gweithdrefnau'r Eglwys yng Nghymru (yn cynnwys y Polisi Diogelu) a'r sefydliadau hynny rydym yn gweithio â nhw yn ystod y daith breswyl hon;
  - dilyn cyfarwyddiadau goruchwylwyr, yn cynnwys amser rhesymol ar gyfer 'diffodd y golau/cysgu';
  - dilyn y 'Polisi Dim Alcohol' yn cynnwys peidio â chamddefnyddio sylweddau fel y nodir ym Mholisi Diogelu'r Eglwys yng Nghymru;
  - defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol ac yn unol â pholisiâu a gweithdrefnau'r Eglwys yng Nghymru (yn cynnwys y Polisi Diogelu). Rhai enghreifftiau:
    - \* Dim ond cymryd a chyhoeddi lluniau gyda chydsyniad penodol y rhai sy'n ymddangos ynddyn nhw a thrwy gydsyniad rhieni,
    - \* Dim ond tagio pobl eraill os ydyn nhw wedi cydsynio i hynny;
  - defnyddio ffonau symudol a dyfeisiau trydanol eraill yn ddiogel a chyfrifol;
  - sicrhau bod o leiaf un goruchwyllydd yn gwybod ble maen nhw bob amser;
  - peidio â defnyddio dyfeisiau trydanol yn y nos, ac eithrio mewn argyfwng. Mae hyn yn hyrwyddo noson dda o gwsg
  - sicrhau eu bod nhw'n cadw'r manylion ar gyfer cysylltu mewn argyfwng â goruchwylwyr dynodedig gyda nhw bob amser;
  - darparu rhif ffôn symudol (os oes un i'w gael a chyda'u cydsyniad) fel y gellir cysylltu â nhw mewn argyfwng ac i'w ddefnyddio yn ystod y digwyddiad hwn yn unig;
  - siarad ag un o'r goruchwylwyr os oes ganddyn nhw bryderon am ddiogelwch neu les eu hunain neu eraill;
  - ystyried y pedwar peth pwysig – Cydweithredu, Bod yn Ystyriol, Gofalgar a Chwrtais er mwyn sicrhau bod y digwyddiad yn cael ei gynnal yn ddidrafferth.

**Fel 'Rhiant neu Warcheidwad Cyfreithiol' y plentyn neu'r person ifanc a enwyd isod, sy'n mynychu'r digwyddiad (yn ôl manylion y daith), rwy'n cytuno i'r 'safonau a'r disgwyliadau i gadw'n ddiogel' a amlinellwyd uchod.**

Enw fy mhientyn / person ifanc: .....

Llofnod: ..... Dyddiad: .....



## 'CADW'N DDIOGEL'

### Safonau Preswyl a Digwyddiadau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

Fy enw yw: .....

O Blwyf: ..... yn cynrychioli Esgobaeth: .....

Byddaf yn mynychu'r digwyddiad preswyl canlynol: .....

O:..... tan: .....

yn: ..... fel rhan o ddigwyddiad gan yr Eglwys yng Nghymru.

Rwy'n deall y bydd plant a phobl ifanc yn derbyn llety yn ystod y cyfnod hwn.

Gweler yr amserlen amgaeedig i gael y manylion llawn.


Rwy'n deall bod yr Eglwys yng Nghymru am i bawb fwynhau eu hunain a chael hwyl felly mae'n bwysig bod pawb sy'n mynychu wedi ymrwymo i'r safonau isod er mwyn 'cadw'n ddiogel'.

### Safonau a Ddisgwylir gan Blant a Phobl Ifanc sy'n Mynychu

- ymddwyn yn barchus a chyfrifol tuag at eu hunain ac eraill bob amser;
- gweithredu yn unol â'r gyfraith, dilyn polisiau a gweithdrefnau'r Eglwys yng Nghymru (yn cynnwys y Polisi Diogelu) a'r sefydliadau hynny rydym yn gweithio â nhw yn ystod y daith breswyl hon;
- dilyn cyfarwyddiadau goruchwylwyr, yn cynnwys amser rhesymol ar gyfer 'diffodd y golau / cysgu';
- dilyn y 'Polisi Dim Alcohol' yn cynnwys peidio â chamddefnyddio sylweddau fel y nodir ym Mholisi Diogelu'r Eglwys yng Nghymru;
- defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol ac yn unol â pholisiau a gweithdrefnau'r Eglwys yng Nghymru (yn cynnwys y Polisi Diogelu a Rheoliadau Gwarchod Data). Rhai enghreifftiau:
  - \* Dim ond cyhoeddi lluniau gyda chydysyniad penodol y rhai sy'n ymddangos ynddyn nhw a thrwy gydsyniad rhieni,
  - \* Dim ond tagio pobl eraill os ydyn nhw wedi cydsynio'n benodol i hynny,
  - \* Defnyddio'r 'hashnodau' cydnabyddedig ar gyfer y digwyddiad, fel #CorffLlyw;
- sicrhau bod o leiaf un goruchwyllydd yn gwybod ble rydych chi bob amser;
- defnyddio ffonau symudol a dyfeisiau trydanol eraill yn ddiogel a chyfrifol;
- peidio â defnyddio dyfeisiau trydanol yn y nos, ac eithrio mewn argyfwng. Mae hyn yn hyrwyddo noson dda o gwsg;
- sicrhau eich bod yn cadw'r manylion ar gyfer cysylltu mewn argyfwng â goruchwylwyr dynodedig gyda chi bob amser;
- darparu rhif ffôn symudol (os oes un i'w gael a gyda chydysyniad rhieni) fel y gellir cysylltu â nhw mewn argyfwng ac i'w ddefnyddio yn ystod y digwyddiad hwn yn unig;
- siarad ag un o'r goruchwylwyr os oes unrhyw bryderon am ddiogelwch neu les eu hunain neu eraill;
- rhoi sylw i'r pedwar peth pwysig – Cydweithredu, Bod yn Ystyriol, Gofalgar a Chwrtais.

Rwy'n cytuno i safonau a disgwyladau 'Cadw'n Ddiogel, a amlinellwyd uchod.

Llofnod: ..... Dyddiad: .....

YR EGLWYS  
YNG NGHYMRUTHE CHURCH  
IN WALES

## 'CADW'N DDIOGEL'

### Safonau Preswyl a Digwyddiadau ar gyfer Goruchwylwyr Plant a Phobl Ifanc

Fy enw yw: .....

O Blwyf: ..... yn cynrychioli Esgobaeth: .....

Byddaf yn mynychu'r digwyddiad preswyl canlynol fel Goruchwylwr: .....

O:..... tan: .....

yn: ..... fel rhan o ddigwyddiad gan yr Eglwys yng Nghymru.

Rwy'n deall y bydd Goruchwylwyr yn derbyn llety yn ..... yn ystod y cyfnod hwn. Gweler yr amserlen amgaaedig i gael y manylion llawn.

Fel goruchwylwr rwyf am i bawb fwynhau eu hunain a chael hwyl felly mae'n bwysig bod pawb sy'n mynychu wedi ymrwmo i'r safonau isod er mwyn 'cadw'n ddiogel'.

### Safonau a Ddisgwylir gan Oruchwylwyr sy'n Mynychu

- dilyn y Gyfraith a Pholisïau a Gweithdrefnau'r Eglwys yng Nghymru (yn cynnwys y Polisi Diogelu) drwy ystyried diogelwch plant a phobl ifanc dan eu gofal bob amser a gweithredu'n syth ar bryderon diogelu;
- cytuno pwy fydd yn gyfrifol am y llinell ffôn ddiogelu ddynodedig ac ymateb a gweithredu'n syth ar unrhyw alwadau a dderbynnir;
- dim ond defnyddio rhifau ffonau symudol personol y plant a'r bobl ifanc ar gyfer y digwyddiad hwn mewn argyfwng yn unig;
- ystyried canlyniad asesiadau risg unigol i reoli / dileu risgiau;
- bod yn ymwybodol o leoliad y plant a'r bobl ifanc yn eu gofal a bod yn gyfrifol am eu goruchwyllo;
- parchu preifatrwydd y plant a'r bobl ifanc;
- sicrhau bod 'Polisi Dim Alcohol' yn cynnwys polisi camdefnyddio sylweddau'n cael ei orfodi fel y nodir ym Mholisi Diogelu'r Eglwys yng Nghymru;
- defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol ac yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Eglwys yng Nghymru yn cynnwys y Polisi Diogelu. Rhai enghreifftiau:
  - \* dim ond cyhoeddi lluniau gyda chydysyniad penodol y rhai sy'n ymddangos ynddyn nhw a thrwy gydsyniad rhieni,
  - \* dim ond tagio pobl eraill os ydyn nhw wedi cydsynio i hynny,
  - \* defnyddio'r 'hashnodau' cydnabyddedig ar gyfer y digwyddiad, fel #CorffLlyw;
- ystyried y pedwar peth pwysig – Cydweithredu, Bod yn Ystyriol, Gofalgar a Chwrtais er mwyn sicrhau bod y digwyddiad yn cael ei gynnal yn ddidrafferth.

Rwy'n cytuno i safonau a disgwyladau 'Cadw'n Ddiogel', a amlinellwyd uchod.

Llofnod: ..... Dyddiad: .....







Yn ôl i'r Mynegai